



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru
(Cofnod y Trafodion)**

**The National Assembly for Wales
(The Record of Proceedings)**

**Dydd Mawrth, 14 Mehefin 2005
Tuesday, 14 June 2005**

Cynnwys
Contents

Cwestiynau i'r Prif Weinidog Questions to the First Minister	3
Datganiad Busnes Business Statement.....	31
Datganiad ar 'Gre'u'r Cysylltiadau'—Cynllun Gweithredu Statement on 'Making the Connections'—Action Plan	34
Datganiad ar Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i Adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon ar gyfraniad y Celfyddydau a Chwaraeon at Adfywio Cymunedol Statement on the Welsh Assembly Government's response to the Culture, Welsh Language and Sport Committee's Report on the Contribution of Arts and Sports to Community Regeneration.....	50
Cynnig Cyfansawdd: Cymeradwyo Gorchmynion Composite Motion: Approval of Orders.....	65
Dadl Plaid Leiafrifol (Plaid Cymru): Ariannu Ysgolion Minority Party Debate (Plaid Cymru): School Funding.....	67
Dadl o dan Reol Sefydlog Rhif 31: Cronfeydd Ymddiriedolaeth Plant Debate under Standing Order No. 31: Child Trust Funds	95

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynndi yn y Siambr.
Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad o'r areithiau hynny.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were
spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation of those speeches has been
included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 2 p.m. gyda'r Llywydd yn y Gadair.
The Assembly met at 2 p.m. with the Presiding Officer in the Chair.*

Cwestiynau i'r Prif Weinidog Questions to the First Minister

Symud Drosodd i Deledu Digidol Digital Switchover

Q1 Eleanor Burnham: Will the Minister make a statement on plans for digital switchover in Wales? OAQ0579(FM)

C1 Eleanor Burnham: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar gynlluniau i symud drosodd i deledu digidol yng Nghymru? OAQ0579(FM)

The First Minister (Rhodri Morgan): Although broadcasting is not devolved to the National Assembly for Wales, we are in regular discussion with the UK Government and with Ofcom in relation to broadcasting issues, including digital switchover. Alun Pugh and I had a meeting only yesterday with Michael Grade, chairman of the BBC board of governors, and with Merfyn Jones, his opposite number in Wales. This issue was discussed at yesterday's meeting.

Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan): Er nad yw darlledu wedi'i ddatganoli i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, yr ydym yn cynnal trafodaeth reolaidd gyda Llywodraeth y DU a chydag Ofcom ynghylch materion darlledu, gan gynnwys y newid i ddigidol. Cafodd Alun Pugh a mi gyfarfod ddoe ddiwethaf gyda Michael Grade, cadeirydd bwrdd llywodraethwyr y BBC, a chyda Merfyn Jones, y swyddog sy'n cyfateb iddo yng Nghymru. Trafodwyd y mater hwn yn y cyfarfod ddoe.

Eleanor Burnham: You will know that Wales will be the first region to switch over in 2008. Ofcom has stated that the coverage will be no better than it is now with analogue television, whereby 85,000 people are denied access to Welsh television. Figures released at the weekend show that digital take-up is growing, but the poor, the vulnerable and the elderly might struggle with the cost. With only 30 months to go before digital switchover, what pressure are you and the Assembly Government putting on the UK Government to make sure that the switchover is the dawn of a new and successful technology?

Eleanor Burnham: Gwyddoch mai Cymru fydd y rhanbarth cyntaf i symud drosodd yn 2008. Mae Ofcom wedi datgan na fydd y cyrhaeddiad yn ddim gwell nag ydyw ar hyn o bryd gyda theledu analog, lle y mae 85,000 o bobl yn methu gweld teledu o Gymru. Mae'r ffigurau a ryddhawyd dros y Sul yn dangos bod mwy a mwy o bobl yn dewis teledu digidol, ond gallai'r tlawd, y bregus a'r oedrannus gael problem gyda'r gost. Gyda dim ond 30 mis i fynd cyn newid i ddigidol, pa bwysau yr ydych chi a Llywodraeth y Cynulliad yn ei roi ar Lywodraeth y DU i sicrhau mai cam dechreuol technoleg newydd a llwyddiannus fydd y newid drosodd?

The First Minister: Digital technology is not primarily about extending the coverage to the 1.5 per cent of the population that does not have good television reception. North-east Wales is quite prominent in this regard. The technology is about extending the number of channels that you can get if you are already lucky enough to have coverage. All sorts of solutions are being proposed, including the

Y Prif Weinidog: Nid prif ddiben technoleg ddigidol yw ymestyn y gwasanaeth i'r 1.5 y cant o'r boblogaeth nad yw'n cael derbyniad teledu da. Mae gogledd-ddwyrain Cymru'n eithaf blaenllaw yn hyn o beth. Diben y dechnoleg yw ymestyn nifer y sianelau y gallwch eu cael os ydych eisoes yn ddigon ffodus i gael derbyniad. Mae pob math o atebion yn cael eu cynnig, gan gynnwys

interesting Freesat proposition. That would extend coverage and include people who cannot, for instance, receive Freeview. We recognise that the topography of north-east Wales makes it easier for people to receive non-Welsh stations. That is regrettable because it prevents them from being kept up to date with what is happening in public affairs that may affect them.

Lisa Francis: It is estimated that about 1.4 million people in Wales listen to commercial radio on a weekly basis. That is important for news, weather and travel bulletins and for community information, including charitable and social events. In light of the revision of public service broadcasting in Wales, it is important that we encourage—

The Presiding Officer: Order. This question is about digital television, not radio.

Lisa Francis: My question relates to the issue of digital switchover.

The Presiding Officer: All right.

Lisa Francis: I am grateful to you.

First Minister, do you think that it is right that Ofcom decided that BBC nations and regions could not deliver its own transponder but would have to wait for commercial radio to meet the cost? How will your Government ensure that commercial radio is given the encouragement to do that?

The First Minister: I will have to write to you on the details because, again, that is not a devolved matter; it is primarily a matter for Ofcom. I am glad that you managed to draw our attention to the connection between commercial radio, digital radio and digital television. For instance, you can get Irish commentary on the British and Irish Lions' tour games at 8.10 a.m. on Wednesday and Saturday mornings by tuning in to RTE or via a digital radio set or digital radio on your television. You can tune in to RTE on long wave in some parts of Wales, while other parts are disadvantaged because this is not possible there. This shows the importance of

cynnig diddorol Freesat. Byddai hwnnw'n ymestyn y cyrhaeddiad ac yn cynnwys pobl sydd yn methu derbyn Freeview, er enghraifft. Sylweddolwn fod topograffeg y Gogledd-ddwyrain yn ei gwneud yn haws i bobl dderbyn gorsafoedd o'r tu allan i Gymru. Mae hynny'n resyn oherwydd y mae'n eu rhwystro rhag cael y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch yr hyn sydd yn digwydd mewn materion cyhoeddus a allai effeithio arnynt.

Lisa Francis: Amcangyfrifir bod tua 1.4 miliwn o bobl yng Nghymru'n gwranddo ar radio masnachol bob wythnos. Mae hynny'n bwysig ar gyfer bwletinâu newyddion, tywydd a theithio ac ar gyfer gwybodaeth gymunedol, gan gynnwys digwyddiadau elusennol a chymdeithasol. Yn sgîl adolygu darlledu gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru, mae'n bwysig ein bod yn annog—

Y Llywydd: Trefn. Cwestiwn am deledu digidol yw hwn, nid radio.

Lisa Francis: Mae a wnelo fy nghwestiwn â'r symud drosodd i deledu digidol.

Y Llywydd: O'r gorau.

Lisa Francis: Yr wyf yn ddiolchgar i chi.

Brif Weinidog, a gredwch ei bod yn iawn bod Ofcom wedi penderfynu na châl gwasanaeth cenhedloedd a rhanbarthau'r BBC sefydlu ei drawsatebwr ei hun ond y byddai'n rhaid iddo aros i radio masnachol dalu'r gost? Sut y gwnaiff eich Llywodraeth sicrhau y rhoddir yr anogaeth i radio masnachol wneud hynny?

Y Prif Weinidog: Bydd yn rhaid imi ysgrifennu atoch am y manylion oherwydd, eto, nid yw hynny'n fater datganoledig; mater i Ofcom ydyw yn bennaf. Yr wyf yn falch ichi lwyddo i dynnu ein sylw at y cysylltiad rhwng radio masnachol, radio digidol a theledu digidol. Er enghraifft, gallwch gael sylwebaeth o Iwerddon ar gemau taith rygbi'r Llewod am 8.10 a.m. ar fore Mercher a bore Sadwrn trwy diwnio i mewn i RTE neu drwy set radio ddigidol neu radio digidol ar eich teledu. Gallwch diwnio i mewn i RTE ar y donfedd hir mewn rhai rhannau o Gymru, tra bo rhannau eraill dan anfantais am nad yw hynny'n bosibl yno. Dyna ddangos

spreading digital radio more quickly beyond where it is available now and via television.

pwysigrwydd lledaenu radio digidol yn gyflymach y tu hwnt i'r manau lle mae ar gael yn awr a thrwy'r teledu.

Ffioedd Atodol Top-up Fees

Q2 Glyn Davies: What plans does the First Minister have to ensure that the Government's budget for the next three years takes full account of the Assembly's instruction not to introduce top-up fees to Welsh-domiciled students? OAQ0592

C2 Glyn Davies: Pa gynlluniau sydd gan y Prif Weinidog i sicrhau bod cyllideb y Llywodraeth ar gyfer y tair blynedd nesaf yn rhoi ystyriaeth lawn i gyfarwyddyd y Cynulliad i beidio â chyflwyno ffioedd atodol i fyfyrwyr sy'n huanu o Gymru? OAQ0592(FM)

The First Minister: I think that all parties in the Assembly are agreed that we must settle the issue of the tuition-fee regime and make the appropriate budgetary provision for 2007-08. After that, we will be in a new spending review, and we will be informed by the Treasury in July 2006 of the amount available to us for that period.

Y Prif Weinidog: Credaf fod pob plaid yn y Cynulliad yn gytún bod yn rhaid inni setlo cwestiwn y drefn o ran ffioedd dysgu a gwneud y ddarpariaeth gyllidebol briodol ar gyfer 2007-08. Wedi hynny, byddwn mewn adolygiad gwariant newydd, a chawn wybod gan y Trysorlys ym mis Gorffennaf 2006 faint fydd ar gael inni ar gyfer y cyfnod hwnnw.

Glyn Davies: I realise that discussions on this issue are ongoing. However, the position is clear: there must not be top-up fees for Welsh-domiciled students, and alternative budgetary arrangements must be put in place to fund higher education institutions. Do you accept that your budget will have to fully reflect this position? If it does not, it will fall, and deservedly so.

Glyn Davies: Sylweddolaf fod trafodaethau ar y mater hwn yn mynd rhagddynt ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae'r sefyllfa'n glir: rhaid peidio â chyflwyno ffioedd atodol i fyfyrwyr o Gymru, a rhaid gwneud trefniadau cyllidebol amgen i ariannu sefydliadau addysg uwch. A ydych yn derbyn y bydd yn rhaid i'ch cyllideb adlewyrchu'r sefyllfa hon yn llawn? Os na wnaiff, bydd yn methu, a hynny'n haeddiannol.

The First Minister: We intend to respect all Assembly decisions. We have to do that; that is how any democratic body works. However, what you cannot have, Glyn, as I am sure that you would be the first to point out, is 25 successive Assembly resolutions on every Tuesday and Wednesday for the next six months all of which are demanding budgetary commitments of more than £1 billion. That would add up to twice our budget and would clearly be a nonsense. We have to make a budget, and it has to respect Assembly decisions.

Y Prif Weinidog: Bwriadwn barchu holl benderfyniadau'r Cynulliad. Mae'n rhaid inni wneud hynny; dyna sut y mae unrhyw gorff democrataidd yn gweithio. Fodd bynnag, yr hyn na allwch ei gael, Glyn, fel y byddech chi'n nodi o flaen neb arall, yr wyf yn siŵr, yw 25 penderfyniad yn olynol gan y Cynulliad bob dydd Mawrth a dydd Mercher am y chwe mis nesaf i gyd yn mynnu ymrwymadau cyllidol o fwy nag £1 biliwn. Byddai hynny'n gyfanswm o gymaint ddwywaith â'n cyllideb ac yn amlwg yn ddwli. Mae'n rhaid inni lunio cyllideb, ac mae'n rhaid i honno barchu penderfyniadau'r Cynulliad.

Janet Ryder: Do you not agree that one cause of confusion at the moment is your Government's pledge not to introduce top-up

Janet Ryder: Oni chytunwch mai un peth sy'n peri dryswch ar hyn o bryd yw addewid eich Llywodraeth i beidio â chyflwyno

fees until 2007? If top-up fees are introduced in Wales in 2007, that would be a year after they were introduced in England. A consequence of that pledge is that students in Wales, wherever they come from, will not be able to access the new bursaries and grants that are being introduced in England in 2006. That is included in the Rees report, which seems to have all-party support. Were you aware of that consequence when your Government made its pledge?

The First Minister: The bursaries are offered by English universities and are paid for by top-slicing fee income from those students who are not eligible for bursaries. That is a self-funding operation, undertaken by English universities. No additional funds are being provided by Government; the money is simply taken out of the universities' fee income, in order to meet the Office for Fair Access criteria for improving the proportion of students at university from state schools, or non-traditional backgrounds, I believe. Therefore, there is not an issue here for Welsh universities. Welsh students attending English universities would be equally as eligible as English students for those bursaries, if they meet the means-test criteria or are willing to study unpopular subjects such as mathematics and engineering.

Peter Black: Can you outline what support systems will be in place for students in 2006-07 who will be attending Welsh universities and will not have to pay the fees, under your Government's pledge?

The First Minister: I am sorry; I missed the first part of the question.

Peter Black: Would you outline what support systems will be in place for Welsh students in Welsh higher education institutions?

The Presiding Officer: Order. I ask Members to stop chattering when the First Minister is being asked important supplementary questions.

ffioedd atodol tan 2007? Os cyflwynir ffioedd atodol yng Nghymru yn 2007, byddai hynny flwyddyn ar ôl eu cyflwyno yn Lloegr. Canlyniad yr addewid hwnnw yw na fydd myfyrwyr yng Nghymru, o ble bynnag y deuant, yn gallu cael y bwrsariau a'r grantiau newydd a gyflwynir yn Lloegr yn 2006. Mae hynny wedi'i gynnwys yn adroddiad Rees, ac yn cael ei gefnogi gan y pleidiau i gyd, mae'n debyg. A oeddech yn ymwybodol o'r canlyniad hwnnw pan wnaeth eich Llywodraeth ei haddewid?

Y Prif Weinidog: Cynigir y bwrsariau gan brifysgolion Lloegr a thelir amdanynt drwy frigidorri incwm ffioedd oddi wrth y myfyrwyr hynny nad ydynt yn gymwys i gael bwrsariau. Gwaith sydd yn talu amdano'i hun yw hynny, a wneir gan brifysgolion Lloegr. Ni ddarperir dim cyllid ychwanegol gan y Llywodraeth; tynnir yr arian allan o incwm ffioedd y prifysgolion, er mwyn bodloni meini prawf y Swyddfa Dros Fynediad Teg ar gyfer gwella cyfran y myfyrwyr mewn prifysgolion a ddaw o ysgolion y wladwriaeth, neu gefndiroedd anhraddodiadol, fe gredaf. Felly, nid oes problem yma i brifysgolion Cymru. Byddai myfyrwyr o Gymru sy'n mynychu prifysgolion yn Lloegr yr un mor gymwys â myfyrwyr o Loegr i gael y bwrsariau hynny, os ydynt yn bodloni meini prawf y prawf moddion neu os ydynt yn fodlon astudio pynciau amhoblogaidd fel mathemateg a pheirianneg.

Peter Black: A allwch amlinellu pa systemau cymorth a fydd ar gael i fyfyrwyr yn 2006-07 a fydd yn mynychu prifysgolion yng Nghymru heb orfod talu'r ffioedd, yn unol ag addewid eich Llywodraeth?

Y Prif Weinidog: Mae'n ddrwg gennyf; collais ran gyntaf y cwestiwn.

Peter Black: A wnewch chi amlinellu pa systemau cymorth a fydd ar gael i fyfyrwyr o Gymru mewn sefydliadau addysg uwch yng Nghymru?

Y Llywydd: Trefn. Gofynnaf i Aelodau beidio â chlebran pan fydd cwestiynau atodol pwysig yn cael eu gofyn i'r Prif Weinidog.

The First Minister: The support system would be appropriate, whether you are talking about means-tested students or not. Not having top-up fees is universal in Wales, so you do not need the same bursary support as you do if you have full top-up fees for a later date, let us say. If you do not have fees above £1,200 in that first year, you do not have the same need for means-tested bursaries. However, it is true that there will be a likelihood of attractive offers being made to Welsh students who pass the means test and will be eligible for bursaries, especially from English universities that currently have a poor record of having students from state schools or non-traditional backgrounds.

Y Prif Weinidog: Byddai'r system gymorth yn briodol, ni waeth ai sôn yr ydych am fyfyrwyr sy'n destun prawf moddion ai peidio. Mae peidio â chael ffioedd atodol yn gyffredinol yng Nghymru, felly nid oes angen yr un cyomrth bwrsari â phe bai gennych ffioedd atodol llawn ar gyfer dyddiad diweddarach, dyweder. Os nad oes gennych ffioedd dros £1,200 yn y flwyddyn gyntaf honno, nid oes gennych yr un angen am fwrsariau â phrawf moddion. Fodd bynnag, mae'n wir y bydd tebygrwydd y gwneir cynigion atyniadol i fyfyrwyr o Gymru sy'n pasio'r prawf moddion ac a fydd yn gymwys i gael bwrsariau, yn enwedig gan brifysgolion yn Lloegr sydd â record wael ar hyn o bryd o ran bod â myfyrwyr o ysgolion y wladwriaeth neu gefndiroedd anhraddodiadol.

Pwerau Deddfwriaethol y Cynulliad The Legislative Powers of the Assembly

Q3 The Leader of the Opposition (Ieuan Wyn Jones): Will the First Minister make a statement on the White Paper regarding the legislative powers of the Assembly? OAQ0569(FM)

C3 Arweinydd yr Wrthblaid (Ieuan Wyn Jones): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar y Papur Gwyn ynglŷn â phwerau deddfwriaethol y Cynulliad? OAQ0569(FM)

The First Minister: Yes, as soon as possible.

Y Prif Weinidog: Gwnaf, cyn gynted ag y bo modd.

Ieuan Wyn Jones: That was a very helpful reply, First Minister. I am rather curious about the role that you and the Welsh Assembly Government have had in the preparation of the White Paper. Ministers in London are giving regular briefings to journalists that seem to suggest that they are the central figures in the debate on the White Paper, and that the First Minister is regarded as rather a peripheral figure, because you are not giving briefings to anyone about what might be contained in the White Paper. Who is actually running the show when it comes to the White Paper? Is it your colleagues in London or your Government in Cardiff?

Ieuan Wyn Jones: Dyna ateb sydd o gymorth mawr, Brif Weinidog. Yr wyf braidd yn chwilfrydig am y rôl yr ydych chi a Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i chael ynglŷn â pharatoi'r Papur Gwyn. Mae Gweinidogion yn Llundain yn rhoi sesiynau briffio rheolaidd i ohebwyrsydd fel pe baent yn awgrymu mai hwy yw'r ffigurau canolog yn y ddadl ar y Papur Gwyn, ac bod y Prif Weinidog yn cael ei ystyried yn ffigur ymylol braidd, oherwydd nid ydych chi'n briffio neb ynghylch beth a allai gael ei gynnwys yn y Papur Gwyn. Pwy sydd mewn gwirionedd yn rhedeg y sioe o safbwynt y Papur Gwyn? Ai eich cyd-aelodau yn Llundain ynteu eich Llywodraeth chi yng Nghaerdydd?

The First Minister: I would gladly plead guilty to not being the world's greatest briefer of journalists. That is not the least of my virtues, to be honest, without wishing to boast to the Assembly. It is important that we realise that it is the UK Government's White

Y Prif Weinidog: Byddwn yn falch o bledio'n euog i'r cyhuddiad nad myfi yw'r gorau yn y byd am friffio gohebwyrsy. Nid hynny yw'r lleiaf o'm rhinweddau, a dweud y gwir, heb ddymuno brolio wrth y Cynulliad. Mae'n bwysig inni sylweddoli mai Papur

Paper and, if we can get a Bill at the end of the process, as indicated, it will be the UK Government's Bill.

2.10 p.m.

We have all accepted, in being elected to the Assembly in 1999 and 2003, that we do not have the ability to change our own powers. Our powers can only be changed by an Act of Parliament. Therefore, it is an Act of Parliament that we are looking for. We hope, following Labour's manifesto commitment and election victory, that we will get an Act of Parliament sufficient to change our powers. However, we have been heavily involved in this process. Based on the 80:20 rule, our officials have been involved 80 per cent to the Wales Office's 20 per cent, but in terms of political control of the process, it has been the Wales Office at 80 per cent to our 20 per cent.

Ieuan Wyn Jones: That is an interesting answer, but it did not answer the question of who is driving the agenda forward. Let us put that to one side, and come to some of the briefings given by your Westminster colleagues. They do not seem to be as coy as you are about telling the press what is in the White Paper; the press seems to know all about it. The proposal that everyone accepts will be in the White Paper, as every newspaper and television journalist seems to know about it, is the fast-track procedure. We are told that it will be used so that Westminster is able to legislate through Orders in Council. I want to hear from you where this proposal has come from. This is the kind of thing that the Northern Ireland Assembly is able to do with its reserved powers. That means that there are areas on which it is able to legislate with the consent of the Secretary of State and by Order in Council. Why was this not considered by the Richard commission—it was clearly rejected by the commission—and not discussed in your conference last September? Where has it come from?

The First Minister: Those are your opinions and observations; I am not sure that they would be the conclusions drawn by most

Gwyn Llywodraeth y DU ydyw ac, os gallwn gael Mesur ar ddiwedd y broses, fel yr awgrymwyd, Mesur Llywodraeth y DU fydd hwnnw.

Yr ydym i gyd wedi derbyn, wrth gael ein hethol i'r Cynulliad yn 1999 a 2003, nad oes gennym y gallu i newid ein pwerau ein hunain. Dim ond drwy Ddeddf Seneddol y gellir newid ein pwerau. Felly, Deddf Seneddol sydd arnom ei heisiau. Gobeithiwn, yn sgîl ymrwymiad maniffesto'r blaid Lafur a'i buddugoliaeth yn yr etholiad, y cawn Ddeddf Seneddol ddigonol i newid ein pwerau. Fodd bynnag, yr ydym wedi cymryd rhan fawr yn y broses hon. Ar sail y rheol 80:20, mae ein swyddogion ni wedi cyfrannu 80 y cant o gymharu ag 20 y cant Swyddfa Cymru, ond o ran rheolaeth wleidyddol ar y broses, cyfrannodd Swyddfa Cymru 80 y cant a ninnau 20 y cant.

Ieuan Wyn Jones: Dyna ateb diddorol, ond nid atebodd y cwestiwn ynghylch pwy sydd yn gyrru'r agenda ymlaen. Rhown hynny o'r neilltu, a dod at rai o'r sesiynau briffio a roddwyd gan eich cyd-aelodau yn San Steffan. Nid ymddengys eu bod hwy mor swil â chi ynghylch dweud wrth y wasg beth sydd yn y Papur Gwyn; mae'n ymddangos bod y wasg yn gwybod pob dim amdano. Y cynnig y mae pawb yn derbyn y bydd yn y Papur Gwyn, gan fod pob gohebydd papur newydd a theledu fel pe bai'n gwybod amdano, yw gweithdrefn y llwybr cyflym. Dywedir wrthym y'i defnyddir fel y gall San Steffan ddeddfu drwy Orchymynion yn y Cyfrin Gyngor. Mae arnaf eisiau cael gwybod gennych o ble y daeth y cynnig hwn. Dyma'r math o beth y mae Cynulliad Gogledd Iwerddon yn gallu ei wneud gyda'i bwerau a gadwyd yn ôl. Golyga hynny fod meysydd y gall ddeddfu arnynt gyda chydysniad yr Ysgrifennydd Gwladol a thrwy Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor. Pam nad ystyriwyd hyn gan gomisiwn Richard—yn amlwg fe'i gwrthodwyd gan y comisiwn—ac nas trafodwyd yn eich cynhadledd fis Medi diwethaf? O ble y mae wedi dod?

Y Prif Weinidog: Eich barn a'ch sylwadau chi yw'r rheini; nid wyf yn siŵr ai dyna'r casgliadau y deuai'r rhan fwyaf o bobl

people. We are jumping the gun here by some 24 hours—we are not certain, but we hope that there will be an early announcement on the White Paper, but nothing is definite in the House of Commons until it happens. You used the phrase ‘fast-track procedure’, but it is not a phrase that I have ever used; I have referred to a parliamentary release mechanism. You asked me the same question a fortnight ago. A new arrangement for who does what in terms of Wales-only legislation, between Parliament and the Assembly, is what we are looking for. I am confident that the White Paper proposals, when they emerge, will follow what was agreed in Labour’s special conference on 11 September.

Ieuan Wyn Jones: I am not making up these things, because this is what your colleagues in London are telling the press in briefings. They have appeared in the press and have not been denied. The phrase ‘fast-track procedure’ does not belong to me either, as it was used by a Wales Office Minister. To come back to the idea behind this—whether it is a fast-track procedure, the mechanism that you described, Henry VIII powers or a version of any of these—is not the fundamental flaw in this proposal that Westminster will always have a veto on legislation that the Assembly wants to promote? In other words, the beauty of having full law-making powers, which you originally backed when proposed by the Richard commission, is that it gives the Assembly the flexibility to introduce legislation without having to go cap in hand to Westminster. Do you not think that that is the kind of power that the Assembly should be looking for?

The First Minister: As far as I am aware, that will not be ruled out in the White Paper. However, that would be a further stage, and if it had close similarity to the Scottish model but without the powers of the Home Office and Lord Chancellor, it would have to be sanctioned by a referendum. That was included in the manifesto and was part of the decision of the 11 September Labour conference. The manifesto promise was to bring in a system whereby Parliament could release powers to the Assembly to legislate. I

iddynt. Yr ydym yn mynd o flaen gofid yma o ryw 24 awr—nid ydym yn sicr, ond gobeithiwn y ceir cyhoeddiad cynnar ar y Papur Gwyn, ond nid oes dim yn bendant yn Nhŷ'r Cyffredin nes ei fod yn digwydd. Bu i chi ddefnyddio'r ymadrodd ‘gweithdrefn y llwybr carlam’, ond nid yw'n ymadrodd yr wyf fi wedi ei ddefnyddio erioed; yr wyf wedi cyfeirio at fecanwaith rhyddhau seneddol. Gofynasoch yr un cwestiwn imi bythefnos yn ôl. Trefniant newydd ar gyfer pwy sy'n gwneud beth o ran deddfwriaeth ar gyfer Cymru'n unig, rhwng y Senedd a'r Cynulliad, yw'r hyn sydd arnom ei eisiau. Yr wyf yn hyderus y bydd cynigion y Papur Gwyn, pan ddônt yn hysbys, yn dilyn yr hyn y cytunwyd arno yng nghynhadledd arbennig Llafur ar 11 Medi.

Ieuan Wyn Jones: Nid dyfeisio'r pethau hyn yr wyf, oherwydd dyma beth y mae eich cyd-aelodau yn Llundain yn ei ddweud wrth y wasg mewn sesiynau briffio. Maent wedi ymddangos yn y wasg ac nid oes neb wedi eu gwadu. Nid fi biau'r ymadrodd ‘gweithdrefn y llwybr carlam’ ychwaith, gan mai Gweinidog yn Swyddfa Cymru a'i defnyddiodd. A dod yn ôl at y syniad y tu ôl i hyn—boed yn weithdrefn llwybr cyflym, y mecanwaith a ddisgrifiwyd gennych chi, pwerau Harri VIII neu'n fersiwn o unrhyw un o'r rhain—onid y diffyg sylfaenol yn y cynnig hwn yw y bydd gan San Steffan bob amser fetu ar ddeddfwriaeth y dymuna'r Cynulliad ei hyrwyddo? Hynny yw, mantais cael pwerau deddfu llawn, a gefnogasoch yn wreiddiol pan gynigiwyd hwy gan gomisiwn Richard, yw bod hynny'n rhoi hyblygrwydd i'r Cynulliad gyflwyno deddfwriaeth heb orfod mynd â'i gap yn ei law i San Steffan. Oni chredwch mai dyna'r math o bŵer y dylai'r Cynulliad fod yn ceisio ei gael?

Y Prif Weinidog: Hyd y gwn, ni fydd y posibilrwydd hwnnw'n cael ei ddiystyru yn y Papur Gwyn. Fodd bynnag, byddai hynny'n gam pellach, a phe bai'n debyg iawn i fodel yr Alban ond heb bwerau'r Swyddfa Gartref a'r Arglwydd Ganghellor, byddai'n rhaid ei awdurdodi drwy refferendwm. Cafodd hynny ei gynnwys yn y maniffesto ac yr oedd yn rhan o benderfyniad cynhadledd y blaid Lafur ar 11 Medi. Yr addewid yn y maniffesto oedd cyflwyno system a fyddai'n caniatáu i'r Senedd ryddhau pwerau i'r Cynulliad i

believe that that will be there.

It said that we could go further than that to have full primary legislative powers, but subject to a referendum. The question is whether it is workable. Does it give us the tools to do the job? Does it not run too far ahead of public opinion in Wales? Will it be available by the beginning of the third Assembly in 2007? You may say that it is not good enough, but I say that it is practical, it is available to the third Assembly, and it will meet our requirements.

The Leader of the Welsh Liberal Democrat Group (Michael German): I wonder whether we are going to see a step forward—and we may have to wait 24 hours before you can confirm this—or a step forward with drawing pins beneath our feet. We will have to wait for that decision to find out. If the description that you have now given of the system to Ieuan Wyn Jones is accurate, can you hazard a guess as to the sorts of changes that would have to take place within the National Assembly post 2007 to cope with the scrutiny of the Bills that we may want to propose? I assume that you meant that the full scrutiny process would take place here. Could you just outline your view of how the National Assembly might look post 2007 if that were the case?

The First Minister: We would be far more legislation driven. There is no doubt about that. We have not had a work study or expert in here keeping a stopwatch on exactly what we do, but I would hazard a guess that our workload, with all the implications for what we do and how we spend our time, is 20 per cent legislation driven now, and, if these changes were to take place, the third Assembly would be approximately 50 per cent legislation driven. As for how much of our time would be spent, as in the Scottish Parliament or at Westminster, actually going through legislation line by line, I would think that it would rise from 20 per cent to roughly 50 per cent.

Michael German: My next question, First Minister, is obvious. If we are going to have to give that much more time to this sort of

deddfu. Credaf y bydd hynny yno.

Dywedodd y gallem fynd yn bellach na hynny a chael pwerau deddfu sylfaenol llawn, ond bod hynny'n amodol ar refferendwm. Y cwestiwn yw a ydyw'n ymarferol. A yw'n ein galluogi i wneud y gwaith? Onid yw'n rhy bell ar y blaen i'r farn gyhoeddus yng Nghymru? A fydd ar gael erbyn dechrau'r trydydd Cynulliad yn 2007? Efallai eich bod yn dweud nad yw'n ddigon da, ond dywedaf fi ei fod yn ymarferol, ei fod ar gael i'r trydydd Cynulliad, ac y bydd yn diwallu ein hanghenion.

Arweinydd Grŵp Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (Michael German): Tybed a welwn gam ymlaen—ac efallai y bydd yn rhaid inni aros 24 awr cyn y gallwch gadarnhau hyn—yn teu cam ymlaen a phinnau bawd dan ein traed? Bydd yn rhaid inni aros am y penderfyniad hwnnw er mwyn cael gwybod. Os yw'r disgrifiad yr ydych newydd ei roi o'r system i Ieuan Wyn Jones yn gywir, a allwch ddyfalu ynghylch y mathau o newidiadau y byddai'n rhaid eu cael yn y Cynulliad Cenedlaethol ar ôl 2007 er mwyn gallu ymdopi â'r gwaith o graffu ar y Mesurau y gallem fod eisiau eu cynnig? Cymeraf eich bod yn golygu y byddai'r holl broses o graffu'n digwydd yma. A allwch amlinellu sut y byddai'r Cynulliad Cenedlaethol yn edrych ar ôl 2007, yn eich barn chi, pe digwyddai hynny?

Y Prif Weinidog: Byddai'n ymwneud â deddfu i raddau mwy o lawer. Nid oes amheuaeth am hynny. Nid ydym wedi cael astudiaeth gwaith neu arbenigwr yma'n mesur yn union yr hyn a wnawn â stopwatsh, ond byddwn yn dyfalu, o ystyried yr holl oblygiadau i'r hyn a wnawn a'r modd y treuliwn ein hamser, fod 20 y cant o'n llwyth gwaith yn ymwneud â deddfu yn awr, a, phe ceid y newidiadau hyn, byddai tua 50 y cant o lwyth gwaith y trydydd Cynulliad yn ymwneud â deddfu. O ran yr amser a dreuliem, fel y gwneir yn Senedd yr Alban neu yn San Steffan, yn mynd drwy ddeddfwriaeth fesul llinell, credaf y codai hynny o 20 y cant i tua 50 y cant.

Michael German: Mae'r cwestiwn nesaf sydd gennyf, Brif Weinidog, yn un amlwg. Os byddwn yn gorfod neilltuo cymaint â

work, we must either meet for longer, staying for longer during the week and doing more, or give something up. In the past, you have said that we should not do certain things. Could you indicate what might have to go, in your view, in order to accommodate law-making processes?

The First Minister: I think that that is a matter for the Business Committee and, in fact, for all of us to discuss. However, I have certainly said that in the past. It is the view that I hold, and I do not think that it will be that difficult to accommodate it. Legislation is bound to take primacy over non-legislative activities. If you have the powers and want to use them, you find that other matters tend to go by the board. That is the nature of the changing character of the Assembly, as I anticipate it. I would not have thought that to be a matter of controversy between the parties or between frontbenchers and backbenchers, as it means a greater role for backbenchers in scrutinising and a greater role for the Government side in generating the legislative activities that meet the needs of the people of Wales.

Michael German: Colleagues in the Scottish Parliament tell me that their committees now meet on a weekly cycle when legislation is involved, and that Ministers are also tied up considerably in guiding legislation through the legislative process. If we were to have legislative powers, would there not be enormous pressure on the Assembly, in terms of how we currently organise ourselves to manage that process? If Lord Richard was right in saying that we need that run-up from 2007 to 2011 to get to the full legislative process, does it also mean that we will have to reorganise how we work in a way that will probably put far more demands on Assembly Members here?

The First Minister: No. I think that it just means working more effectively and giving primacy to legislation, which is what a legislature should do. I think that the ratio should be 50:50 with other activities, as legislation takes up really quite a small

hynny yn rhagor o amser at waith o'r math hwn, un ai rhaid inni gyfarfod am gyfnodau hwy, gan aros yn hwy yn ystod yr wythnos a gwneud mwy, neu rhaid inni roi'r gorau i rywbeth. Yn y gorffennol, yr ydych wedi dweud bod rhai pethau na ddylem eu gwneud. A allwch ddweud pa bethau y byddai'n rhaid cael gwared arnynt, o bosibl, er mwyn cynnwys prosesau deddfu?

Y Prif Weinidog: Credaf fod hynny'n fater i'w drafod gan y Pwyllgor Busnes, a chan bob un ohonom, mewn gwirionedd. Fodd bynnag, yr wyf yn sicr wedi dweud hynny yn y gorffennol. Dyna yw fy marn, ac ni chredaf y bydd yn anodd iawn ei gynnwys. Mae deddfu'n sicr o gael blaenoriaeth dros weithgareddau nad ydynt yn ymwneud â deddfu. Os oes gennych bwerau a chithau'n dymuno eu harfer, cewch fod materion eraill yn tueddu i gael eu rhoi heibio. Dyna yw natur y newid sy'n digwydd i gymeriad y Cynulliad, fel yr wyf yn ei ragweld. Ni thybiaswn y byddai hynny'n destun dadlau rhwng y pleidiau neu rhwng meincwyr blaen a meincwyr cefn, gan ei fod yn golygu y bydd mwy o rôl i feincwyr cefn wrth graffu a mwy o rôl i ochr y Llywodraeth wrth fynd ati i greu'r ddeddfwriaeth sy'n diwallu anghenion pobl Cymru.

Michael German: Dywed fy nghyd-aelodau yn Senedd yr Alban fod eu pwyllgorau bellach yn cwrdd yn wythnosol pan fo deddfwriaeth dan sylw, a bod Gweinidogion hefyd yn treulio cryn dipyn o amser yn arwain deddfwriaeth drwy'r broses ddeddfu. Pe caem bwerau deddfu, oni fyddai pwysau aruthrol ar y Cynulliad, o ran y modd yr ydym yn ein trefnu ein hunain ar hyn o bryd i reoli'r broses honno? Os oedd yr Arglwydd Richard yn iawn wrth ddweud bod arnom angen y cyfnod paratoi rhwng 2007 a 2011 i gyrraedd y broses ddeddfu lawn, a yw hefyd yn golygu y bydd yn rhaid inni ad-drefnu ein dull o weithio mewn modd sydd yn debygol o ofyn llawer mwy gan Aelodau o'r Cynulliad sydd yma?

Y Prif Weinidog: Nac ydyw. Credaf mai'r cwbl y mae'n ei olygu yw gweithio'n fwy effeithiol a rhoi blaenoriaeth i ddeddfu, sef yr hyn y dylai deddfwrfa ei wneud. Credaf y dylid cael cymhareb 50:50 rhwng hynny a gweithgareddau eraill, gan mai ychydig o'n

minority of our time now. I think that that is part of the Assembly's growing-up process; it means that other matters will go by the board. I certainly do not think that the public in Wales would find an increase in the number of elected AMs acceptable.

hamser a dreulir ynglŷn â deddfu ar hyn o bryd, mewn gwirionedd. Credaf fod hynny'n rhan o broses aeddfedu'r Cynuliad; mae'n golygu y bydd materion eraill yn cael eu rhoi heibio. Yn sicr, ni chredaf y byddai'r cyhoedd yng Nghymru'n barod i dderbyn cynnydd yn nifer yr ACau etholedig.

Adenydd Ffibr Carbon i'r Airbus A350 Carbon-fibre Wings for the Airbus A350

Q4 Ann Jones: Will the First Minister make a statement on the Assembly Government's representations to UK Government departments in respect of the application for repayable launch aid to support the development of carbon-fibre wings for the Airbus A350 at Broughton? OAQ0580(FM)

C4 Ann Jones: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar sylwadau Llywodraeth y Cynulliad i adrannau Llywodraeth y DU mewn perthynas â'r cais am gymorth lansio ad-daladwy i gefnogi datblygu adenydd ffibr carbon i'r Airbus A350 ym Mrychdyn? OAQ0580(FM)

The First Minister: This is a timely issue following the massive order for the A350 placed by Qatar Airways, worth some £8 billion or £9 billion, announced at the Paris air show today. What is important about the A350 is that it is mostly a wing-upgrading proposal. When you say 'wing' and 'Airbus', you obviously mean Broughton, which is the largest factory in Wales—indeed, in the UK. I have, therefore, written to Alan Johnson supporting Airbus UK's repayable launch investment application.

Y Prif Weinidog: Mae hwn yn fater amserol yn sgîl yr archeb enfawr am yr A350 a roddwyd gan Qatar Airways, sydd yn werth rhyw £8 biliwn neu £9 biliwn, a gyhoeddwyd yn sioe awyrennau Paris heddiw. Yr hyn sydd yn bwysig mewn cysylltiad â'r A350 yw mai cynnig sydd yn ymwneud â gwella'r adenydd ydyw'n bennaf. Pan soniwch am 'adain' ac 'Airbus', mae'n amlwg eich bod yn sôn am waith Brychdyn, sef y ffatri fwyaf yng Nghymru—ac yn y DU, yn wir. Felly, yr wyf wedi ysgrifennu at Alan Johnson i gefnogi cais Airbus UK am gymorth lansio ad-daladwy.

Ann Jones: Rhodri, I know that you are aware that the Airbus facility at Broughton provides, both directly and indirectly, a significant number of high-skilled and well-paid jobs for my constituents, from among its 6,000 employees. As you quite rightly said, Airbus is seeking to develop the wings for the A350, which will also be a major contribution to the continuation of wing manufacture at this plant and will, therefore, safeguard those jobs. Will you assure me that you, Rhodri—and this applies to everyone else in the Chamber and to people throughout Wales—will support Airbus UK to develop this new A350 aircraft to help secure the long-term stability of jobs across north Wales?

Ann Jones: Rhodri, gwn eich bod yn ymwybodol bod gwaith Airbus ym Mrychdyn yn darparu nifer fawr o swyddi sydd â chyfflog da i weithwyr hyfedr, yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol, i'm hetholwyr, sydd ymysg ei 6,000 o weithwyr. Fel y dywedasoeh, mae Airbus yn ceisio datblygu'r adenydd ar gyfer yr A350, a bydd hynny hefyd yn rhoi hwb mawr i'r gwaith o gynhyrchu adenydd yn y gwaith hwn ar gyfer y dyfodol ac, felly, yn diogelu'r swyddi hynny. A wnewch fy sicrhau y byddwch chi, Rhodri—ac mae hyn yn berthnasol i bawb arall yn y Siambr ac i bobl ledled Cymru—yn rhoi cymorth i Airbus UK i ddatblygu'r awyren A350 newydd hon i helpu i sicrhau swyddi sefydlog dros dymor hir ledled y Gogledd?

2.20 p.m.

The First Minister: This is as important as digital switchover is in television. This is the carbon-fibre switchover, and, once Airbus has done this on the A350, I guess that it will want to re-engineer the whole family of Airbus aircraft gradually, over the next quarter of a century, because of the weight and fuel saving and in order to meet Kyoto protocol commitments and all those other benefits of using lightweight technology. This is the first, and it is absolutely critical that it is brought to Broughton, which is why I was pleased that it now has the commercial side almost sewn up with the Qatar Airways order. However, it is important that carbon-fibre technology is mastered at the Broughton plant because, although the Spanish already make carbon-fibre tailfins for the existing family of aircraft, all previous Airbus wings have been made at Broughton, so it is important that the commencement of this whole new family of carbon-fibre wings also starts off at Broughton.

Mark Isherwood: When we debated the aerospace industry in Wales a few weeks ago, I recall mentioning that negotiations on the US challenge on state aid over subsidies for the A350 had been ongoing for many months, and that the Americans had stated that they were considering withdrawing their objections regarding the A380 provided that there was no state subsidy for the A350. I was further told by Jonathan Evans two months ago, prior to the general election, that the US was going to register a complaint to the World Trade Organisation on the grounds of state aid. Why, therefore, are we hearing about this issue only now, and why is the Prime Minister proposing to sign a meaningless document at the Paris air show, when he knows full well that he cannot commit the UK or the Welsh Assembly Government to any form of grant or loan on this basis at present?

The First Minister: You make an interesting point, but I am not aware of the World Trade Organisation's having an injunction procedure that would prevent that. It may make a complaint about it and, in theory, it could get compensation, but if you know that

Y Prif Weinidog: Mae hyn cyn bwysiced ag yw'r newid i ddigidol mewn teledu. Y newid i ffeibr carbon yw hyn, ac, wedi i Airbus wneud hyn ar gyfer yr A350, tybiaf y bydd am raddol ailgynllunio'r holl awyrennau yn nheulu Airbus, dros y chwarter canrif nesaf, oherwydd y pwysau a'r tanwydd a arbedir ac er mwyn cyflawni ymrwymadau dan brotocol Kyoto a'r holl fanteision eraill a geir wrth ddefnyddio technoleg ysgafn. Hwn yw'r cyntaf, ac mae'n hollbwysig iddo ddod i Frychdyn, a dyna pam yr oeddwn yn falch ei fod wedi cau pen y mwdwl bron ar yr ochr fasnachol drwy gael yr archeb gan Qatar Airways. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod technoleg ffeibr carbon yn cael ei meistroli yng ngwaith Brychdyn oherwydd, er bod y Sbaenwyr eisoes yn gwneud esgyll ôl o ffeibr carbon ar gyfer y teulu presennol o awyrennau, mae'r holl adenydd blaenorol ar gyfer Airbus wedi'u gwneud ym Mrychdyn, felly mae'n bwysig bod dechrau gwneud y teulu newydd hwn o adenydd ffeibr carbon hefyd yn digwydd ym Mrychdyn.

Mark Isherwood: Pan gawsom ddadl ar y diwydiant awyrofod yng Nghymru ychydig wythnosau'n ôl, cofiaf sôn bod negodiadau ar her yr Unol Daleithiau ynghylch cymorth gwladol ynglŷn â chymorthdaliadau ar gyfer yr A350 wedi bod yn mynd ymlaen ers misoedd lawer, a bod yr Americanwyr wedi dweud eu bod yn ystyried tynnu'n ôl eu gwrthwynebiadau ynghylch yr A380 ar yr amod na roddid cymhorthdal gwladol ar gyfer yr A350. Dywedwyd wrthyf ymhellach gan Jonathan Evans ddau fis yn ôl, cyn yr etholiad cyffredinol, fod yr Unol Daleithiau'n bwriadu cwyno wrth Sefydliad Masnachu'r Byd ynglŷn â rhoi cymorth gwladol. Pam, felly, mai newydd glywed yr ydym am y mater hwn, a pham y mae'r Prif Weinidog yn bwriadu llofnodi dogfen ddiystyr yn sioe awyrennau Paris, ac yntau'n gwybod yn iawn na all rwy mo Llywodraeth y DU na Llywodraeth Cynulliad Cymru i roi dim math o grant na benthyciad ar y sail hon ar hyn o bryd?

Y Prif Weinidog: Yr ydych yn gwneud pwynt diddorol, ond ni wn am weithdrefn gwaharddeb sydd gan Sefydliad Masnachu'r Byd a fyddai'n atal hynny. Caiff wneud cwyn yn ei gylch ac, mewn egwyddor, gallai gael ei ddigolledu, ond os gwyddoch fod ganddo

it also has an injunction procedure, please write to me, and, if I am wrong, I will write to you, Mark. I do not think that it has the ability to stop it, even though it may be able to make a complaint and ask for redress because of it. I am sorry that the USA has decided, in a peremptory way, to break off the negotiations that were looking reasonably promising, I thought, at a time when Boeing was showing signs of not being under huge stress because of competition from Airbus. Boeing has been doing quite well recently as the aerospace industry recovers from the events of 11 September 2001.

weithdrefn gwaharddeb hefyd, ysgrifennwch ataf, os gwelwch yn dda, ac, os wyf wedi camgymryd, ysgrifennaf atoch, Mark. Ni chredaf ei fod yn gallu atal hynny, er y gallai wneud cŵyn a gofyn am iawn o'i herwydd. Mae'n ddrwg gennyf fod UDA wedi penderfynu rhoi'r gorau'n swta i'r negodiadau, a oedd yn ymddangos yn eithaf addawol, yr oeddwn yn credu, ar adeg pan oedd yn ymddangos nad oedd Boeing dan bwysau aruthrol oherwydd y gystadleuaeth o du Airbus. Mae Boeing wedi bod yn gwneud yn eithaf da yn ddiweddar wrth i'r diwydiant awyrfod ddod ato'i hun ar ôl digwyddiadau 11 Medi 2001.

Cyswllt Ffermio Farming Connect

Q5 Mick Bates: Will the First Minister make a statement on the continued delivery of Farming Connect? OAQ0584(FM)

C5 Mick Bates: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar barhad darpariaeth Cyswllt Ffermio? OAQ0584(FM)

The First Minister: That is one of our flagship schemes. Over 6,300 farmers are registered with the free business-planning services that it provides and, to date, over 1,700 farm improvement and farm enterprise capital grants have been approved, totalling over £2.2 million and generating a total on-farm investment in excess of £60 million.

Y Prif Weinidog: Mae hwnnw'n un o'n cynlluniau pwysicaf. Mae mwy na 6,300 o ffermwyr wedi cofrestru i gael y gwasanaethau cynllunio busnes y mae'n eu darparu am ddim a, hyd yma, mae mwy na 1,700 o grantiau gwella fferm a grantiau cyfalaf mentrau fferm wedi'u cymeradwyo, sydd yn werth cyfanswm o fwy na £2.2 miliwn ac yn creu buddsoddiad o fwy na £60 miliwn mewn ffermydd.

Mick Bates: I share your pleasure in those figures. As you will recall, Farming Connect was one of the many positive outcomes of a past partnership. Farming Connect has helped many Welsh farmers to prepare to meet challenges in the future marketplace. Do you think that reducing the common agricultural policy budget and, therefore, support for Welsh farmers to keep the UK rebate will benefit Welsh farmers?

Mick Bates: Ymfalchïaf fel chithau yn y ffigurau hynny. Fel y cofiwch, Cyswllt Ffermio oedd un o'r nifer fawr o ganlyniadau da a gafwyd o bartneriaeth yn y gorffennol. Mae Cyswllt Ffermio wedi helpu llawer o ffermwyr yng Nghymru i baratoi ar gyfer yr heriau a geir yn y farchnad yn y dyfodol. A ydych yn credu y bydd lleihau cyllideb y polisi amaethyddol cyffredin ac, felly, y cymorth i ffermwyr yng Nghymru er mwyn cadw ad-daliad y DU yn dod â budd i ffermwyr Cymru?

The First Minister: That is an interesting and absolutely intergalactic question for the 25 heads of Government and heads of state who will be meeting together in Brussels on Thursday afternoon, night and possibly most of the early hours of Friday morning, as well as in the official Friday morning until Friday lunchtime session. I have said all along that

Y Prif Weinidog: Mae hwnnw'n gwestiwn diddorol a phellgyrhaeddol iawn i'r 25 o benaethiaid Llywodraethau a phenaethiaid gwladwriaethau a fydd yn cwrdd ym Mrwsel brynhawn Iau, nos Iau a thrwy'r rhan fwyaf o'r oriau mân fore Gwener, o bosibl, a hefyd yn y sesiwn swyddogol o fore Gwener hyd amser cinio ddydd Gwener. Yr wyf wedi

something has got to give.

You cannot have a budget that does not exceed 1 per cent of value added tax receipts in Europe, and a substantial commitment to CAP, which the French want to continue, as well as a substantial commitment to structural funds and research and development. You simply cannot do that altogether, so something will have to give. As for what gives, we do not know whether it will be the Fontainebleau rebate, the CAP, structural funds or whatever. However, we have made our position clear: having structural funds is a once-in-a-lifetime, golden-scenario opportunity for us. I have written accordingly.

Helen Mary Jones: Farming Connect has undoubtedly provided valuable support for the farming industry already, and I welcome what I take to be your commitment today to continue it. As Farming Connect develops, will your Government consider looking more closely at what could be done through the scheme to support young people coming into the industry, perhaps by using a low-interest loan system to enable young farmers and new entrants to invest, particularly those who have been perhaps somewhat disadvantaged by the new single farm payment, which is awarded on a historical basis?

The First Minister: I do not have any information on that particular issue of loans to young farmers. However, I think that the point that Mick made earlier is relevant. Farming Connect per se cannot exist, but it can be rolled into the rural development plan, which will become part of the new EU budget, provided that that will exist, to cover the period from 1 January 2007 to 2013. We are confident that it will be rolled into that. Again, because there is no comparable scheme in England, people are looking jealously over the border at the way in which Farming Connect has connected with farmers and produced investment and diversification in Objective 1 areas and outside those areas, in east Wales and so forth. Successful schemes usually find another life under a new name. We are confident about getting a new European rural development plan fund.

dweud ers y dechrau y bydd yn rhaid cael rhyw gyfaddawd.

Ni ellir cael cyllideb nad yw'n fwy nag 1 y cant o'r derbyniadau treth ar werth yn Ewrop, ac ymrwymiad sylweddol i'r PAC, y mae'r Ffrancwyr yn dymuno iddo barhau, yn ogystal ag ymrwymiad sylweddol i gronfeydd strwythurol ac ymchwil a datblygu. Ni ellir cael y cwbl, felly bydd yn rhaid cael rhyw gyfaddawd. O ran yr hyn y ceir cyfaddawd arno, ni wyddom ai ad-daliad Fontainebleau fydd hwnnw, y PAC, cronfeydd strwythurol neu beth bynnag y bo. Fodd bynnag, yr ydym wedi gwneud ein safbwynt yn glir: mae'r cronfeydd strwythurol yn cynnig cyfle euraid nas ceir ond unwaith mewn oes. Yr wyf wedi ysgrifennu i gyfleu hynny.

Helen Mary Jones: Mae'n sicr bod Cyswllt Ffermio wedi rhoi cymorth gwerthfawr i'r diwydiant ffermio eisoes, a chroesawaf yr hyn y cymeraf ei fod yn ymrwymiad gennyh heddiw i'w gadw. Wrth i Cyswllt Ffermio ddatblygu, a fydd eich Llywodraeth yn ystyried yn fanylach yr hyn y gellid ei wneud drwy'r cynllun i gynorthwyo pobl ifanc sy'n dod i mewn i'r diwydiant, efallai drwy ddefnyddio system benthyciadau llog isel i alluogi ffermwyr ifanc a ffermwyr newydd i fuddsoddi, yn enwedig y rhai sydd wedi bod dan anfantais, o bosibl, oherwydd y taliad sengl newydd, a ddyfernir ar sail hanesyddol?

Y Prif Weinidog: Nid oes gennyf wybodaeth ynghylch y mater penodol hwnnw, sef benthyciadau i ffermwyr ifanc. Fodd bynnag, credaf fod y pwynt a wnaeth Mick yn gynharach yn berthnasol. Ni all Cyswllt Ffermio barhau fel y cyfryw, ond gellir ei gynnwys yn y cynllun datblygu gwledig, a fydd yn dod yn rhan o gyllideb newydd yr UE, ar yr amod y bydd honno'n bod, i dalu am y cyfnod o 1 Ionawr 2007 i 2013. Yr ydym yn ffyddiog y caiff ei gynnwys yn hwnnw. Unwaith eto, gan nad oes cynllun tebyg yn Lloegr, mae pobl yn edrych yn eiddgeddus dros y ffin ar y modd y mae Cyswllt Ffermio wedi cysylltu â ffermwyr ac wedi creu buddsoddiad ac arallgyfeirio mewn ardaloedd Amcan 1 a'r tu allan i'r ardaloedd hynny, yn y Dwyrain ac yn y blaen. Fel arfer, bydd cynlluniau llwyddiannus yn ailgodi dan enw newydd. Yr ydym yn ffyddiog y ceir

cronfa Ewropeaidd newydd ar gyfer cynllun datblygu gwledig.

Jonathan Morgan: One disadvantage of the scheme is that some applicants this year, having gone through the application process and incurred costs as a result, have then discovered that the money has run out. Will you seek to commit to reimbursing those people for the costs that they have incurred during that application process?

Jonathan Morgan: Un anfantais sydd ynglŷn â'r cynllun yw bod rhai ymgeiswyr eleni, ar ôl mynd drwy'r broses ymgeisio a mynd i gostau o ganlyniad, wedi darganfod wedyn fod yr arian wedi dod i ben. A wnewch geisio ymrwymo i ad-dalu i'r bobl hynny y costau a ddaeth i'w rhan yn ystod y broses ymgeisio honno?

The First Minister: You are quite right to refer to the fact that one of the problems with the fact that the scheme has been successful is that it has run out of money. The scheme had a specific budget, and it was so successful that the budget has pretty much run out. Around 190 farmers are in the queue, I believe, and we have asked them whether they wish to remain in the queue in order to take any advantage of possible reallocations or whether they wish to withdraw their applications. That is the kind of circumstance in which your plea would be made, I believe. There is then the question of the new rural development plan, which we hope will provide the ability to take the scheme forward. However, this is a regrettable consequence of a successful scheme, and it is the kind of problem that Carwyn Jones and I are glad to have.

Y Prif Weinidog: Mae'n gwbl briodol ichi gyfeirio at y ffaith mai un o'r problemau sydd wedi codi yn sgîl llwyddiant y cynllun yw bod yr arian wedi dod i ben. Yr oedd cyllideb benodol ar gyfer y cynllun, a bu mor llwyddiannus fel bod y gyllideb wedi'i gwario'n llwyr fwy na heb. Mae tua 190 o ffermwyr yn aros eu tro, yr wyf yn credu, ac yr ydym wedi gofyn iddynt a ydynt yn dymuno parhau i aros eu tro er mwyn cael manteisio ar unrhyw ailddyriadau posibl neu a ydynt yn dymuno tynnu eu ceisiadau'n ôl. Mewn amgylchiad o'r math hwnnw y ceid yr apêl a wnaethoch chi, yr wyf yn credu. Yna ceir y cwestiwn am y cynllun datblygu gwledig newydd, y gobeithiwn y bydd yn rhoi'r gallu i fwrw ymlaen â'r cynllun hwn. Fodd bynnag, canlyniad anffodus i lwyddiant y cynllun yw hyn, ac mae Carwyn Jones a minnau'n falch o gael problemau o'r fath.

The Presiding Officer: Question 6, OAQ0581(FM), has been withdrawn.

Y Llywydd: Tynnwyd cwestiwn 6, OAQ0581(FM), yn ôl.

Cyfiawnder Cymdeithasol Social Justice

Q7 Laura Anne Jones: Would the First Minister make a statement on how the Assembly Government is helping South Wales East to achieve social justice? OAQ0591(FM)

C7 Laura Anne Jones: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar sut y mae Llywodraeth y Cynulliad yn helpu Dwyrain De Cymru i gyflawni cyfiawnder cymdeithasol? OAQ0591(FM)

The First Minister: Assembly Government actions to promote social justice in South Wales East are perhaps best seen on the ground. A visit to schemes under the Communities First programme, such as the Brynmawr community radio station and the Pontlottyn multi-use games area, would provide an education to any Member from South Wales East.

Y Prif Weinidog: Efallai mai ar lawr gwlad y gwelir orau y camau a gymerodd Llywodraeth y Cynulliad i hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol yn Nwyrain De Cymru. Byddai ymweliad â chynlluniau sydd yn rhan o raglen Cymunedau yn Gyntaf, fel gorsaf radio cymunedol Bryn-mawr a maes chwaraeon aml-ddefnydd Pontlotyn, yn addysgiadol i unrhyw Aelod o Ddwyrain De Cymru.

Laura Anne Jones: In 2003, the Assembly Government announced that it would provide a deprivation grant for all local authorities, to be distributed according to a formula in 2004-05 and in successive years as part of the Assembly's programme to achieve social justice. Monmouthshire County Council has been awarded £422 for 2005-06. Do you agree that the Assembly Government has yet again failed to recognise that there are severe pockets of deprivation in Monmouthshire, and that this has been reflected in the pathetic amount allocated to this council? Monmouthshire is a large area, and this nominal amount of money is insulting to residents of the constituency and by no means covers the needs there.

The First Minister: I rather thought that you would want to follow up my invitation to visit Pontlottyn or Brynmawr. However, it is important that you realise that it is not appropriate for pockets of deprivation to be covered by the deprivation grant given to local authorities for general deprivation in their areas. The information that we have is that there is only one pocket of deprivation in Monmouthshire, namely in north Abergavenny, which is designated as a pocket of deprivation and receives Communities First grant accordingly. The deprivation grant was meant to achieve the quite different purpose of increasing the funds of those local authorities that suffer from general deprivation. That is why most of that money goes to Blaenau Gwent and other local authorities of that character.

Irene James: Will you join me in welcoming action taken by Caerphilly County Borough Council to tackle the problem of car cruisers in Blackwood, and to bring in dispersal notices ordering a group of two or more people who are causing harassment, alarm or intimidation to move out of the area and to not return? Do you agree that such action, combined with a new mentoring project to provide positive role models for young people in Caerphilly involved in anti-social behaviour, is working to deliver greater social justice to the people of Islwyn?

Laura Anne Jones: Yn 2003, cyhoeddodd Llywodraeth y Cynulliad y byddai'n rhoi grant amddifadedd i'r holl awdurdodau lleol, i'w ddsbarthu yn ôl fformiwla yn 2004-05 a'r blynyddoedd olynol fel rhan o raglen y Cynulliad i sicrhau cyfiawnder cymdeithasol. Dyfarnwyd £422 i Gyngor Sir Mynwy ar gyfer 2005-06. A ydych yn cytuno bod Llywodraeth y Cynulliad wedi methu â chydabod unwaith eto fod llecynnau lle y ceir amddifadedd dybryd yn sir Fynwy, a bod hynny wedi'i adlewyrchu yn y swm pitw a ddyrannwyd i'r cyngor hwn? Mae sir Fynwy'n ardal fawr, ac mae'r swm bach hwn yn sarhad ar drigolion yr etholaeth ac nid yw'n diwallu'r anghenion a geir yno o bellffordd.

Y Prif Weinidog: Yr oeddwn wedi rhyw feddwl y byddech am dderbyn y gwahoddiad a roddais i ymweld â Phontlottyn neu Fryn-mawr. Fodd bynnag, mae'n bwysig ichi sylweddoli nad yw'n briodol ymdrin â llecynnau difreintiedig â'r grant amddifadedd a roddir i awdurdodau lleol ar gyfer amddifadedd cyffredinol yn eu hardaloedd. Yn ôl y wybodaeth sydd gennym, dim ond un llecyn difreintiedig a geir yn sir Fynwy, sef hwnnw yng ngogledd y Fenni, sydd wedi'i ddynodi'n llecyn difreintiedig ac sydd yn cael grant Cymunedau yn Gyntaf o'r herwydd. Yr oedd pwrpas gwahanol i'r grant amddifadedd, sef ychwanegu at gyllid yr awdurdodau lleol hynny sydd yn dioddef gan amddifadedd cyffredinol. Dyna pam y mae'r rhan fwyaf o'r arian hwnnw'n mynd i Flaenau Gwent ac awdurdodau lleol eraill o'r math hwnnw.

Irene James: A wnewch ymuno â mi i groesawu'r camau a gymerwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili i ymdrin â'r broblem a achosir gan rai sydd yn criwsio mewn ceir yn y Coed Duon, ac i gyflwyno rhybuddion gwasgaru sydd yn gorchymyn i grŵp o ddau neu ragor sydd yn aflonyddu neu'n codi ofn neu'n dychryn pobl fynd o'r ardal a pheidio â dychwelyd? A ydych yn cytuno bod camau gweithredu o'r fath, ynghyd â phrosiect mentora newydd i gynnig modelau rôl cadarnhaol i bobl ifanc yng Nghaerffili sydd yn ymddwyn yn wrthgymdeithasol, yn llwyddo i sicrhau mwy o gyfiawnder cymdeithasol ar gyfer pobl

Islwyn?

2.30 p.m.

The First Minister: That sounds like a well-thought-through proposal, because it involves some quite strong action to solve the immediate problem, but also mentoring to ensure that we do not just dwell on the negatives, but try to provide positive alternatives. I would be interested to hear from you in four or five months' time, Irene, as to whether that project has been as successful as it looks as if it will be in terms of how it has been thought out.

Y Prif Weinidog: Mae hwnnw'n ymddangos yn gynllun da, oherwydd y mae'n golygu camau eithaf pendant er mwyn datrys y broblem bresennol, a mentora hefyd er mwyn sicrhau ein bod, yn hytrach na chanolbwyntio ar y pwyntiau negyddol, yn ceisio darparu posibiliadau eraill cadarnhaol. Hoffwn glywed gennych ymhen pedwar neu bum mis, Irene, er mwyn gweld a yw'r prosiect hwn wedi bod mor llwyddiannus ag y mae'n ymddangos y bydd o ran y ffordd y mae wedi ei gynllunio.

John Griffiths: Do you agree that the people of south-east Wales have shown good sense and played an important part in achieving social justice by rejecting the divisive, unfair and socially unjust policies of the Tories in election after election, including Assembly, Westminster, local and European elections?

John Griffiths: A ydych yn cytuno bod pobl y De-ddwyrain wedi dangos synnwyr cyffredin ac wedi gwneud cyfraniad pwysig i'r gwaith o sicrhau cyfiawnder cymdeithasol drwy wrthod polisiau ymrannol, annheg a chymdeithasol anghyfiawn y Torïaid yn y naill etholiad ar ôl y llall, gan gynnwys etholiadau'r Cynulliad a San Steffan, yr etholiadau lleol ac etholiadau Ewrop?

The First Minister: With one or two exceptions that we all regret, that is undoubtedly true. That is part of the historic character of south-east Wales, as it is one of the areas that you can roughly describe as the cradle of the NHS. It is a progenitor of many progressive movements from which the whole of Wales and the whole of Britain has benefited, including the national health service.

Y Prif Weinidog: Gydag un neu ddwy o eithriadau, sy'n peri gofid i bob un ohonom, mae hynny yn sicr yn wir. Mae hynny yn rhan o gymeriad hanesyddol y De-ddwyrain, gan ei bod yn un o'r ardaloedd y gallwch ei disgrifio'n fras fel crud y GIG. Mae wedi bod yn fan cychwyn i lawer o fudiadau blaengar y mae Cymru gyfan a Phrydain hefyd wedi elwa arnynt, gan gynnwys y gwasanaeth iechyd gwladol.

Ysgolion Cynradd Primary Schools

Q8 Brynle Williams: Will the First Minister make a statement on primary schools in Wales? OAQ0586(FM)

C8 Brynle Williams: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar ysgolion cynradd yng Nghymru? OAQ0586(FM)

The First Minister: There are three major issues: the first is the delivery of the national curriculum, secondly, there is the issue that there are not enough children to fill all the schools, and, thirdly, there is a need to convert schools into comprehensive, community education resources.

Y Prif Weinidog: Mae tri phrif fater: yn gyntaf, cyflwyno'r cwricwlwm cenedlaethol, yn ail, y ffaith nad oes digon o blant i lenwi'r holl ysgolion, ac, yn drydydd, mae angen troi ysgolion yn adnoddau ar gyfer addysg gymunedol, gynhwysfawr.

Brynle Williams: You will be aware that our capital city is carrying out a city-wide

Brynle Williams: Byddwch yn ymwybodol bod ein prifddinas yn cynnal ymarferiad

consultation exercise on school reorganisation. Can you advise me what discussions the council has had with the Assembly about this? Can you also advise me what your views are on the proposals in relation to applying them to the rest of Wales?

The First Minister: I do not think that Cardiff is the first to tackle this. Swansea, Torfaen, Monmouthshire, Newport, Carmarthenshire, Flintshire, Bridgend and Denbighshire, as you will know only too well, Brynle, have all been grappling with what to do about falling school rolls. Once you start modernising schools, you have to face up to whether or not you want to modernise the school pattern in exactly the same way as it was laid down 50 or 100 years ago, which was on the basis of totally different numbers of pupils at primary school level. All local authorities, including Cardiff, have that character. We have not, as far as I am aware, had any discussions with Cardiff about this issue. As a local constituency AM, I will be expected to take up issues when I know more about what the council is proposing.

Jeff Cuthbert: Do you agree that one of the most exciting initiatives in terms of primary education is the launch of our pilot for free school breakfasts? Will you join me in congratulating Hengoed Primary School, which has taken part in the pilot scheme and has already seen great improvements in terms of attendance and the attention paid to and quality of learning?

The First Minister: I am not familiar with that particular school, but many of the schools, because this is being piloted in Communities First areas initially, will have considerable deprivation. Up to 80 per cent of those children will be eligible for free school meals at lunchtime, but for children to get breakfast as well will have a big impact on their behaviour, concentration, interaction and so on. Some of these schools also have a high percentage of children on the at-risk register. Therefore, in improving attendance, nutrition and concentration and social behaviour, the scheme is already having a big

ymgyngori drwy'r ddinas gyfan ar fater ad-drefnu ysgolion. A allwch ddweud wrthyf pa drafodaethau y mae'r cyngor wedi eu cael gyda'r Cynulliad ynglŷn â hyn? A allwch hefyd ddweud wrthyf beth yw eich barn ynglŷn â'r cynigion o safbwynt eu gweithredu yng ngweddill Cymru?

Y Prif Weinidog: Nid wyf yn credu mai Caerdydd yw'r cyntaf i fynd i'r afael â hyn. Mae Abertawe, Tor-faen, sir Fynwy, Casnewydd, sir Gaerfyrddin, sir y Fflint, Pen-y-bont ar Ogwr a sir Ddinbych, fel y gwyddoch yn dda, Brynle, i gyd wedi bod yn ceisio penderfynu beth i'w wneud ynglŷn â'r gostyngiad yn nifer y disgyblion ysgol. Cyn gynted ag yr ydych yn dechrau moderneiddio ysgolion, rhaid ichi wynebu'r cwestiwn a ydych eisiau moderneiddio patrwm yr ysgol yn yr un ffordd yn union ag y cafodd ei sefydlu 50 neu 100 mlynedd yn ôl, sef ar sail niferoedd cwbl wahanol o ddisgyblion mewn ysgolion cynradd. Mae'r nodwedd honno yn perthyn i bob awdurdod lleol, gan gynnwys Caerdydd. Nid ydym, hyd y gwn, wedi cael trafodaethau gyda Chaerdydd ynglŷn â'r mater hwn. Fel AC dros etholaeth leol, disgwylir imi fynd ar ôl materion pan fyddaf yn gwybod mwy am yr hyn y mae'r cyngor yn ei gynnig.

Jeff Cuthbert: A ydych yn cytuno mai un o'r mentrau mwyaf cyffrous o safbwynt addysg gynradd yw lansio'n cynllun peilot ar gyfer brecwast am ddim mewn ysgolion? A wnewch ymuno â mi i longyfarch Ysgol Gynradd Hengoed, sydd wedi cymryd rhan yn y cynllun peilot ac sydd eisoes wedi gweld gwelliannau mawr o ran presenoldeb, ansawdd y dysgu a'r sylw a roir i'r dysgu?

Y Prif Weinidog: Nid wyf yn gyfarwydd â'r ysgol benodol honno, ond bydd amddifadedd mawr mewn llawer o'r ysgolion, oherwydd y mae'r cynlluniau hyn yn cael eu treialu mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf i ddechrau. Bydd hyd at 80 y cant o'r plant hyn yn gymwys i dderbyn cinio ysgol am ddim, ond os bydd y plant yn cael brecwast hefyd bydd hyn yn cael effaith sylweddol ar eu hymddygiad, eu gallu i ganolbwyntio, i ryngweithio ac yn y blaen. Mae gan rai o'r ysgolion hyn hefyd ganran uchel o blant sydd ar gofrestr y plant mewn perygl. Felly, wrth wella presenoldeb, maethiad, y gallu i

impact in the areas in which it has been introduced.

Janet Ryder: To refer back to Brynle's original question, we are all aware that many schools throughout Wales are facing closure. One factor that is driving that, as you mentioned, is the falling numbers of schoolchildren. Your own officials are unhappy with the formula used to calculate school places. When will your Government review that?

The First Minister: I am not aware that officials are not happy with that formula. You may well be right, but I am not aware of it, so I cannot respond to that. However, it is the case that there are falling numbers, with a few exceptions. For example, I understand that along the coast of north Denbighshire there are overcrowded schools, but many other schools have empty places. It will vary from patch to patch within and between local authorities. However, in general, there is a huge problem with surplus school places in Wales. We can always live with 10 per cent surplus school places; no-one worries about that. It is when it becomes a 30 per cent surplus and you are modernising and thinking about rebuilding the schools because of the *tŷ bach* at the end of the yard, that you have to start addressing the issue of whether three schools can be rolled into two, two schools into one and so on. The officers of all local authorities in Wales accept that there is no prospect of the birth rate suddenly shooting up again, and the issue, therefore, has to be addressed.

ganolbwyntio ac ymddygiad cymdeithasol, mae'r cynllun yn cael effaith sylweddol yn barod yn yr ardaloedd lle y mae wedi ei gyflwyno.

Janet Ryder: Gan gyfeirio'n ôl at gwestiwn gwreiddiol Brynle, yr ydym i gyd yn ymwybodol bod llawer o ysgolion ledled Cymru sydd â'u dyfodol yn y fantol. Un o'r ffactorau sy'n gyfrifol am hynny, fel y cyfeiriasoch, yw'r gostyngiad yn niferoedd y plant ysgol. Mae eich swyddogion chi eich hun yn anfodlon â'r fformiwla a ddefnyddir i gyfrifo lleoedd mewn ysgolion. Pa bryd y gwnaiff eich Llywodraeth adolygu hynny?

Y Prif Weinidog: Nid wyf yn ymwybodol bod y swyddogion yn anfodlon â'r fformiwla honno. Mae'n bosibl eich bod yn iawn, ond nid wyf yn ymwybodol o hyn, felly ni allaf ymateb iddo. Fodd bynnag, mae'n ffaith bod gostyngiad yn nifer y disgyblion, gyda rhai eithriadau. Er enghraifft, deallaf fod ysgolion gorlawn ar arfordir gogledd sir Ddinbych, ond mae lleoedd gweigion mewn llawer o ysgolion eraill. Bydd hyn yn amrywio o ardal i ardal, o fewn awdurdodau lleol, a rhwng gwahanol awdurdodau lleol. Fodd bynnag, yn gyffredinol, mae lleoedd gwag mewn ysgolion yng Nghymru yn broblem aruthrol. Gallwn yn wastad ddygymod â 10 y cant o leoedd gwag mewn ysgolion; ni fyddai neb yn poeni am hynny. Ond pan fo canran y lleoedd gwag yn 30 y cant a chithau'n moderneiddio ac yn meddwl am ailadeiladu'r ysgolion oherwydd y tŷ bach ym mhen draw'r iard, rhaid ichi ddechrau ystyried a ellir dod â thair ysgol at ei gilydd i wneud dwy, dwy ysgol i wneud un, ac yn y blaen. Mae swyddogion pob awdurdod lleol yng Nghymru'n derbyn nad ydym yn debygol o weld cynnydd mawr yn nifer y genedigaethau eto, felly rhaid rhoi sylw i'r broblem.

Rôl y Sector Preifat The Role of the Private Sector

Q9 Mark Isherwood: Will the First Minister make a statement on the role of the private sector in the Welsh economy? OAQ0564(FM)

The First Minister: Labour Force Survey figures show that Wales had the highest growth in total employment, and was the only

C9 Mark Isherwood: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar rôl y sector preifat yn economi Cymru? OAQ0564(FM)

Y Prif Weinidog: Dengys ffigurau'r Arolwg o'r Llafurlu mai yng Nghymru y cafwyd y cynnydd mwyaf o ran cyfanswm y rhai sy'n

region in the United Kingdom where private sector employment growth exceeded public sector employment growth between 1999 and 2004, the latest date for which we have figures.

Mark Isherwood: How would you respond to the concern expressed by the Confederation of British Industry, the Federation of Small Businesses, the Institute of Directors, and the Chambers of Commerce, that future service delivery must be more representative of business, and that your Government's consultation paper on the mergers with the Welsh Development Agency, the Wales Tourist Board and Education and Learning Wales contained insufficient recognition that a strong private sector role is key to achieving sustained economic growth in Wales?

The First Minister: That is not relevant to my answer to your question, Mark. However, I do not disagree with the need for a strong customer focus. When we set out our principles of a strong customer focus in the successor merged organisations, and 'business as usual or better' as the fundamental service delivery objective for the interim period and the period after the mergers have been completed, it was largely to combat that kind of fear. Any change creates the fear that you cannot go to one or other of the bodies, as you think that the people that you are used to dealing with might not be there. That occurred after the training and enterprise councils disappeared and it will no doubt occur on this occasion, due to the fear of change. However, we have very clearly set out our stall to create strongly customer-focused organisations that we believe will meet the needs of the business community.

Jenny Randerson: How do you respond to the CBI's withering criticism of your Government's proposals to abolish the WDA, namely that in the private sector, you would, at the very least, expect to see a business plan before investing in a new venture?

The First Minister: We noticed the CBI's

gweithio, ac mai Cymru oedd yr unig ranbarth yn y Deyrnas Unedig lle yr oedd twf cyflogaeth y sector preifat yn fwy na thwf cyflogaeth y sector cyhoeddus rhwng 1999 a 2004, y dyddiad diweddaraf y mae gennym ffigurau ar ei gyfer.

Mark Isherwood: Sut y byddech yn ymateb i'r pryder a fynegwyd gan Gydffederasiwn Diwydiant Prydain, Ffederasiwn Busnesau Bach, Sefydliad y Cyfarwyddwyr, a'r Siambrau Masnach, fod rhaid darparu gwasanaeth yn y dyfodol mewn modd sy'n fwy cynrychioladol o fusnesau, ac nad oedd papur ymgynghori eich Llywodraeth ar yr uno gydag Awdurdod Datblygu Cymru, Bwrdd Croeso Cymru a Dysgu ac Addysgu Cymru yn cydnabod yn ddigonol fod rôl gref gan y sector preifat yn allweddol er mwyn sicrhau twf economaidd parhaol yng Nghymru?

Y Prif Weinidog: Nid yw hyn yn berthnasol i'm hateb i'ch cwestiwn, Mark. Fodd bynnag, nid wyf yn anghytuno â'r angen am sylw penodol i gwsmeriaid. Y prif reswm dros nodi'r egwyddor o sylw penodol i gwsmeriaid yn y sefydliadau wedi iddynt gael eu huno, ac o bennu 'busnes fel arfer neu well' fel yr amcan sylfaenol wrth ddarparu gwasanaeth yn ystod y cyfnod interim a'r cyfnod ar ôl yr uno, oedd gwrthsefyll y math hwn o ofn. Mae unrhyw newid yn gwneud i chi ofni na fyddwch yn gallu mynd at ryw gorff neu'i gilydd, oherwydd eich bod yn meddwl nad yw'r bobl yr ydych wedi arfer delio â hwy yn mynd i fod yno o bosibl. Digwyddodd hynny ar ôl i'r cynghorau hyfforddiant a menter ddiflannu ac mae'n siŵr y bydd yn digwydd y tro hwn hefyd, oherwydd bod pobl yn ofni newid. Fodd bynnag, yr ydym wedi egluro'r sefyllfa'n glir iawn er mwyn creu sefydliadau sy'n rhoi sylw penodol i gwsmeriaid ac a fydd yn ein barn ni'n diwallu anghenion y gymuned fusnes.

Jenny Randerson: Sut yr ydych yn ymateb i feirniadaeth lem y CBI o gynigion eich Llywodraeth i ddiddymu'r Awdurdod Datblygu, sef y byddech yn disgwyl gweld cynllun busnes o leiaf, yn y sector preifat, cyn buddsoddi mewn menter newydd?

Y Prif Weinidog: Yr ydym wedi ystyried

comment, and it was one of a number of comments, most of which were supportive. Some were strongly supportive, as you will remember, such as those from the Cardiff Chamber of Commerce, which represents small and medium-sized enterprises and covers roughly half of Wales. It is important that you do not only look at one comment, or look for the most critical comment and then try to give the impression that it was an average or representative comment; it was not like that at all. We accept that the CBI was not in favour of the change, had we consulted it on the principle. Now that it understands the principle, which went before the Assembly last week, it is working well with us on the implementation.

The Leader of the Welsh Conservatives (Nick Bourne): One aspect that concerns part of the private sector is the inability of pubs and clubs that want to fill in forms to apply for licences in Welsh. I realise that this is a non-devolved matter, but it is a great concern for many business in Wales. What representations have you made on their behalf to your Westminster colleagues?

The First Minister: I only saw the headline this morning, I have not read the article and am not aware of the formalities of the concerns that have been expressed by the person; I just saw his photograph in the *Daily Post* this morning. I will need to look at that and I will perhaps respond to you in writing.

Nick Bourne: I am grateful for that. It was also raised at Westminster yesterday, so the issue was aired there. There is an issue of insensitivity on the part of spokespersons at Westminster who have suggested that asking for a form in Welsh is in some way inappropriate and that some people would not be able to understand the licence when it was displayed in Welsh. I appreciate that this is only a report, but, if accurate, that displays an insensitivity regarding this whole area that I hope the First Minister will address. After all, passport applications, driving licences, television licences and so on are all bilingual, and this should be too. Representations on this were apparently made some eight months

sylw'r CBI, ond yr oedd yn un o nifer o sylwadau, ac yr oedd y rhan fwyaf ohonynt yn gefnogol. Yr oedd rhai'n gefnogol iawn, os cofiwch, fel y rhai gan Siambr Fasnach Caerdydd, sy'n cynrychioli busnesau bach a chanolig ac sy'n ymwneud ag oddeutu hanner Cymru. Mae'n bwysig nad ydych yn edrych ar un sylw yn unig, neu'n edrych am y sylw mwyaf beirniadol ac yna'n ceisio rhoi'r argraff ei fod yn sylw arferol neu gynrychioladol; nid felly yr oedd hi o gwbl. Yr ydym yn derbyn nad oedd y CBI o blaid y newid, pe baem wedi ymgynghori ag ef ynghylch yr egwyddor. Gan ei fod bellach yn deall yr egwyddor, a aeth gerbron y Cynulliad yr wythnos diwethaf, mae'n gweithio'n dda gyda ni ynglŷn â gweithredu hyn.

Arweinydd Ceidwadwyr Cymru (Nick Bourne): Un agwedd sy'n peri pryder i ran o'r sector preifat yw'r ffaith nad oes modd i dafarnau a chlybiau lenwi ffurflenni yn Gymraeg er mwyn gwneud cais am drwydded. Sylweddolaf nad yw hwn yn fater datganoledig, ond mae'n peri cryn bryder i lawer o fusnesau yng Nghymru. Pa sylwadau yr ydych wedi eu cyflwyno ar eu rhan i'ch cyd-aelodau yn San Steffan?

Y Prif Weinidog: Ni welais y pennawd tan y bore yma, nid wyf wedi darllen yr erthygl ac nid wyf yn gwybod am y pryderon sydd wedi eu mynegi gan yr unigolyn yn ffurfiol; y cyfan a welais oedd llun y cyfai llun yn y *Daily Post* y bore yma. Bydd angen imi edrych ar hyn ac efallai y rhoddaf ateb ysgrifenedig ichi.

Nick Bourne: Byddwn yn gwerthfawrogi hynny. Codwyd y mater yn San Steffan ddoe hefyd, felly mae sylw wedi ei roi iddo yno. Mae elfen o ansensitifrwydd ar ran llefaryddion yn San Steffan a awgrymodd fod gofyn am ffurflen Gymraeg rywsut neu'i gilydd yn amhriodol, ac na fyddai rhai pobl yn gallu deall y drwydded pan fyddai'n cael ei dangos yn Gymraeg. Sylweddolaf mai adroddiad yn unig yw hwn, ond, os yw'n gywir, mae'n dangos ansensitifrwydd ynglŷn â'r holl faes hwn y gobeithiaf y bydd y Prif Weinidog yn rhoi sylw iddo. Wedi'r cyfan, mae ceisiadau am basport, trwyddedau gyrru, trwyddedau teledu ac yn y blaen i gyd yn ddwyieithog, a dylai hyn fod hefyd. Mae'n

ago, as you will have seen from the article.

debyg bod sylwadau wedi eu cyflwyno ynglŷn â hyn ryw wyth mis yn ôl, yn ôl yr erthygl.

The First Minister: I shall read it and write to you about it. I agree that we do not want to see any pubs in rural Wales, where they are frequently part of the social hub of the community, disappearing for reasons of that nature.

Y Prif Weinidog: Fe'i darllenaf ac ysgrifennaf atoch ynglŷn â'r mater. Cytunaf nad ydym yn dymuno gweld tafarnau yng nghefn gwlad Cymru, lle y maent yn aml yn ganolbwynt cymdeithasol y gymuned, yn diflannu am resymau o'r fath.

2.40 p.m.

Comisiwn Rees The Rees Commission

Q10 Michael German: Will the First Minister make a statement on the findings of the Rees commission? OAQ0574(FM)

C10 Michael German: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar ganfyddiadau comisiwn Rees? OAQ0574(FM)

The First Minister: The Rees report emphasises the importance of retaining a competitive higher education sector in Wales. I am pleased that it has also provided us all with an evidence base around which I have been able to explore a range of options with you, Ieuan Wyn Jones, and Nick Bourne, as leaders of the other parties in this Assembly. Our universities, our students, and prospective students, are looking to us to arrive at a satisfactory solution before too long.

Y Prif Weinidog: Mae adroddiad Rees yn pwysleisio pa mor bwysig yw cadw sector addysg uwch cystadleuol yng Nghymru. Yr wyf yn falch ei fod hefyd wedi rhoi sylfaen dystiolaeth inni i gyd sydd wedi fy ngalluogi i edrych ar nifer o wahanol ddewisiadau gyda chi, Ieuan Wyn Jones, a Nick Bourne, fel arweinwyr y pleidiau eraill yn y Cynulliad hwn. Mae ein prifysgolion, ein myfyrwyr, a'n darpar fyfyrwyr, yn disgwyl inni gynnig ateb boddhaol yn fuan.

Michael German: I wish to address one issue on which, if you look carefully at the Rees commission report, there is an inherent criticism of what happens in England. That is in respect of part-time students. It has not yet been recognised in the system in England that there is a major issue with the top-up fees regime for its part-time students. Given the resolution that we have, it is a matter that we must also address in Wales. Could you give an indication as to whether there is a timescale for solving this matter, which is different from solving the issue for full-time students?

Michael German: Hoffwn roi sylw i un mater sydd, os edrychwch yn ofalus ar adroddiad comisiwn Rees, yn feirniadaeth yn ei hanfod ar yr hyn sy'n digwydd yn Lloegr. Mae'n ymwneud â myfyrwyr rhan-amser. Nid yw'r system yn Lloegr wedi cydnabod eto fod problem fawr gyda'r trefniadau ar gyfer ffioedd atodol i fyfyrwyr rhan-amser. O gofio'r penderfyniad sydd wedi ei wneud, mae'n fater y mae'n rhaid inni roi sylw iddo yng Nghymru hefyd. A allech ddweud a oes amserlen ar gyfer datrys y broblem hon, sy'n wahanol i ddatrys y broblem gyda myfyrwyr llawnamser?

The First Minister: You are right to contrast it with the issue for full-time students, because part-time students have never not paid full fees. As far as I know, there is no subsidy component in what is charged. Sometimes, the employer pays it but, by and large, there is full recovery of the costs for

Y Prif Weinidog: Yr ydych yn llygad eich lle wrth wahaniaethu rhwng myfyrwyr rhan-amser a myfyrwyr llawnamser, oherwydd y mae myfyrwyr rhan-amser wedi bod yn talu ffioedd llawn ar hyd yr amser. Hyd y gwn, nid oes elfen o gymhorthdal yn y swm a godir. Ambell waith, mae'r cyflogwr yn ei

part-time students. Part-time students form a large and growing segment of the total higher education sector. The most astonishing figure that emerges from statistical work around the Rees commission report is that 49 per cent of first-year students in our higher education institutions in Wales now are part-time students. The closer you get to full employment, the more students there will be who are part-time and trying to upgrade themselves so that they can get from teacher to headteacher or from fitter engineer on the workbench to engineering management, shall we say. We need to try to promote part-time education, although the full recovery of fees issue has always existed for part-time students. Therefore, encouragement will be more of a matter of providing concessions for the first time. It is not about some new burden being placed upon part-time students, but whether the burden that has always been placed upon them can in any way be lifted and some sort of inducement provided.

William Graham: Will you use this opportunity to endorse the fact that all of us in the Assembly feel that, whatever scheme is eventually proposed, higher education should receive the funding that it needs?

The First Minister: Absolutely, and soon, shall we say, certainty in that funding. With the research assessment exercise coming in, I am afraid to say that it is slightly like the open season in football. Predatory institutions spot someone who has produced a good research paper and will ring up that person and say, 'Your university education system has financial uncertainty clouds hanging over it, how would you like to move to our university, where we do know what the funding regime will be from 2007-08 onwards?'. Therefore, it is important, with the research assessment exercise coming in, that that level of uncertainty is removed.

Rhodri Glyn Thomas: Yr ydych yn sôn am yr angen i ddileu ansicrwydd a chael cytundeb yn fuan. Onid y gwir yw pe baech wedi trafod gyda'r gwrthbleidiau cyn i'r

dalud ond, ar y cyfan, mae costau myfyrwyr rhan-amser yn cael eu hadennill yn llawn. Mae myfyrwyr rhan-amser yn rhan helaeth a chynyddol o'r sector addysg uwch yn gyffredinol. Y ffigur mwyaf syfrdanol sy'n deillio o waith ystadegol sy'n gysylltiedig ag adroddiad comisiwn Rees yw bod 49 y cant o'r myfyrwyr blwyddyn gyntaf yn ein sefydliadau addysg uwch yng Nghymru bellach yn fyfyrwyr rhan-amser. Po agosaf y deuwch at gyflogaeth lawn, po fwyaf fydd o fyfyrwyr rhan-amser sy'n ceisio gwella eu hunain er mwyn gallu symud o fod yn athro i fod yn bennaeth neu o fod yn ffitiwr peirianyddol ar y fainc weithio i fod yn rheolwr peirianyddol, dyweder. Mae angen inni geisio hybu addysg ran-amser, er bod cwestiwn adennill y ffioedd yn llawn wedi bodoli erioed yn achos myfyrwyr rhan-amser. Felly, bydd anogaeth yn fwy o fater o ddarparu consesiynau am y tro cyntaf. Nid yw'n fater o roi baich newydd ar ysgwyddau myfyrwyr rhan-amser, ond yn hytrach o ystyried a oes modd rywsut symud y baich sydd wedi bod ar eu hysgwyddau erioed a darparu rhyw fath o gymhellant.

William Graham: A wnewch ddefnyddio'r cyfle hwn i gadarnhau'r ffaith bod pob un ohonom yn y Cynulliad yn teimlo, ni waeth pa gynllun a gynigir yn y diwedd, y dylai addysg uwch dderbyn yr arian sydd arni ei angen?

Y Prif Weinidog: Ar bob cyfrif, ac yn fuan, a gawn ddweud, sicrwydd ynghylch y cyllid hwnnw. Wrth i'r ymarferiad asesu ymchwil ddod i ben, mae'n ddrwg gennyf ddweud ei fod braidd yn debyg i'r tymor cyfnewid ym myd pêl-droed. Mae sefydliadau rheibus yn gweld rhywun sydd wedi cynhyrchu papur ymchwil da ac yn ffonio hwnnw neu honno gan ddweud, 'Mae cymylau ansicrwydd ariannol yn crynhoi uwchben eich prifysgol chi, sut y byddech yn hoffi symud i'n prifysgol ni, lle y gwyddom beth fydd y trefniadau ariannu o 2007-08 ymlaen?'. Felly, mae'n bwysig, wrth i'r ymarferiad asesu ymchwil ddod i ben, fod ansicrwydd o'r fath yn cael ei ddileu.

Rhodri Glyn Thomas: You mention the need to get rid of uncertainty and for early agreement on this. Is it not true that had you discussed with the opposition parties before

mater hwn ddod i ben, byddech wedi cael cytundeb erbyn hyn? Byddech wedi cael y sicrwydd hwn a byddai'r prifysgolion yn ymwybodol o'r sefyllfa ariannol. Gwn ei bod yn anodd, wrth ystyried diwylliant y Blaid Lafur yng Nghymru, i chi sylweddoli eich bod yn Llywodraeth leiafrifol bellach ond mae'n bryd i chi ddysgu ychydig o wyleiddra o'r angen i drafod a sicrhau cytundebau er mwyn sicrhau bod prifysgolion a phob elfen arall o'ch Llywodraeth yn cael y sicrwydd hwn.

Y Prif Weinidog: Mae hynny'n hollol annheg. Yr oeddem oll yn aros i adroddiad Rees gael ei gyhoeddi. Ddeuddydd cyn i'r adroddiad gael ei gyhoeddi, cymerodd y gwrthbleidiau eu cyfle i drafod y mater. Chwarae teg, mae'n bosibl y byddem wedi gwneud yr un peth yn eu sefyllfa hwy, ond mae'n hollol annheg disgrifio'r broses fel un lle nad ydym yn fodlon trafod gyda'r gwrthbleidiau y ffordd orau o ddod â sicrwydd i mewn lle y bo ansicrwydd yn bodoli ar hyn o bryd.

this matter came to a head, you would have had an agreement by now? You would have had this certainty and universities would know their financial situation. I know that it is difficult, given the culture of the Labour Party in Wales, for you to accept that you are now a minority Government in Wales, but it is time that you learned some humility from the need to discuss and ensure agreement in order to ensure that universities and all other aspects of your Government have this certainty.

The First Minister: That is entirely unfair. We were all waiting for the publication of the Rees report. Two days before the publication of the report, the opposition parties took their opportunity to discuss the matter. To be fair, we might have done the same in their position, but it is completely unfair to describe that process as one in which we are not willing to discuss with opposition parties the best way to achieve certainty where uncertainty currently exists.

Dyffryn Ogwr The Ogmore Valley

Q11 Janet Davies: What action is the Assembly Government taking to tackle economic regeneration in the Ogmore valley? OAQ0568(FM)

The First Minister: Objective 1 grant of £16.8 million has been committed to 51 local projects and eight offers of regional selective assistance worth £3.9 million in total have been made in the Bridgend borough area. The Welsh Development Agency urban programme investment has focused on local partnerships and is aimed at revitalising the whole area, particularly where it is now supporting the bid to acquire the former Ogmore Vale washery site.

Janet Davies: I missed your last two words, First Minister so if my supplementary question is not quite right, please forgive me.

The Bridgend unitary development plan was adopted last month, and it talks of development and regeneration plans throughout the county borough, and includes Bridgend, Pen-coed, Maesteg, Porthcawl and

C11 Janet Davies: Pa gamau y mae Llywodraeth y Cynulliad yn eu cymryd i fynd i'r afael ag adfywio economaidd yng nghwm Ogwr? OAQ0568(FM)

Y Prif Weinidog: Mae grant Amcan 1 o £16.8 miliwn wedi ei addo ar gyfer 51 prosiect lleol, ac mae wyth cynnig o gymorth rhanbarthol dewisol, gwerth cyfanswm o £3.9 miliwn, wedi eu gwneud yn ardal bwrdeistref Pen-y-bont ar Ogwr. Mae buddsoddiad rhaglen drefol Awdurdod Datblygu Cymru wedi canolbwyntio ar bartneriaethau lleol a'i nod yw adfywio'r ardal gyfan, yn enwedig lle y mae yn awr yn cefnogi'r cais i brynu hen safle golchfa Ogmore Vale.

Janet Davies: Collais eich dau air olaf, Brif Weinidog, felly os nad yw fy nghwestiwn atodol yn gwbl iawn, maddeuwch imi.

Cafodd cynllun datblygu unedol Pen-y-bont ar Ogwr ei fabwysiadu y mis diwethaf, ac mae'n sôn am gynlluniau adfywio a datblygu ledled y fwrdeistref sirol, ac yn cynnwys Pen-y-bont ar Ogwr, Pen-coed, Maesteg,

the Garw valley. The Ogmores valley, however, is mentioned only once in the list of the Penllwyn Gwent trading estate. Will your Government seek to persuade Bridgend County Borough Council of the need to include this very deprived valley, which has been ignored for many years, in its regeneration plans?

The First Minister I am not sure who was not listening to whom. I mentioned the Ogmores Vale washery site, which has now received urban programme support from the WDA. It is important that we realise that, sadly, from Labour's point of view, we do not run Bridgend council. It is important that you do not complain via the Assembly Government. This involves quite a lot of party-hopping from Plaid Cymru to Labour to Liberal Democrats, so you should take your complaint directly to Bridgend council about its alleged ignoring of Ogmores Vale. Ogmores is, however, getting attention from the WDA.

Alun Cairns: I am surprised by that answer. We should not forget that the Assembly has been in being for six years and that the unitary development plan started a long time ago. To say that it is up to us deal with this issue, now that Labour no longer runs the local authority, is surprising. Surely something should have happened before now. You, as First Minister, should have a direct relationship with local authorities, rather than assume that we use the party network, which is the closed structure of the Labour Party.

The First Minister You are putting up a rather daft aunt Sally, Alun. Surely, if Janet Davies wants to make a particular point about what she sees as a failing of a Liberal-Democrat-controlled council, she has other avenues of doing so other than trying to blame me. I responded with regard to those bodies where we have direct influence, namely the WDA, saying that it is directly engaged in the Ogmores valley. Statistics are not always available in the form that would enable me to rebut the kind of allegations that Janet made, and which were added to—with a lot of lard—from Alun Cairns.

Porthcawl a chwam Garw. Fodd bynnag, ni sonnir ond unwaith am gwm Ogwr yn rhestr ystâd fasnach Penllwyn Gwent. A wnaiff eich Llywodraeth geisio darbwyllo Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr fod angen cynnwys y cwm hynod ddifreintiedig hwn, sydd wedi'i anwybyddu ers blynyddoedd lawer, yn ei gynlluniau adfywio?

Y Prif Weinidog: Nid wyf yn siŵr pwy oedd heb fod yn gwrando ar bwy. Soniais am safle golchfa Ogmores Vale, sydd bellach wedi derbyn cymorth rhaglen drefol gan yr awdurdod datblygu. Mae'n bwysig ein bod yn sylweddoli nad ni sy'n rhedeg cyngor Pen-y-bont ar Ogwr, gwaetha'r modd o safbwynt Llafur. Mae'n bwysig nad ydych yn cwyno drwy Lywodraeth y Cynulliad. Byddai hynny'n golygu cryn dipyn o neidio yn ôl a blaen rhwng Plaid Cymru a Llafur a'r Democratiaid Rhyddfrydol, felly dylech fynd â'ch cwyn bod Cwm Ogwr yn cael ei anwybyddu yn uniongyrchol at gyngor Pen-y-bont ar Ogwr. Er hynny, mae Ogwr yn derbyn sylw gan yr Awdurdod Datblygu.

Alun Cairns: Yr wyf yn synnu at yr ateb hwnnw. Ni ddylem anghofio bod y Cynulliad yn bod ers chwe mlynedd a bod y cynllun datblygu unedol wedi dechrau ers talwm iawn. Mae dweud mai ein lle ni yw delio â'r mater hwn, gan nad yw Llafur mwyach yn rhedeg yr awdurdod lleol, yn syfrdanol. Oni ddylai rhywbeth fod wedi digwydd cyn heddiw? Dylai fod gennych chi, fel Prif Weinidog, berthynas uniongyrchol ag awdurdodau lleol, yn lle tybio ein bod yn defnyddio rhwydwaith y blaid, sef strwythur caeedig y Blaid Llafur.

Y Prif Weinidog: Yr ydych yn defnyddio hyn fel cocyn hitio gwirion braidd, Alun. Os yw Janet Davies am wneud pwynt penodol ynghylch rhywbeth sydd, yn ei barn hi, yn fethiant ar ran cyngor a reolir gan y Democratiaid Rhyddfrydol, mae ganddi ffyrdd eraill o fynd ati heblaw ceisio fy meio i. Yr wyf wedi ymateb yng nghyswllt y cyrff hynny y mae gennym ddylanwad uniongyrchol drostynt, sef yr awdurdod datblygu, drwy ddweud ei fod yn ymwneud yn uniongyrchol â chwam Ogwr. Nid yw ystadegau bob amser ar gael ar y ffurf a fyddai'n fy ngalluogi i wrthbrofi'r math o

honiadau a wnaed gan Janet, ac a ategwyd—
gyda chryn awch—gan Alun Cairns.

The Ogmore constituency, which is not the same as the Ogmore valley, has seen a 43 per cent reduction in unemployment, measured by jobseekers allowance figures, since April 1999. That major reduction in unemployment is more than the reduction in Wales generally, which itself is among the biggest in the United Kingdom. That shows a healthy interest in economic regeneration in the area.

Mae etholaeth Ogwr, sy'n wahanol i gwm Ogwr, wedi gweld lleihad o 43 y cant mewn diweithdra, o'i fesur yn ôl ffigurau lwfansau ceisio gwaith, ers Ebrill 1999. Mae'r lleihad sylweddol hwnnw mewn diweithdra yn fwy na'r lleihad yn gyffredinol yng Nghymru sydd, ynddo'i hun, ymhlith y mwyaf yn y Deyrnas Unedig. Dengys hynny ddiddordeb iach mewn adfywio economaidd yn yr ardal.

Y Pwerau Datganoledig Arfaethedig i Gymru The Proposed Devolved Powers for Wales

Q12 Carl Sargeant: Will the First Minister make a statement on the proposed devolved powers for Wales? OAQ0585(FM)

C12 Carl Sargeant: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar y pwerau datganoledig arfaethedig i Gymru? OAQ0585(FM)

The First Minister: I welcome greatly the commitment in the Queen's Speech to legislate in this session of Parliament to strengthen the legislative powers of the National Assembly for Wales, to reform the voting system and to split the corporate-body status of the Assembly. I fully expect to see a White Paper, followed by legislation, to put this into effect.

Y Prif Weinidog: Yr wyf yn croesawu'n fawr iawn yr ymrwymiad yn Araith y Frenhines i ddeddfu yn ystod y sesiwn Seneddol hon i gryfhau pwerau deddfu Cynulliad Cenedlaethol Cymru, i ddiwygio'r system bleidleisio ac i rannu statws y Cynulliad fel corff corfforaethol. Yr wyf yn sicr yn disgwyl Papur Gwyn, a deddfwriaeth yn ei sgil, i roi hyn mewn grym.

Carl Sargeant: As the directly elected Member for Alyn and Deeside, I ask whether you agree that new powers contained in the Transport Bill, for instance, will allow the Welsh Assembly Government the opportunity to provide a more comprehensive integrated strategy, improving north-south links, not only in Wales but in the whole of the UK? On that basis, will you agree to work with me, the Minister for Economic Development and Transport, and my north Wales colleagues to establish an integrated strategy as a matter of urgency?

Carl Sargeant: Fel yr Aelod sydd wedi'i ethol yn uniongyrchol dros Alun a Glannau Dyfrdwy, hoffwn ofyn a ydych yn cytuno y bydd y pwerau newydd yn y Mesur Trafnidiaeth, er enghraifft, yn rhoi cyfle i Lywodraeth Cynulliad Cymru ddarparu strategaeth integredig fwy cynhwysfawr, gan wella'r cysylltiadau rhwng y gogledd a'r de, nid yn unig yng Nghymru ond ledled y DU? Ar sail hynny, a wnewch gytuno i weithio gyda mi, y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth, a'm cyd-Aelodau yn y Gogledd i sefydlu strategaeth integredig fel mater o frys?

The First Minister: A record three Bills will come forward in the coming 18 months of this session. They are the Transport (Wales) Bill, which is being reintroduced, the Commissioner for Older People (Wales) Bill, and the Bill on Assembly powers—if I can call it that, although we will not see it for a few months yet. There is also a draft Bill on

Y Prif Weinidog: Bydd tri Mesur, y nifer fwyaf erioed, yn cael eu cyflwyno yn ystod 18 mis nesaf y sesiwn hon, sef Mesur Trafnidiaeth (Cymru), sy'n cael ei ailgyflwyno, Mesur Comisiynydd i Bobl Hŷn (Cymru), a'r Mesur ar bwerau i'r Cynulliad—os gallaf ei alw felly, er na fyddwn yn ei weld am rai misoedd eto.

tourism and statutory registration of accommodation. I do not think that we have yet seen a package of Wales-only measures of that nature. The one to which you refer, in terms of getting a much better grip on the co-ordination of public transport in Wales, is important for our future and the relationship between north and south, and east and west, Wales.

Hefyd, bydd Mesur drafft ar dwristiaeth a chofrestru llety yn statudol. Ni chredaf ein bod o'r blaen wedi gweld pecyn o fesurau arbennig i Gymru fel y rhain. Mae'r un yr ydych yn cyfeirio ato, o ran sicrhau cydgyssylltu llawer gwell rhwng trafndiaeth gyhoeddus yng Nghymru, yn bwysig i'n dyfodol ac i'r berthynas rhwng gogledd a de, a dwyrain a gorllewin Cymru.

Addysg Gynradd Primary School Education

Q13 Janet Ryder: What recent discussions has the First Minister held regarding the provision of primary school education? OAQ0561(FM)

C13 Janet Ryder: Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi eu cael yn ddiweddar ynglŷn â darparu addysg gynradd? OAQ0561(FM)

2.50 p.m.

The First Minister: There have been no specific recent meetings but it formed part of an interesting discussion that I had with all local government leaders in Wales last Friday.

Y Prif Weinidog: Ni chafwyd dim cyfarfodydd penodol yn ddiweddar ond yr oedd yn rhan o drafodaeth ddiddorol a gefais gyda holl arweinyddion llywodraeth leol yng Nghymru ddydd Gwener diwethaf.

Janet Ryder: I take you back to a reply that you gave me earlier this afternoon about how school places are calculated. I am sure that you are aware that, when a child has a statement of special educational needs, it is calculated not as one child place, but as three school places on the school register. As I am sure you are aware, Cardiff County Council has calculated that, with 500 children with special educational needs statements, it is registering 1,500 school places, which is having a big effect on how it now has to calculate empty school places. Do you not agree, First Minister, that there are many other reasons, as well as that, why we should look again at how we calculate school places?

Janet Ryder: Hoffwn fynd â chi yn ôl at ateb a gefais gennych yn gynharach y prynhawn yma ynghylch sut y cyfrifir lleoedd mewn ysgolion. Yr wyf yn siŵr eich bod yn ymwybodol, pan fydd gan blentyn ddatganiad anghenion addysgol arbennig, fod y lle'n cael ei gyfrif nid fel lle i un plentyn, ond fel tri lle ar gofrestr yr ysgol. Fel y gwyddoch mae'n siŵr, mae Cyngor Sir Caerdydd wedi cyfrifo, gyda 500 o blant â datganiadau anghenion addysgol arbennig, ei fod yn cofrestru 1,500 o leoedd ysgol, sy'n cael effaith fawr ar sut y mae'n rhaid iddo yn awr gyfrifo lleoedd ysgol gwag. Onid ydych yn cytuno, Brif Weinidog, fod sawl rheswm arall, yn ogystal â hynny, pam y dylem edrych eto ar sut yr ydym yn cyfrifo lleoedd mewn ysgolion?

The First Minister: Yes, certainly. I mentioned earlier that I think that I read the figure somewhere that Cardiff had one third of its school places empty. I said that anyone could live with 10 per cent of school places empty, simply to cover the variation when young people move into an area after many older people move out, and so on. These swings can arise, as I have seen in my own constituency over the past 15 years. Some 10

Y Prif Weinidog: Ydwyf yn sicr. Soniais yn gynharach fy mod yn meddwl imi ddarllen y ffigur yn rhywle fod traean lleoedd ysgolion Caerdydd yn wag. Dywedais y byddai unrhyw un yn gallu dygymod â 10 y cant o leoedd ysgol gwag, pe na bai ond i wneud iawn am yr amrywiad pan fydd pobl ifanc yn symud i mewn i ardal ar ôl i nifer o bobl hŷn symud allan, ac yn y blaen. Mae'r pendil yn aml yn symud yn ôl a blaen, fel y gwelais yn

per cent of school surplus places is neither here nor there. When it gets to be 30 per cent, I do not know that it would be much affected by the kind of point that you make. However, the general principle of getting the figure to be as accurate as possible is right.

fy etholaeth fy hun yn y 15 mlynedd diwethaf. Nid yw tua 10 y cant o leoedd gwag mewn ysgol nac yma nac acw. Pan fo'n cyrraedd 30 y cant, ni chredaf y byddai'r math o bwynt a wnaethoch yn effeithio rhyw lawer ar hyn. Fodd bynnag, mae'r egwyddor gyffredinol o geisio cael y ffigur mor gywir â phosibl yn un ddilys.

Cyfuno ELWa, ADC a BCC The Merger of ELWa, WDA and WTB

Q14 Peter Black: Will the First Minister make a statement on the cost of the merger of ELWa, WDA and WTB into the Assembly Government? OAQ0573(FM)

C14 Peter Black: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar gost cyfuno ELWa, ADC a BCC gyda Llywodraeth y Cynulliad? OAQ0573(FM)

The First Minister: The consultation paper outlined a budgetary requirement of some £10 million to £12 million over the next five to 10 years, followed by an estimated saving of £10 million a year due to the lower cost of delivering those services.

Y Prif Weinidog: Yr oedd y papur ymgynghori yn nodi bod angen cyllideb o rhwng £10 miliwn a £12 miliwn dros y pump i ddeng mlynedd nesaf, a'i ddilyn gan arbedion tybiedig o £10 miliwn y flwyddyn oherwydd cost is darparu'r gwasanaethau hynny.

Peter Black: Do you accept that these three bodies have invested a significant amount of resources in the past year—and will do so in the coming months—into preparing for this merger, and that those resources, which could have been used for services, have been lost to that purpose? Is the Assembly Government looking at the impact on services of the expenditure that these bodies have incurred as a result of these proposals?

Peter Black: A ydych yn derbyn bod y tri chorff hyn wedi buddsoddi swm sylweddol o adnoddau yn y flwyddyn ddiwethaf—ac y byddant yn gwneud hynny yn y misoedd i ddod—i baratoi ar gyfer uno, a bod yr adnoddau hynny, a allai fod wedi cael eu defnyddio ar wasanaethau, wedi eu colli i'r pwrpas hwnnw? A ydyw Llywodraeth y Cynulliad yn edrych ar yr effaith y mae'r gwariant sydd wedi'i achosi i'r cyrff hyn o ganlyniad i'r cynigion hyn wedi'i gael ar wasanaethau?

The First Minister: We have told the chairs that we expect them to provide a continuity of business service—business as usual, or better—and we have not heard any, so far, say that they are falling down on that particular mission that I have given them. All change has this character—it costs money upfront, and produces savings down the line. The issue is how much it costs upfront, how quickly you get the savings, and how you can guarantee that those savings are delivered. Every body and every outfit in the private sector faces the same problem. For example, Celsa replaced two melting shops with one, over the road in the steel works in Tremorfa. It is the same issue for us in terms of this

Y Prif Weinidog: Yr ydym wedi dweud wrth y cadeiryddion ein bod yn disgwyl iddynt barhau eu gwasanaeth busnes—busnes fel arfer, neu'n well—ac ni chlywsom neb ohonynt yn dweud, hyd yma, eu bod yn methu â gwneud hynny fel y gofynnais iddynt. Mae pob newid yn digwydd fel hyn—mae'n costio arian ar y dechrau, ac yn rhoi arbedion yn nes ymlaen. Mater ydyw o faint y mae'n ei gostio ar y dechrau, pa mor sydyn y gwelir arbedion, a sut y gallwch warantu y gwneir yr arbedion hynny. Mae pob corff a phob busnes yn y sector preifat yn wynebu'r un broblem. Er enghraifft, penderfynodd Celsa uno dau safle toddi, dros y ffordd yng ngwaith dur Tremorfa. Yr un yw'r sefyllfa a

merger—having better delivery of services, smaller transaction costs for those services, and the use of e-delivery and e-payment systems, and so on.

wynebwn wrth uno—darparu gwasanaethau yn well, costau is gyda darparu'r gwasanaethau hynny, a defnyddio systemau e-ddarparu ac e-dalu, ac yn y blaen.

Statws Cymru Dramor The Standing of Wales Abroad

Q15 Nick Bourne: Will the First Minister make a statement on the Welsh Assembly Government's policies for improving the standing of Wales abroad? OAQ0583(FM)

C15 Nick Bourne: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar bolisiâu Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer codi statws Cymru dramor? OAQ0583(FM)

The First Minister: We continue to promote Wales abroad through a range of activities, including government-to-government relationships, participation in European and wider networks, and promotional events. That includes participating in the remarkable gathering yesterday and on Sunday evening, in Cardiff, of 34 ambassadors, or their British or Commonwealth equivalents—High Commissioners—and a further 10 deputies or other members of the diplomatic mission. There has never been anything like this in Wales before in terms of the diplomatic community.

Y Prif Weinidog: Yr ydym yn parhau i hyrwyddo Cymru dramor drwy ystod o weithgareddau, gan gynnwys cysylltiadau rhwng llywodraethau, cyfranogi mewn rhwydweithiau Ewropeaidd a rhai ehangach, a thrwy ddigwyddiadau hyrwyddo. Mae hynny'n cynnwys cymryd rhan yn y cyfarfod rhyfeddol ddoe a nos Sul, yng Nghaerdydd, lle'r oedd 34 o lysgenhadon, neu'r swyddogion sy'n cyfateb iddynt ym Mhrydain neu'r Gymanwlad—Uwch Gomisiynwyr—yn ogystal â 10 dirprwy neu aelodau eraill o'r genhadaeth ddiplomyyddol. Ni welsom ddim byd tebyg i hyn erioed o'r blaen yng Nghymru o ran y gymuned ddiplomyyddol.

Nick Bourne: Will you ensure that you make a statement to the Assembly once the position on the European Union budget becomes clear? Our position in Europe, and our ability to spend European funds, will be affected by any agreement—or, more likely, non-agreement—on the budget at this week's summit. Will you therefore consider making a statement on that, as it impacts on us all here, and on wider Wales?

Nick Bourne: A wnewch sicrhau eich bod yn gwneud datganiad i'r Cynulliad wedi i'r sefyllfa ynghylch cyllideb yr Undeb Ewropeaidd ddod yn glir? Effeithir ar ein sefyllfa yn Ewrop, a'n gallu i wario cyllid Ewropeaidd, gan unrhyw gytundeb—neu, yn fwy tebygol, gan ddiffyg cytundeb—ar y gyllideb yn yr uwchgynhadledd yr wythnos hon. A wnewch felly ystyried gwneud datganiad ar hynny, gan ei fod yn effeithio arnom i gyd yma, ac ar Gymru yn ehangach?

The First Minister: It is a momentous week for us. I do not disagree with your judgment that an agreement is looking less likely rather than more likely at present, more is the shame. That is how it seems to be going, although miracles sometimes happen. I would be happy to respond to that request at the earliest possible opportunity.

Y Prif Weinidog: Mae'n wythnos dyngedfennol inni. Nid wyf yn anghytuno â'ch barn bod cytundeb yn edrych yn llai yn hytrach nag yn fwy tebygol ar hyn o bryd, gwaetha'r modd. Dyna sut y mae pethau yn mynd i bob golwg, er bod gwyrthiau weithiau yn digwydd. Byddaf yn fodlon ymateb i'ch cais cyn gynted ag y daw'r cyfle.

Y Llywydd: Diolch yn fawr, Brif Weinidog. Yr ydych wedi ateb pob cwestiwn unwaith eto.

The Presiding Officer: Thank you, First Minister. You have answered all the questions once again.

Datganiad Busnes Business Statement

The Business Minister (Jane Hutt): I have no changes to report to this week's business. Business for the next three weeks is as set out on the draft statement, which can be found on the Chamberweb under supporting documents.

Further to this morning's deliberations in the Business Committee, it has been determined that the following items of subordinate legislation need not be referred to a Subject Committee for extended consideration. They are the National Health Service (Travelling Expenses and Remission of Charges) (Amendment) (Wales) Regulations 2005, the Higher Education Act 2004 (Commencement No.2 and Transitional Provision) (Wales) Order 2005, the Highways (Schools) (Special Extinguishment and Special Diversion Orders) (Wales) Regulations 2005, the Home Loss Payments (Prescribed Amounts) (Wales) Regulations 2005, the Street Works (Recovery of Costs) (Wales) Regulations 2005, the Street Works (Sharing of Costs of Works) (Wales) Regulations 2005, the Education (Induction Arrangements for School Teachers) (Wales) Regulations 2005, the Genetically Modified Organisms (Deliberate Release) (Wales) (Amendment) Regulations 2005 and the Genetically Modified Organisms (Transboundary Movements) (Wales) Regulations 2005.

Y Llywydd: A oes unrhyw wrthwynebiad i'r datganiad busnes? Mae'n ymddangos nad oes 10 gwrthwynebiad.

Rhodri Glyn Thomas: Mae 10, gan gyfrif Owen John Thomas.

Y Llywydd: Nid oedd wedi cyrraedd. A gaf weld eto, felly? Fel y dywedais y tro cyntaf, nid oes 10 gwrthwynebiad. Gofynnaf, felly, am sylwadau byr ar ran pob grŵp.

Janet Ryder: While many people realise that education is a devolved issue, many parents watch the 6 p.m. news and hear announcements about English schools. They

Y Gweinidog Busnes (Jane Hutt): Nid oes gennyf ddim newidiadau i'w hadrodd i fusnes yr wythnos hon. Mae'r busnes ar gyfer y tair wythnos nesaf fel y'i gwelir yn y datganiad drafft, a geir ar we'r Siambr o dan ddogfennau ategol.

Yn dilyn y trafodaethau y bore yma yn y Pwyllgor Busnes, penderfynwyd nad oes angen cyfeirio'r eitemau canlynol o is-ddeddfwriaeth at Bwyllgor Pwnc i'w hystyried ymhellach, sef Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Costau Teithio a Dileu Taliadau) (Diwygio) (Cymru) 2005, Gorchymyn Deddf Addysg Uwch 2004, (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaeth Drosiannol) (Cymru) 2005, Rheoliadau Priffyrdd (Ysgolion) (Gorchmynion Diddymu Arbennig a Gwyro Arbennig) (Cymru) 2005, Rheoliadau Taliadau Colli Cartref (Symiau Rhagnodedig) (Cymru) 2005, Rheoliadau Gwaith Stryd (Adennill Costau) (Cymru) 2005, Rheoliadau Gwaith Stryd (Rhannu Costau Gwaith) (Cymru) 2005, Rheoliadau Addysg (Trefniadau Ymsefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Cymru) 2005, Rheoliadau Organebau a Addaswyd yn Enetig (Rhyddhau Bwriadol) (Cymru) (Diwygio) 2005 a Rheoliadau Organebau a Addaswyd yn Enetig (Symudiadau Trawsffiniol) (Cymru) 2005.

The Presiding Officer: Are there any objections to the draft business statement? It appears that there are not 10 objections.

Rhodri Glyn Thomas: There are 10, counting Owen John Thomas.

The Presiding Officer: He had not arrived. Can I, therefore, see once again? As I said the first time, there are not 10 objections. I ask, therefore, for brief comments on behalf of each group.

Janet Ryder: Tra bo llawer o bobl yn sylweddoli bod addysg yn fater sydd wedi'i ddatganoli, mae amryw o rieni yn gwylio'r newyddion am 6 o'r gloch y nos ac yn

are extremely confused about the situation in Wales with regard to the extension of the school day. We would welcome a statement from the Minister clarifying the position in Wales. We also ask for a debate on the increasing number of schools facing closure and for a debate, as we have asked before, on the out-of-hours service situation in Cardiff, which, according to local GPs, is very dangerous at present and could cause a potential threat to life.

David Melding: Minister, I am sure that I am not giving anything away if I say that you have indicated to us that, should the White Paper be published some time tomorrow morning, the First Minister will make a statement in Plenary. That would be most appropriate and would also help our debate next Tuesday, which, although it is to look at the Queen's Speech in general, will inevitably focus on the proposals in the White Paper. I am grateful that you have referred the matter about the availability of licensing forms in Welsh; even if this is not a devolved matter, it is an important issue, and I hope that your ministerial colleague will follow this up in Whitehall.

Kirsty Williams: I too welcome the Business Minister's commitment with regard to the White Paper. My group will welcome the opportunity, should the paper be published tomorrow morning, to shift business to accommodate it. You will be aware that the Liberal Democrat Group would like the Minister for Economic Development and Transport to make a statement on his proposals with regard to a road charging policy in Wales. This has obviously been dominating headlines and thoughts in another place, and we would welcome the opportunity to hear from the Minister for Economic Development and Transport here about his intentions with regard to this policy in Wales.

The Business Minister (Jane Hutt): I am always surprised—or perhaps not—by your party's interest, Janet, in what is happening in England, whereas you should be looking at

clywed cyhoeddiadau am ysgolion yn Lloegr. Maent yn ddryslyd dros ben ynghylch y sefyllfa yng Nghymru o ran ymestyn y diwrnod ysgol. Byddem yn croesawu datganiad gan y Gweinidog yn egluro'r sefyllfa yng Nghymru. Gofynnwn hefyd am drafodaeth ar y nifer gynyddol o ysgolion sy'n wynebu gorfod cau, ac am drafodaeth, fel yr ydym wedi gofyn o'r blaen, am sefyllfa'r gwasanaeth y tu allan i oriau yng Nghaerdydd, sydd, yn ôl meddygon teulu lleol, yn un beryglus dros ben ar hyn o bryd lle y mae bywydau pobl efallai yn y fantol.

David Melding: Weinidog, yr wyf yn siŵr nad wyf yn gollwng y gath o'r cwd drwy ddweud eich bod wedi sôn, os bydd y Papur Gwyn yn cael ei gyhoeddi rywbryd bore yfory, y bydd Prif Weinidog Cymru yn gwneud datganiad yn y Cyfarfod Llawn. Byddai hynny'n briodol iawn a hefyd yn cynorthwyo'n trafodaeth ddydd Mawrth nesaf, a fydd, er mai'r pwrpas yw edrych ar Araith y Frenhines yn gyffredinol, yn anochel yn canolbwyntio ar y cynigion yn y Papur Gwyn. Yr wyf yn ddiolchgar eich bod wedi cyfeirio'r mater ynghylch darparu ffurflenni trwyddedu yn Gymraeg; hyd yn oed os nad yw'n fater wedi'i ddatganoli, mae'n un pwysig, a gobeithio y bydd eich cyd-Weinidog yn mynd ynglŷn â hyn yn San Steffan.

Kirsty Williams: Yr wyf finnau hefyd yn croesawu addewid y Gweinidog Busnes o ran y Papur Gwyn. Bydd fy ngrŵp i yn croesawu'r cyfle, os cyhoeddir y papur bore yfory, i roi busnes heibio er mwyn rhoi sylw iddo. Byddwch yn ymwybodol y byddai'n dda gan Grŵp y Democratiaid Rhyddfrydol pe bai'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth yn gwneud datganiad ar ei gynigion ynghylch polisi codi tâl ar y ffyrdd yng Nghymru. Mae hyn yn amlwg wedi bod yn flaenllaw yn y penawdau ac ym meddyliau pobl yn rhywle arall, a byddem yn croesawu'r cyfle i gael gwybod gan y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth yma beth yw ei fwriad ynglŷn â'r polisi hwn yng Nghymru.

Y Gweinidog Busnes (Jane Hutt): Yr wyf bob amser yn synnu—neu efallai nad wyf—at ddiddordeb eich plaid, Janet, yn yr hyn sy'n digwydd yn Lloegr, pryd y dylech fod

education policies here in Wales. The policy announced yesterday is part of the Department for Education and Skills' five-year education programme for England. We are currently developing our own community-focused schools programme, of which I know you are aware as a member of the Education and Lifelong Learning Committee, and our own childcare strategy. The issue about school closures is a difficult one for communities. It is the responsibility of local education authorities and there is guidance, which was updated in 2002, and a well-established statutory process to be followed, providing for a full consultation. Therefore, I will not schedule time for a statement on that matter.

3:00 p.m.

As you know, Janet, the issue of the Cardiff out-of-hours service is the subject of an audit, which the Minister for Health and Social Services will address when it comes forward. There will be plenty of opportunities for the Assembly to address the concerns and issues that might arise from that.

David and Kirsty have both welcomed my commitment on the First Minister making a statement as soon as is practicably possible, and in anticipation of the White Paper. I have given that commitment, and the First Minister echoed it this morning.

David, in questions to the First Minister, your leader, Nick Bourne, raised the issue of licensing, which we are looking at in terms of the availability of forms in Welsh. It is important that we take up that matter with the Department for Culture, Media and Sport, which is responsible.

Kirsty, with regard to road charging issues, it is important, and not only for the committee, that the Minister for Economic Development and Transport has given his commitment to bring forward a statement before the recess and discuss it in the committee.

*Derbyniwyd y datganiad busnes.
Business statement adopted.*

yn edrych ar bolisiâu addysg yma yng Nghymru. Mae'r polisi a gyhoeddwyd ddoe yn rhan o raglen addysg bum mlynedd yr Adran Addysg a Sgiliau ar gyfer Lloegr. Yr ydym ar hyn o bryd yn datblygu ein rhaglen ysgolion ein hunain sy'n canolbwytio ar gymunedau, a gwn eich bod yn ymwybodol o hyn fel aelod o'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes, a'n strategaeth gofal plant ein hunain. Mae'r cwestiwn ynghylch cau ysgolion yn un anodd i gymunedau. Cyfrifoldeb yr awdurdodau addysg lleol yw hyn ac mae canllawiau, a ddiweddarwyd yn 2002, a phroses statudol sydd wedi ei sefydlu ers tro i'w dilyn, sy'n darparu ar gyfer cynnal ymgynghoriad llawn. Felly, ni roddaf amser penodol ar gyfer datganiad ar y mater hwn.

Fel y gwyddoch, Janet, mae mater y gwasanaeth y tu allan i oriau yng Nghaerdydd yn destun archwiliad, a gaiff sylw'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol pan fydd wedi ei gwblhau. Bydd digon o gyfleoedd i'r Cynulliad roi sylw i'r pryderon a'r materion a all ddeillio ohono.

Mae David a Kirsty ill dau wedi croesawu fy addewid y bydd y Prif Weinidog yn gwneud datganiad cyn gynted ag sy'n ymarferol, a chan ddisgwyl y bydd y Papur Gwyn yn cael ei gyhoeddi. Yr wyf wedi rhoi'r ymrwymiad hwnnw, ac fe'i hategwyd gan y Prif Weinidog y bore yma.

David, yn ystod y cwestiynau i'r Prif Weinidog, codwyd mater trwyddedu gan eich arweinydd, Nick Bourne, rhywbeth yr ydym yn edrych arno o ran y ffurflenni sydd ar gael yn Gymraeg. Mae'n bwysig bod y mater hwn yn cael ei godi gyda'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, gan mai hwy sy'n gyfrifol amdano.

Kirsty, gyda golwg ar faterion codi tâl am ddefnyddio ffyrdd, mae'n bwysig, ac nid i'r pwyllgor yn unig, fod y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth wedi ymrwymo i wneud datganiad cyn y toriad ac i'w drafod yn y pwyllgor.

**Datganiad ar ‘Greu’r Cysylltiadau’—Cynllun Gweithredu
Statement on ‘Making the Connections’—Action Plan**

The Finance Minister (Sue Essex): I am pleased to draw the attention of all Members to the publication of our action plan that takes forward the proposals published last October in ‘Making the Connections’. The action plan, entitled ‘Delivering the Connections’, sets out how we will take forward our agenda over the next five years to make public services more responsive, more accessible, more joined up, more efficient and more effective.

Improving public services is an absolute priority for the Assembly Government, and ‘Delivering the Connections’ represents a far-reaching programme for change and reform. It builds on the record investment that has gone into public services in Wales under a Labour Government. Services are now better funded and better staffed, and indicators show that they are improving as a result. We have to use the momentum to ensure that Wales has the services it needs for the twenty-first century.

Members will recall that we publicly consulted on ‘Making the Connections’. The response endorsed our approach and the principles on which it was based. These include the need to place citizens at the centre, equality and social justice, working together as the Welsh public service, and value for money. We received a number of constructive points and suggestions through the consultation process, which we have taken on board, and I am grateful to everyone who responded.

I want to emphasise three strands in our thinking. The first is that we have to deliver services with people. In order to ensure better health or education, it is our view that people have to be fully involved. In the action plan, we have identified the need for better and consistently high standards of customer care,

Y Gweinidog Cyllid (Sue Essex): Yr wyf yn falch o gael tynnu sylw pob Aelod at gyhoeddi ein cynllun gweithredu sy’n bwrw ymlaen gyda’r cynigion a gyhoeddwyd fis Hydref y llynedd yn ‘Creu’r Cysylltiadau’. Mae’r cynllun gweithredu, sy’n dwyn y teitl ‘Cyflawni’r Cysylltiadau’, yn amlinellu sut y byddwn yn bwrw ymlaen gyda’n hagenda dros y pum mlynedd nesaf i wneud gwasanaethau cyhoeddus yn fwy ymatebol, yn haws eu defnyddio, yn fwy cydlynus, yn fwy effeithlon ac yn fwy effeithiol.

Gwella gwasanaethau cyhoeddus yw un o flaenoriaethau pennaf Llywodraeth y Cynulliad ac mae ‘Cyflawni’r Cysylltiadau’ yn rhaglen gynhwysfawr ar gyfer newid a diwygio. Mae’n adeiladu ar y buddsoddiad enfawr a wnaethpwyd mewn gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru o dan Lywodraeth Lafur. Mae gwasanaethau’n awr yn cael eu hariannu’n well a’u staffio’n well, ac mae dangosyddion yn dangos eu bod yn gwella o ganlyniad i hynny. Rhaid inni ddefnyddio’r momentwm i sicrhau bod gan Gymru’r gwasanaethau sydd eu hangen arni ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain.

Bydd yr Aelodau’n cofio ein bod wedi cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar ‘Greu’r Cysylltiadau’. Yr oedd yr ymateb yn cymeradwyo ein dull o weithredu a’r egwyddorion yr oedd yn seiliedig arnynt. Mae’r rhain yn cynnwys yr angen i sicrhau bod dinasyddion yn ganolog i’r cyfan, cydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol, gweithio gyda’n gilydd fel y gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru, a gwerth am arian. Derbyniasom nifer o bwyntiau adeiladol ac awgrymiadau yn sgîl y broses ymgynghori, sydd wedi eu derbyn, ac yr wyf yn ddiolchgar i bawb a ymatebodd.

Yr wyf am bwysleisio tair elfen yn ein meddylfryd. Y gyntaf yw bod rhaid inni ddarparu’r gwasanaethau ar y cyd â’r bobl. Er mwyn sicrhau gwell iechyd neu addysg, yr ydym yn credu bod rhaid i bobl gael cyfle i fod â rhan lawn yn y broses. Yn y cynllun gweithredu, yr ydym wedi tynnu sylw at yr

and more one-stop shops and first points of contact, such as the successful Consumer Direct Wales and NHS Direct, which is now expanding its role in parts of Wales. We need more accessible advice and support, such as the help provided for young people by Careers Wales and Funky Dragon. We need to reach out more effectively to the vulnerable and disadvantaged, through programmes such as direct payments to older and disabled people. Our commitments on the Welsh language and equal opportunities must be mainstreamed across public services.

Delivering services with people also means that we have to give them—young and old—a stronger voice in the way services are designed and delivered. People and communities must have the opportunity to help shape the services that they receive. For example, our guidance, 'Shaping Health Services Locally', is about involving communities in changes to the way that local healthcare services are delivered. To underpin this citizen-centred approach, we are developing core standards for customer service and participation. We want each major service delivery body to apply these in producing clear service statements so that people know what they have a right to expect. We will develop the core standards in consultation.

The second strand is that public bodies and partners have to work much more closely together to provide services that meet the public's expectations and achieve results for them. We strongly believe that collaboration rather than competition is the way forward in Wales. We already have many good examples on which we can build, from regional transport consortia to partnerships between local authorities and NHS bodies to support patients in their own homes. However, we have to take this much further. The action plan indicates a number of actual and potential areas for fresh collaboration across the NHS, local government, national

angen am safonau gwell a rhai sy'n gyson uchel o ran gofalu am gwsmeriaid, a rhagor o siopau un stop a phwyntiau cyswllt cyntaf, megis Cyswllt Defnyddwyr Cymru a Galw Iechyd Cymru, sydd wedi bod mor llwyddiannus, ac sydd yn awr yn ehangu ei waith mewn rhai rhannau o Gymru. Mae angen cyngor a chymorth sy'n haws cael gafael arno, megis y cymorth a ddarperir i bobl ifanc gan Gyrfa Cymru a'r Ddraig Ffyni. Mae angen inni ymestyn allan yn fwy effeithiol i gyrraedd pobl agored i niwed sy'n wynebu anfanteision, drwy raglenni megis taliadau uniongyrchol i bobl hŷn ac anabl. Rhaid i'n hymrwymiaidau i'r Gymraeg a chyfle cyfartal gael eu prif ffrydio ar draws gwasanaethau cyhoeddus.

Mae darparu gwasanaethau gyda phobl hefyd yn golygu bod rhaid inni roi llais cryfach iddynt—yn hen ac ifanc—yn y ffordd y mae gwasanaethau'n cael eu cynllunio a'u cyflwyno. Rhaid i bobl a chymunedau gael y cyfle i helpu i lunio'r gwasanaethau y maent yn eu derbyn. Er enghraifft, mae ein canllawiau 'Llunio Gwasanaethau Iechyd yn Lleol', yn golygu cynnwys cymunedau yn y newidiadau i'r ffordd y mae gwasanaethau gofal iechyd lleol yn cael eu darparu. Fel sail i'r ymagwedd hon sy'n rhoi lle canolog i'r dinesydd, yr ydym yn datblygu safonau craidd ar gyfer gwasanaethau i gwsmeriaid a chyfrangaeth. Yr ydym am i bob prif gorff darparu gwasanaeth fabwysiadu'r rhain i gynhyrchu datganiadau gwasanaeth eglur er mwyn i bobl wybod beth y mae ganddynt hawl i'w ddisgwyl ganddynt. Byddwn yn datblygu'r safonau craidd drwy ymgynghoriad.

Yr ail elfen yw bod rhaid i gyrff cyhoeddus a phartneriaid weithio gyda'i gilydd yn llawer mwy clòs i ddarparu gwasanaethau sy'n bodloni disgwyliadau'r cyhoedd ac yn sicrhau canlyniadau iddynt. Yr ydym yn credu'n gryf mai cydweithrediad yn hytrach na chystadleuaeth yw'r ffordd ymlaen yng Nghymru. Mae gennym eisoes nifer o enghreifftiau da y gallwn adeiladu arnynt, o gonsortia trafniadaeth rhanbarthol i bartneriaethau rhwng awdurdodau lleol a chyrrff y GIG i roi cymorth i gleifion yn eu cartrefi eu hunain. Fodd bynnag, rhaid datblygu llawer mwy ar hyn. Mae'r cynllun gweithredu'n tynnu sylw at nifer o feysydd

bodies and sectors, from services for children needing special care to new approaches to collecting non-domestic rates.

I am particularly grateful for the constructive ideas and commitment that we have received from the leadership of the Welsh Local Government Association. To support further radical thinking, we will be undertaking a review of local service delivery within the parameters of existing local accountability arrangements.

The third strand is that greater efficiency and securing the best value that we can from the budget are crucial to better services. Through the action plan and the target of achieving gains worth £600 million a year by 2010 across the public services, we are challenging service-delivery organisations to get better value and to reallocate resources to the front line. This means action to improve procurement and commissioning, more shared services, reconfiguring services where necessary, and managing capital assets more effectively. We are developing Value Wales as an organisation as a catalyst to help bodies deliver, growing it out of the successful Welsh Procurement Initiative. It will work closely with other established purchasing and estates teams. These principles apply as much to the Assembly Government as a delivery organisation as they do to others.

'Delivering the Connections' is an ambitious long-term programme that will require sustained commitment and hard work. We have to work closely with all those involved, including public service leaders and stakeholders. That is why the First Minister has established a public services board, with all sectors represented, to advise us on our approach. The board is already proving its value. In order to achieve the transformation, we will work closely with the workforce. The action plan contains a number of measures, including the development of Public Service Management Wales, to support the workforce through the changes that our approach

gwirioneddol a phosibl ar gyfer cydweithredu o'r newydd ar draws y GIG, llywodraeth leol, cyrff cenedlaethol a sectorau, o wasanaethau i blant sydd angen gofal arbennig i ddulliau newydd o gasglu trethi annomestig.

Yr wyf yn arbennig o ddiolchgar am y syniadau adeiladol a'r ymrwymiad a gafwyd gan arweinwyr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Er mwyn rhoi cefnogaeth bellach i syniadau radical, byddwn yn adolygu darpariaeth gwasanaethau lleol o fewn paramedrau'r trefniadau atebolrwydd lleol presennol.

Y drydedd elfen yw bod gwell effeithlonrwydd a sicrhau'r gwerth gorau posibl o'r gyllideb yn hanfodol i sicrhau gwasanaethau gwell. Drwy'r cynllun gweithredu a'r targed i sicrhau enillion gwerth £600 miliwn y flwyddyn erbyn 2010 ar draws y gwasanaethau cyhoeddus, yr ydym yn herio sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau i sicrhau gwerth gorau ac i ailddyrannu adnoddau i'r rheng flaen. Mae hyn yn golygu gweithredu i wella'r drefn gaffael a chomisiynu, rhagor o rannu gwasanaethau, ailgyflunio gwasanaethau pan fydd angen, a rheoli asedau cyfalaf yn fwy effeithiol. Yr ydym yn datblygu Gwerth Cymru fel sefydliad i weithredu fel catalydd i helpu cyrff i gyflawni, gan beri iddo ddatblygu o Fenter Gaffael Cymru, sydd wedi bod yn llwyddiannus. Bydd yn cydweithio'n agos gyda thimau pwrcasu ac ystadau sefydledig eraill. Mae'r egwyddorion hyn yr un mor berthnasol i Lywodraeth Cynulliad Cymru fel sefydliad sy'n darparu ag ydyw i eraill.

Mae 'Cyflawni'r Cysylltiadau' yn rhaglen hirdymor uchelgeisiol a fydd yn gofyn am ymrwymiad pendant a gwaith caled. Bydd rhaid inni weithio'n agos gyda phawb sy'n gysylltiedig â'r maes, gan gynnwys arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus a rhanddeiliaid. Dyna pam y mae'r Prif Weinidog wedi sefydlu bwrdd gwasanaethau cyhoeddus, gyda phob sector yn cael ei gynrychioli arno, i'n cynghori ar ein dull o weithredu. Mae'r bwrdd eisoes yn dangos ei werth. Er mwyn cyflawni'r trawsnewid, byddwn yn cydweithio'n agos â'r gweithlu. Mae'r cynllun gweithredu'n cynnwys nifer o fesurau, gan gynnwys datblygu Rheoli yng

heralds, with its implications for skills and for the shift towards the front line. Through the Wales TUC, the unions have been constructive in their response, and we will be building on that, working closely with them on implementing the plan.

Commitment to serious change also means that 'Delivering the Connections' has to be a living plan, one that is regularly reviewed and revised. As well as listening to service deliverers and staff, we will be actively involving the public and listening to what it says. Finally, we have a unique opportunity in Wales to draw on the best from elsewhere while developing a distinctive agenda that meets our needs and circumstances. 'Delivering the Connections' brings all the facets of public service reform into a single, coherent framework. We look forward to the challenge of implementing it.

David Lloyd: I thank the Minister for her statement and for the opportunity to scrutinise the new 'Delivering the Connections' action plan. As regards the three strands of thinking that the Minister has just outlined, I seek some clarification about exactly what is being said in the first strand that addresses the need to deliver services with people. It goes without saying that access to public services is all-important. This includes access to your GP, to your dentist, or to your operation if you are on a waiting list. How will 'Delivering the Connections' help in those situations where access is important? I do not want an overemphasis on the access situation that would mean, for instance, that NHS Direct would be the solution to the dental crisis. Merely having a better access point does nothing to ameliorate the fact that there is no service in the first place. So, can you clarify how 'Delivering the Connections' will help that? On the same theme, what guarantees are there in the action plan that services will be freely available through the medium of Welsh to those who would wish to access services in Welsh?

Ngwasanaeth Cyhoeddus Cymru, i gefnogi'r gweithlu drwy'r newidiadau a ddaw yn sgîl ein dull o weithredu, gyda goblygiadau hynny ar gyfer sgiliau a'r symudiad tuag at y rheng flaen. Drwy TUC Cymru, mae ymateb yr undebau wedi bod yn adeiladol, a byddwn yn adeiladu ar hynny, gan gydweithio'n agos â hwy i weithredu'r cynllun.

Mae ymrwymiad i newid o ddifrif hefyd yn golygu bod rhaid i 'Cyflawni'r Cysylltiadau' fod yn gynllun byw, un sy'n cael ei adolygu a'i ddiwygio'n rheolaidd. Yn ogystal â gwrando ar ddarparwyr gwasanaethau a'r staff, byddwn yn annog y cyhoedd i gyfrannu a byddwn yn gwrando ar yr hyn sydd ganddynt hwythau i'w ddweud. Yn olaf, mae gennym gyfle unigryw yng Nghymru i fanteisio ar yr elfennau gorau o fannau eraill wrth inni ddatblygu agenda unigryw sy'n diwallu ein hanghenion a'n hamgylchiadau ni. Mae 'Cyflawni'r Cysylltiadau' yn dwyn ynghyd yr holl agweddau ar ddiwygio gwasanaeth cyhoeddus i greu un fframwaith cydlynol. Edrychwn ymlaen at yr her o'i weithredu.

David Lloyd: Diolchaf i'r Gweinidog am ei datganiad ac am y cyfle i edrych yn fanwl ar y cynllun gweithredu newydd 'Cyflawni'r Cysylltiadau'. O ran y tair elfen yn y meddylfryd a amlinellwyd gan y Gweinidog, hoffwn gael eglurhad ynglŷn â beth yn union sy'n cael ei ddweud yn yr elfen gyntaf sy'n rhoi sylw i'r angen i ddarparu gwasanaethau gyda phobl. Afraid dweud bod mynediad at wasanaethau cyhoeddus yn hollbwysig. Mae hyn yn cynnwys gweld eich meddyg teulu, eich deintydd, neu gael llawdriniaeth os ydych ar restr aros. Sut y bydd 'Cyflawni'r Cysylltiadau' o fudd yn y sefyllfaoedd hynny pan fo mynediad yn bwysig? Nid wyf am weld gormod o bwyslais ar fynediad a fyddai'n golygu, er enghraifft, mai Galw Iechyd Cymru fyddai'r ateb i'r argyfwng mewn deintyddiaeth. Nid yw cael gwell pwynt mynediad yn unig yn gwneud dim i leddfu'r ffaith nad oes gwasanaeth ar gael yn y lle cyntaf. Felly, a allwch egluro sut y bydd 'Cyflawni'r Cysylltiadau' yn gymorth yn hynny o beth? Ar yr un thema, pa sicrwydd sydd yn y cynllun gweithredu y bydd gwasanaethau ar gael yn ddidrafferth drwy gyfrwng y Gymraeg i'r rhai sydd am gael gwasanaethau yn Gymraeg?

I turn to the third and final strand, which deals with greater efficiency and securing the best value. Will the Minister clarify how the savings of £600 million a year by 2010 is arrived at? In terms of the scrutiny that we as opposition Members have to carry out as part of our remit, we need more details as to how these figures are arrived at.

Trof fy sylw at y drydedd elfen, sef yr un olaf, sy'n ymdrin â gwell effeithlonrwydd a sicrhau gwerth gorau. A wnaiff y Gweinidog egluro sut y bwriedir cyflawni arbedion o £600 miliwn y flwyddyn erbyn 2010? O ran y gwaith craffu y mae'n rhaid inni fel Aelodau'r wrthblaid ei wneud fel rhan o'n cylch gwaith, rhaid inni gael rhagor o fanylion ynghylch sut y cyfrifwyd y ffigurau hyn.

3.10 p.m.

I know that there are some headline announcements of possible means of making savings on the final page of the document, such as taking action to improve procurement and commissioning. In terms of funding public services, does that statement mean that the level of private funding for public services will increase? On the part of the sentence that says that it will mean managing capital assets more effectively, does that mean that capital investment, say, for health, is dependent on the efficiency savings that are outlined in 'Delivering the Connections'?

Gwn fod rhai prif gyhoeddiadau ar ddulliau posibl o wneud arbedion ar dudalen olaf y ddogfen, megis gweithredu i wella caffael a chomisiynu. O ran ariannu gwasanaethau cyhoeddus, a yw'r datganiad hwnnw'n golygu y bydd lefelau cyllid preifat ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yn cynyddu? O ran y rhan o'r frawddeg sy'n dweud y bydd yn golygu rheoli asedau cyfalaf yn fwy effeithiol, a yw hynny'n golygu bod buddsoddiad cyfalaf ar gyfer iechyd, dyweder, yn dibynnu ar yr arbedion effeithlonrwydd a amlinellwyd yn 'Cyflawni'r Cysylltiadau'?

My final question is important in the field of education and to our schools. Will the Minister clarify whether individual schools will have to make the efficiency savings as part of this agenda?

Mae fy nghwestiwn olaf yn bwysig ym maes addysg ac i'n hysgolion. A wnaiff y Gweinidog egluro a fydd rhaid i ysgolion unigol sicrhau'r arbedion effeithlonrwydd fel rhan o'r agenda hon?

Sue Essex: As the song goes, I have a little list here, but, if I forget something, I am sure that you will point it out to me. In terms of working with people, I feel that this is a profound change because, as you said, it is not only about access, although you would not deny that that is important, but I think that, when you look at them, you will see that many of our service programmes are not designed with people. Regarding some of the important programmes of service delivery and support, such as the programme for carers, unless you design them with the people who require the service, you are unlikely to get it to match their needs exactly. That is the point, and I think that how we do this will mean a big cultural change for the public sector. It requires a lot of skill, and I think that it also applies not only to individuals, but to how you work with

Sue Essex: Fel y dywedir yn y gân, mae gennyf restr fechan yma, ond, os anghofiaf rywbeth, yr wyf yn siŵr y gwnewch dynnu fy sylw ato. O ran gweithio gyda phobl, yr wyf yn teimlo bod hyn yn newid sylweddol oherwydd, fel y dywedaso, nid yw'n ymwneud â mynediad yn unig, er na fydddech yn gwadu nad yw hynny'n bwysig, ond credaf, pan fyddwch yn edrych arnynt, y gwelwch nad oes llawer o'n rhaglenni gwasanaethau wedi eu cynllunio gyda phobl. O safbwynt rhai o'r rhaglenni pwysig o ran darparu gwasanaethau a chefnogi gwasanaethau, megis y rhaglen i ofalwyr, oni bai eich bod yn eu cynllunio gyda'r bobl sydd angen y gwasanaeth, nid ydych yn debygol o gael gwasanaeth a fydd yn diwallu eu hunion anghenion. Dyna'r pwynt, ac yr wyf yn credu y bydd y ffordd y byddwn yn gwneud hyn yn golygu newid mawr yn niwylliant y sector

communities. If you are to get major changes in attitude regarding what we do with waste, often—and this has been shown quite profoundly—if you work with communities, rather than impose, you get that change.

I think that your second point was on the guarantee of the Welsh language. I mentioned that that is absolutely crucial, and I am pleased that you raised it. We will monitor progress to ensure that equality of access includes access in the Welsh language.

How do we judge greater efficiency? We already know how effective those gains will be. We have put down £600 million, which has been worked on, not just plucked out of the air. That will be in terms of cash savings and value for money in improved service delivery. In terms of cash savings, procurement is one of the key areas, and we have a track record on that. We have detailed some of the ideas, but many more are coming forward. The second important area in terms of cash savings concerns shared services. Since we started this exercise, some months ago, the interesting thing is that rather than reluctance, we are getting a huge number of people and organisations coming up and saying, 'Quite honestly, we are up for this, and we are suggesting coming together in this way because it makes sense'. However, we will monitor it and, obviously, the value-for-money targets have been set for organisations.

On managing capital investment, it is about exactly that. I think that we would all agree that we have not been good in Wales at looking after our assets. Therefore, we are requiring local authorities and other public sector bodies to prepare asset management registers and to ensure—this is just one example, not the full story—that that asset is

cyhoeddus. Mae'n gofyn am lawer o sgiliau, a chredaf fod hynny'n berthnasol hefyd nid yn unig i unigolion, ond i'r ffordd yr ydych yn gweithio gyda chymunedau. Os ydych am weld newidiadau mawr mewn agwedd o ran yr hyn yr ydym yn ei wneud gyda gwastraff, yn aml—ac mae hyn wedi ei ddangos yn eglur iawn—os ydych yn gweithio gyda chymunedau yn hytrach na gorfodi rhywbeth arnynt, gallwch sicrhau'r newid hwnnw.

Credaf fod eich ail bwynt yn ymwneud â sicrwydd ynglŷn â'r Gymraeg. Dywedais fod hynny'n gwbl hanfodol, ac yr wyf yn falch eich bod wedi codi'r mater. Byddwn yn monitro'r cynnydd i sicrhau bod cydraddoldeb mynediad yn cynnwys mynediad at wasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Sut y mae mesur gwell effeithlonrwydd? Yr ydym eisoes yn gwybod pa mor effeithiol y bydd yr enillion hynny. Yr ydym wedi nodi £600 miliwn, ffigur sydd wedi ei gyfrifo, yn hytrach na rhywbeth sy'n ffrwyth dyfalu. Bydd hynny'n ymwneud ag arbedion mewn arian a gwerth am arian drwy wella darpariaeth y gwasanaethau. O ran arbedion mewn arian, mae caffael yn un o'r meysydd allweddol, ac mae gennym enw da yn hynny o beth. Yr ydym wedi rhoi manylion am rai o'r syniadau, ond mae llawer o rai eraill yn cael eu datblygu. Mae'r ail faes pwysig o ran arbedion mewn arian yn ymwneud â rhannu gwasanaethau. Ers pan ddechreuwyd ar yr ymarferiad hwn, rai misoedd yn ôl, yr hyn sy'n ddiddorol yw nad ydym yn dod wyneb yn wyneb ag amharodrwydd, ond yr ydym yn hytrach yn gweld nifer enfawr o bobl yn dod atom ac yn dweud, 'A dweud y gwir, yr ydym yn barod am hyn, ac yr ydym yn awgrymu ein bod yn dod at ein gilydd yn y modd hwn gan ei fod yn gwneud synnwyr'. Fodd bynnag, byddwn yn ei fonitro ac, yn amlwg, mae'r targedau gwerth am arian wedi cael eu pennu ar gyfer y sefydliadau.

O ran rheoli buddsoddiad cyfalaf, dyna'n union y mae'n ei olygu. Credaf y byddai pawb ohonom yn cytuno nad ydym wedi bod yn dda iawn yng Nghymru am edrych ar ôl ein hasedau. Felly, yr ydym am ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a chyrff eraill yn y sector cyhoeddus baratoi cofrestrau rheoli asedau a sicrhau—un enghraifft yn unig yw

well maintained and kept because, in many cases, if you do not do that, the actual replacement is much more expensive. There is a whole different approach that needs to be taken to asset management and so on.

On your point about schools, this is a kind of myth that has been drawn up. We told local government that we were looking for savings, just as it was looking for savings. It is up to each local authority how it applies that, and a lot of the stuff that came from the procurement unit—some really good ideas—secured those savings. It was not just a matter of saying to every organisation or school that they have to deliver 1 per cent. It does not have to be done that way.

Nick Bourne: I thank the Minister for her statement on ‘Delivering the Connections’, and for setting out the timetable and the various action points. The 10 commitments are general, but they are difficult to disagree with, probably for that reason; it is apple pie and motherhood. I have no problem with surveying public opinion on services, complaints procedures and so on as that is all sensible.

However, I have several points to make and some questions to ask. The language used in the document is often clear and unambiguous, but sometimes it is not. Given that this document is all about access—indeed, at one point, it mentions the accessibility of information for members of the public—some of its language is quite obscure. To give two examples, on page 24, it says:

‘Achieve greater harmonisation of the main performance frameworks’.

I cannot begin to understand what that is. Secondly, on page 28, it says:

‘To embed detailed customer service standards and guidance into public service training and development, and staff

hyn, ac nid y stori gyflawn—fod yr ased hwnnw’n cael ei gynnal a’i gadw’n dda oherwydd, mewn llawer o achosion, os na wnewch hynny, mae’n llawer mwy costus cael un arall yn ei le. Rhaid cael agwedd gwbl wahanol tuag at reoli asedau ac yn y blaen.

Ynglŷn â’ch pwynt ynghylch ysgolion, mae hyn yn rhyw fath o fyth sydd wedi cael ei greu. Dywedasom wrth lywodraeth leol ein bod yn chwilio am arbedion, yn yr un modd ag yr oeddent hwythau’n chwilio am arbedion. Yr awdurdodau lleol eu hunain sydd i benderfynu sut y byddant yn gweithredu hynny, a sicrhodd llawer o’r hyn a ddeilliodd o’r uned gaffael—rhai syniadau gwirioneddol dda—yr arbedion hynny. Yr oedd yn golygu llawer mwy na dweud wrth bob sefydliad neu ysgol fod rhaid iddynt sicrhau arbedion o 1 y cant. Nid oes rhaid iddo ddigwydd felly.

Nick Bourne: Diolchaf i’r Gweinidog am ei datganiad ar ‘Cyflawni’r Cysylltiadau’, ac am amlinellu’r amserlen a’r gwahanol bwyntiau gweithredu. Mae’r 10 ymrwymiad yn gyffredinol, ond mae’n anodd anghytuno â hwy, am y rheswm hwnnw yn ôl pob tebyg; maent yn bethau dymunol a derbynol. Nid yw cynnal arolwg o farn y cyhoedd am wasanaethau, trefniadau cwyno ac yn y blaen yn peri dim anhawster i mi, gan fod hynny oll yn synhwyrol.

Fodd bynnag, mae gennyf amryw o bwyntiau i’w gwneud a rhai cwestiynau i’w gofyn. Mae’r iaith a ddefnyddir yn y ddogfen yn aml yn glir a diamwys, ond weithiau nid yw felly. O ystyried mai dogfen am fynediad yw hon drwyddi draw—yn wir, mewn un man, sonnir am y wybodaeth sydd ar gael i aelodau o’r cyhoedd—mae peth o’r iaith ynddi yn bur ddyrys. A rhoi dwy enghraifft, ar dudalen 24, mae’n dweud:

Sicrhau mwy o gysondeb o ran y prif fframweithiau perfformiad.

Ni allaf ddirnad o gwbl beth yw ystyr hynny. Yn ail, ar dudalen 28, mae’n dweud:

Ymgorffori safonau a chanllawiau manwl ar wasanaeth i gwsmeriaid mewn prosesau hyfforddi a datblygu gwasanaethau

performance systems’.

There is this tendency to use jargon and gobbledegook—certainly in the English and possibly in the Welsh. Given the laudable statement of making this accessible to people, we need documents to be written in plain English and Welsh.

Minister, I agree with the surveying of opinion as set out on pages 5 and 7 of the document, but will there be any guidelines as to how that is to be achieved to ensure some consistency of approach? I appreciate the possible need for some flexibility, but, presumably, there will be some standardisation of the way in which opinion will be surveyed. I would welcome some guidance as to how that will be achieved.

The document also mentions avoiding too much of a postcode lottery. Without being too picky, I would have thought that any kind of postcode lottery is too much. I do not, therefore, understand why it was suggested that something of a postcode lottery would be all right. Perhaps you could pick that up, Minister.

Some substantive issues are referred to in this document, such as smartcards, about which we are concerned as we think that they are identification cards by another name. Our views are also known on the matter of the ASPB merger agenda. However, I appreciate that this document is more about process than about substantive issues, so I will not dwell on those matters. I welcome the £600 million per annum savings by 2010, if they are to be achieved. That is an ambitious aim, but it will mean that more money will be available to get down the long waiting lists, with some more available perhaps for higher education, which would be useful.

I do not doubt that this is an important document, but I feel that the Government has a tendency to concentrate too much on the process. We have had the document, ‘Making the Connections’, we have had all the documents and the discussions on the ASPB mergers, and we will probably have the

cyhoeddus, ac yn systemau perfformiad y staff.

Mae tuedd i ddefnyddio jargon a rwdl-miri—yn sicr yn y Saesneg ac o bosibl yn y Gymraeg. O ystyried y datganiad canmoladwy am sicrhau bod hyn yn hygyrch i bobl, mae angen i ddogfennau gael eu hysgrifennu mewn Saesneg a Chymraeg clir.

Weinidog, yr wyf yn cytuno â chynnal arolwg barn fel y nodir ar dudalennau 5 a 7 o’r ddogfen, ond a fydd unrhyw ganllawiau ar sut y mae hyn i gael ei wneud i sicrhau rhyw gysondeb o ran dulliau? Yr wyf yn gwerthfawrogi’r angen posibl am rywfaint o hyblygrwydd, ond yr wyf yn cymryd y ceir rhywfaint o safoni yn y dull o gynnal arolwg barn. Byddwn yn croesawu rhyw arweiniad ynghylch sut y caiff hynny ei gyflawni.

Mae’r ddogfen hefyd yn sôn am osgoi gormod o loteri cod post. Heb hollti blew’n ormodol, byddwn wedi tybio bod unrhyw fath o loteri cod post yn ormod. Nid wyf, felly, yn deall pam yr awgrymwyd y byddai rhywfaint o loteri cod post yn dderbyniol. Efallai y gallech ymateb i hynny, Weinidog.

Cyfeirir at rai materion o sylwedd yn y ddogfen hon, megis cardiau call, rhywbeth yr ydym yn pryderu amdano gan ein bod yn credu mai cardiau adnabod wrth enw arall ydynt. Mae ein barn am fater agenda uno’r cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad â’r Cynulliad hefyd yn hysbys. Fodd bynnag, yr wyf yn sylweddoli bod a wnelo’r ddogfen hon fwy â phroses na materion o sylwedd, felly nid wyf am fynd ar ôl y materion hynny. Yr wyf yn croesawu’r £600 miliwn y flwyddyn o arbedion erbyn 2010, os ydynt i gael eu gwireddu. Mae hynny’n nod uchelgeisiol, ond bydd yn golygu y bydd mwy o arian ar gael i gwtogi ar y rhestrau aros hir, gyda mwy ar gael efallai ar gyfer addysg uwch, a fyddai’n beth buddiol.

Yn ddiarnheuaeth, mae hon yn ddogfen bwysig, ond teimlaf fod gan y Llywodraeth duedd i ganolbwyntio gormod ar y broses. Yr ydym wedi cael y ddogfen, ‘Creu’r Cysylltiadau’, yr ydym wedi cael yr holl ddogfennau a’r trafodaethau am uno’r CCNCau â’r Llywodraeth, ac mae’n debyg y

Government White Paper tomorrow. However, while process is important, we need delivery, too. The Minister referred to that, somewhat contentiously, in her statement about the improvements that are coming through. That is not evident from looking at the waiting lists, nor is it evident from looking at the non-availability of dentists, the closure of post offices and rural schools, the out-of-hours service of GPs and so on. Therefore, we need a concentration on delivery as well as on process. I appreciate that the process is a part of setting the framework within which delivery should be achieved, but it seems that we are having an awful lot of one and not quite so much of the other at the moment. I would appreciate, Minister, for you to take those points up if you can.

Sue Essex: With regard to your first two examples, the point about harmonisation is about performance indicators right across the board so that people can look at integrated service delivery. I take your point, and that is something that I feel, as well, with regard to whether the language used puts people off or whether people can understand it. In fairness, this document is meant for the people involved and they will understand it. However, I agree that, if we are to reach out to people, it is no good talking about 'harmonisation', 'embedding' and all the rest of it—we need sensible language.

On the assessing of public opinion, we do not have any definitely formed ideas at the moment, but any contributions that you may wish to make would be gratefully received. We want to do two things. First, over time, we want to be able to check whether we are delivering the services. We all want to see that progress, and I am sure that we can all understand that aim, as you must have a baseline and see where you are going. Secondly, we want it to be quality assured, so that we have something that is really usable and is not the tick-box kind of response that we expect from people. We are still thinking about that, and if anyone has views on what they would like to see, I would be glad to have them.

cawn Bapur Gwyn y Llywodraeth yfory. Fodd bynnag, er bod y broses yn bwysig, mae angen cyflawni hefyd. Cyfeiriodd y Gweinidog at hynny, braidd yn gynhennus, yn ei datganiad am y gwelliannau sydd ar y gweill. Nid yw hynny'n amlwg o edrych ar y rhestrau aros, ac nid yw'n amlwg ychwaith o edrych ar y diffyg deintyddion, ar gau swyddfeydd post ac ysgolion gwledig, y gwasanaeth meddygon teulu y tu allan i oriau ac yn y blaen. Felly, mae angen inni ganolbwyntio ar gyflawni yn ogystal ag ar y broses. Yr wyf yn sylweddoli bod y broses yn rhan o sefydlu'r fframwaith y dylid cyflawni oddi mewn iddo, ond mae'n ymddangos ein bod yn cael llawer iawn o'r naill a dim cymaint o'r llall ar hyn o bryd. Byddwn yn ddiolchgar, Weinidog, pe baech yn ymdrin â'r pwyntiau hynny os gallwch.

Sue Essex: O ran eich dwy enghraifft gyntaf, mae'r pwynt am gysoni yn cyfeirio at ddangosyddion perfformiad drwyddynt draw fel bod pobl yn gallu edrych ar ddarparu gwasanaethau mewn modd integredig. Yr wyf yn derbyn eich pwynt, ac mae hynny'n rhywbeth yr wyf finnau yn ei deimlo hefyd, o ran a yw'r iaith a ddefnyddir yn gwneud i bobl droi eu cefnau neu a yw pobl yn gallu ei deall. A bod yn deg, mae'r ddogfen hon wedi'i bwriadu ar gyfer y bobl sy'n ymwneud â hyn a byddant yn ei deall. Fodd bynnag, yr wyf yn cytuno, os ydym am ymestyn allan at bobl, nad oes gwerth mewn siarad am 'gysoni', 'ymgorffori' ac ati ac ati—mae angen iaith synhwyrol.

O ran asesu barn y cyhoedd, nid oes gennym syniadau pendant ar hyn o bryd, ond byddai unrhyw gyfraniadau yr hoffech eu gwneud yn cael eu derbyn yn ddiolchgar. Yr ydym am weld dau beth. Yn gyntaf, dros gyfnod, yr ydym am allu edrych pa un a ydym yn darparu'r gwasanaethau. Mae pawb ohonom am weld y cynnydd hwnnw, ac yr wyf yn siŵr y gall pawb ohonom ddeall y nod hwnnw, gan fod yn rhaid cael llinell sylfaen i weld i ble yr ydych yn mynd. Yn ail, yr ydym am gael proses sicrhau ansawdd, fel bod gennym rywbeth gwirioneddol fuddiol, nid rhyw ymateb ticio blychau yr ydym yn ei ddisgwyl gan bobl. Yr ydym yn dal i feddwl am hynny, ac os oes gan unrhyw un farn am yr hyn yr hoffent ei weld, byddwn yn falch gael gwybod.

On postcode lotteries and whether that is ever all right, I think that people accept that, in certain areas, there are differing levels of accessibility and other factors. When you talk to people living in rural Wales, you find that they accept that they will not have the frequency of bus service that people who live in Ely or Cathays in Cardiff enjoy.

O ran loteriau cod post a pha un a yw hynny yn dderbyniol o gwbl, yr wyf yn credu bod pobl yn derbyn, mewn rhai ardaloedd, fod lefelau gwahanol o hygyrchedd a ffactorau eraill. Wrth siarad â phobl sy'n byw yng nghefn gwlad Cymru, yr ydych yn canfod eu bod yn derbyn na fyddant yn cael gwasanaethau bws mor fynych â'r hyn y mae pobl sy'n byw yn Nhrelái neu Cathays yng Nghaerdydd yn ei gael.

3.20 p.m.

There are levels of variation that people will understand, owing to the geography and the dispersal of the population, and so on. After being an Assembly Member for six years, my feeling is that the tolerance level of those differences is narrowing. Across Wales, people have more knowledge about what is happening on service delivery. In many areas, people want to see a comparability of service levels, whether they live in Conwy or Cardiff. As politicians, we must acknowledge that. So, a lot of this work will be about trying to get that compatibility and fairness, which is why the issue of core standards is important in this regard. That is my response to the reference to postcode lotteries.

Mae lefelau o amrywiaeth y bydd pobl yn eu deall, oherwydd daearyddiaeth a'r modd y mae'r boblogaeth wedi ei gwasgaru, ac yn y blaen. Ar ôl bod yn Aelod Cynulliad ers chwe mlynedd, yr argraff sydd gennyf yw bod lefel y goddefgarwch tuag at y gwahaniaethau hynny yn mynd yn llai. Ar draws Cymru, mae gan bobl fwy o wybodaeth am yr hyn sy'n digwydd o ran darparu gwasanaethau. Mewn llawer o ardaloedd, mae pobl am gael gwasanaeth tebyg, boed hwy'n byw yng Nghonwy neu yng Nghaerdydd. Fel gwleidyddion, rhaid inni gydnabod hynny. Felly, bydd a wnelo llawer o'r gwaith hwn â cheisio cael y cysondeb a'r tegwch hwnnw, a dyna pam y mae safonau craidd yn bwysig yn y cyswllt hwn. Dyna fy ymateb i'r cyfeiriad at loteriau cod post.

On smartcards, I wish that you were not so jaundiced about it. People are used to having identification. When I was a kid, I had my library card and my divvy card. It was a long time before anyone would trust me with a Barclaycard, as Brian might say. People use their bus passes as a form of identification. The smartcard is just an extension of eligibility, so that people can get more services. No decision has yet been made, but it seems that it may benefit people—particularly older people. Therefore, let us keep our eyes and ears open, and see if it is something that we can develop.

O ran cardiau call, byddai'n dda gennyf pe na baech mor rhagfarnlyd ynghylch hynny. Mae pobl wedi arfer â chael dulliau adnabod. Pan oeddwn yn blentyn, yr oedd gennyf gerdyn llyfrgell a cherdyn siâr. Aeth amser maith heibio cyn i neb ymddiried ynof i gael Barclaycard, fel y byddai Brian yn dweud, o bosibl. Mae pobl yn defnyddio eu tocynnau bws fel modd o'u hadnabod. Dim ond estyniad o hawliau yw'r cerdyn call, fel y gall pobl gael rhagor o wasanaethau. Nid oes penderfyniad wedi cael ei wneud eto, ond mae'n ymddangos y gallai fod o fudd i bobl—yn enwedig pobl hŷn. Felly, gadewch inni gadw'n llygaid a'n clustiau yn agored, a gweld a yw'n rhywbeth y gallwn ei ddatblygu.

On whether service delivery has improved, waiting lists are going down. You do not need me to tell you that; Brian produces the

O ran pa un a yw darparu'r gwasanaethau wedi gwella, mae'r rhestrau aros yn mynd yn llai. Nid oes angen i mi ddweud hynny; mae

statistics, so you can see for yourself. Again, do not be too jaundiced. There are very good results in education, for instance. We have more students than before, and job figures are much better. At the other end, waste and recycling management is much better. There is a series of areas where performance is improving. However, we are not complacent, and we know that the improvements must continue and must be delivered consistently, which is the nature of this action plan.

On your last point about process, yes, the plan is about process. I suppose that I am more of a policy person, so I must grit my teeth and get on with the process, but process does matter. If you are to get much of this action plan right, it involves that magic word 'procurement', which is not a word on the lips of people in the pubs and clubs of Wales. However, it will make a substantial difference in terms of the quality of the service, in getting value for money and in delivering many of the effective areas that we wish to deliver. Therefore, it is about getting those processes right. When I talk to people on the ground, I see that they are excited about the idea of networking, and sharing and working with colleagues to get better value and delivery. We must acknowledge that this is important for those people who do the job day in, day out.

Michael German: Thank you for the statement, which is full of good principles and aims, and it sets things out laudably. However, as always, the devil is in the detail and in looking behind the headline.

On the issue of process, the document is littered with references to collaboration, which is a term that you have used, and partnership. Partnerships do not automatically happen because you put a statement in a document. I was looking for some indication of the way in which you were going to achieve those partnerships and collaboration. You mention the partnership on waste management, for example, where you are looking to local authorities to collaborate. You and I know that we have

Brian yn cynhyrchu'r ystadegau, felly gallwch weld drosoch eich hun. Eto, peidiwch â bod yn rhy ragfarnlyd. Mae llawer o ganlyniadau da ym maes addysg, er enghraifft. Mae gennym fwy o fyfyrwyr nag o'r blaen, ac mae'r ffigurau o ran swyddi yn llawer gwell. Mae nifer o feysydd lle y mae'r perfformiad yn gwella. Fodd bynnag, nid ydym yn hunanfodlon, a gwyddom fod yn rhaid i'r gwelliannau barhau a bod rhaid i hynny ddigwydd yn gyson, a dyna natur y cynllun gweithredu hwn.

O ran eich pwynt olaf ynghylch y broses, ydyw, mae'r cynllun yn ymwneud â'r broses. Mae'n siŵr fy mod i'n fwy o berson polisi, felly rhaid imi wasgu fy nannedd yn dynn a bwrw ymlaen â'r broses, ond mae'r broses yn bwysig. Er mwyn i lawer o'r cynllun gweithredu hwn daro deuddeg, rhaid wrth y gair lledrithiol hwnnw 'caffael', nad yw'n air sydd ar wefusau pobl yn nhafarnau a chlybiau Cymru. Fodd bynnag, bydd yn gwneud gwahaniaeth sylweddol o ran ansawdd y gwasanaeth, o ran cael gwerth am arian a gwireddu llawer o'r meysydd effeithiol yr ydym am eu gwireddu. Felly, mae cael y prosesau hynny'n iawn yn bwysig. Pan fyddaf yn siarad â phobl ar lawr gwlad, gwelaf eu bod yn cyffroi ynghylch y syniad o rwydweithio, a rhannu a gweithio gyda chydweithwyr i gael gwelliant o ran gwerth ac o ran darparu'r gwasanaeth. Rhaid inni gydnabod bod hyn yn bwysig i'r bobl hynny sy'n gwneud y gwaith yn feunyddiol.

Michael German: Diolch ichi am y datganiad, sy'n llawn egwyddorion a nodau da, ac mae'n cyflwyno pethau mewn modd canmoladwy. Fodd bynnag, fel arfer, yn y manylion y mae'r drwg, pan edrychwn ni y tu ôl i'r pennawd.

Ynghylch y broses, mae'r ddogfen yn frith o gyfeiriadau at gydweithredu, sy'n derm yr ydych wedi ei ddefnyddio, a phartneriaeth. Nid yw partneriaethau yn digwydd yn awtomatig am eich bod yn rhoi datganiad mewn dogfen. Yr oeddwn yn chwilio am ryw fath o arwydd sut yr oeddech yn mynd i gyflawni'r partneriaethau hynny a'r cydweithredu. Soniasoch am y bartneriaeth rheoli gwastraff, er enghraifft, lle'r ydych yn disgwyl i'r awdurdodau lleol gydweithredu. Gwyddoch chi a minnau ein bod wedi bod yn

been trying to get local authorities to collaborate on waste management for the best part of 18 years. How do you propose to do this now, beyond the use of coercion, or rather the pressure which you put upon them to do it well? Will there be some financial incentive to drive people towards those partnerships? The same question is true in terms of all these relationships—will there be financial triggers?

My second and more substantive point relates to the financial savings that you intend to make. I see from the action plan that you expect local government to make £39 million-worth of savings next year on top of the savings that they must also make in education and lifelong learning. I understand that, in England, local authorities will be allowed to reinvest the equivalent of that money back into their services. Is it true, Minister, that you intend to top-slice that 1 per cent before authorities receive it? That would mean that it will not be a reinvestment, but a case of the Assembly Government investing in whatever it feels is right, rather than giving a proper incentive to local government. Providing that it can demonstrate that they are reinvestments in the true sense of the word, it would be an incentive to let it have the money from the savings that it makes and to let it reinvest it. I would be grateful for your assurance that we are not expecting that top-slice from the Welsh Assembly Government, but that we are going to allow local government to reinvest it in its local services.

My third point is about an omission in the 'Housing' section of the paper. The action plan does not make the link between housing and health, and, as we know, poor housing has enormously strong links with ill health. Will you examine that issue again to ensure that that important linkage is contained in what is supposed to be a document on making connections?

Finally, I note that you have brought health in as a clear indicator of how you want to make these connections. Are we to take it that this

ceisio cael gan yr awdurdodau lleol gydweithredu ar reoli gwastraff ers yn agos i 18 mlynedd. Sut yr ydych yn bwriadu gwneud hyn yn awr, heblaw defnyddio gorfodaeth, neu'n hytrach y pwysau yr ydych yn ei roi arnynt i'w wneud yn dda? A fydd rhyw gymhelliad ariannol i beri i bobl gydweithredu drwy'r partneriaethau hynny? Mae'r un cwestiwn yn wir yng nghyswllt pob un o'r mathau hyn o bartneriaeth—a fydd cymhellion ariannol i'w sbarduno?

Mae a wnelo fy ail bwynt, sy'n bwynt mwy sylweddol, â'r arbedion ariannol y mae angen ichi eu gwneud. Gwelaaf yn ôl y cynllun gweithredu eich bod yn disgwyl i lywodraeth leol wneud gwerth £39 miliwn o arbedion y flwyddyn nesaf ar ben yr arbedion y mae'n rhaid iddynt eu gwneud hefyd ym maes addysg a dysgu gydol oes. Yn Lloegr, deallaf y bydd yr awdurdodau lleol yn cael ailfuddsoddi swm sy'n cyfateb i'r arian hwnnw yn ôl yn eu gwasanaethau. A yw'n wir, Weinidog, eich bod yn bwriadu brigdorri'r 1 y cant hwnnw cyn i'r awdurdodau ei gael? Byddai hynny'n golygu nad ailfuddsoddi fydd, ond enghraifft o Lywodraeth y Cynulliad yn buddsoddi yn yr hyn y mae hi'n tybio ei fod yn iawn, yn hytrach na rhoi cymhelliad priodol i lywodraeth leol. Cyhyd ag y gall ddangos mai ailfuddsoddiadau ydynt yng ngwir ystyr y gair, byddai'n gymhelliad gadael i lywodraeth leol gael yr arian o'r arbedion a wna a gadael iddi ei ailfuddsoddi. Byddwn yn ddiolchgar am sicrwydd gennych nad ydym yn disgwyl brigdorri gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, ond ein bod yn mynd i ganiatáu i lywodraeth leol ei ailfuddsoddi yn ei gwasanaethau lleol.

Mae a wnelo fy nhrydydd pwynt â rhywbeth sydd wedi'i hepgor o adran 'Dai' y papur. Nid yw'r cynllun gweithredu yn dangos cysylltiad rhwng tai ac iechyd, ac, fel y gwyddom, mae cysylltiadau eithriadol o gryf rhwng tai gwael ac afiechyd. A wnewch edrych eto ar y mater hwnnw i sicrhau bod y cyswllt pwysig hwn yn cael ei gynnwys yn yr hyn sydd i fod yn ddogfen am greu cysylltiadau?

Yn olaf, nodaf eich bod wedi cynnwys iechyd fel dangosydd clir o sut yr ydych am greu'r cysylltiadau hyn. A ydym i dybio y bydd hyn

will also be a first step towards health trusts and boards being merged into the Welsh Assembly Government?

Sue Essex: On process and collaboration and whether we need incentives, when I first started out, I thought that we would probably need to include incentives, because organisations may be reluctant to move from their autonomy to doing this. I feel less need to do that now, but we will keep it under review. One of the reasons for that is that we have had a constructive response from areas. The Welsh Local Government Association has got the bit between its teeth on this in order to progress this area. It has now identified areas that it will work on, and all the local authorities that I have spoken to are keen to do that. It is more about the nuts and bolts of securing those joint arrangements and shared services that need to be tackled, along with some aspects around contracts and so on. This is where Value Wales will be important because we might need to—I am not saying that we do need to—provide that specialist support to some of the public sector for it to move.

That leads me on to your next point. The big incentive for local government is that it sees this as a way of making savings, which it wants to do so that it can reinvest them. That is the spirit of what we are doing. We have put a 1 per cent efficiency view down as what we think can be achieved, but we are not walking away and saying, ‘There we are; you work it out’, because we have invested so much in procurement in other areas to give that support.

In terms of measuring growth in the budget—and some growth will come in on pay and other things—much of the growth that we have identified from local government is about improved services. Local government knows—and there has been a change since last year—that it will have to play its part in freeing up resources to cover some of this growth, because you just cannot go on adding more money. Therefore, since we discussed this last year, I have found a more realistic

hefyd yn gam cyntaf tuag at wneud ymddiriedolaethau a byrddau iechyd yn rhan o Lywodraeth Cynulliad Cymru?

Sue Essex: O ran proses a chydweithredu a pha un a oes angen cymhellion arnom, pan oeddwn yn dechrau arni, tybiwn y byddai angen inni gynnwys cymhellion yn ôl pob tebyg, oherwydd y gallai sefydliadau fod yn gyndyn o symud o ymreolaeth at wneud hyn. Teimlaf lai o angen i wneud hynny erbyn hyn, ond byddwn yn cadw golwg ar y mater. Un o’r rhesymau am hynny yw ein bod wedi cael ymateb adeiladol gan ardaloedd. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn gweithio’n ddiwyd ar hyn er mwyn symud pethau ymlaen. Erbyn hyn mae wedi nodi’r meysydd y bydd yn gweithio arnynt, ac mae pob awdurdod lleol yr wyf wedi siarad ag ef yn awyddus i wneud hynny. Mae’n fwy o fater o bennu manylion y cyd-drefniadau a’r gwasanaethau a rennir y mae angen mynd i’r afael â hwy, ynghyd â rhai agweddau yn ymwneud â chontractau ac yn y blaen. Dyma lle y bydd Gwerth Cymru yn bwysig oherwydd gallai fod angen inni—nid wyf yn dweud bod angen inni—ddarparu’r cymorth arbenigol hwnnw i rannau o’r sector cyhoeddus er mwyn iddynt symud.

Mae hynny yn mynd â mi at eich pwynt nesaf. Y cymhelliad mawr i lywodraeth leol yw ei bod yn gweld hyn fel ffordd o wneud arbedion, rhywbeth y mae am ei wneud er mwyn iddi allu eu hailfuddsoddi. Hynny yw meddylfryd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Yr ydym wedi pennu l y cant o effeithlonrwydd fel yr hyn y tybiwn y mae modd ei gyflawni, ond nid ydym yn cerdded ymaith ac yn dweud, ‘Dyna chi, cewch chi ddatrys hynny’, oherwydd yr ydym wedi buddsoddi cymaint mewn caffael mewn meysydd eraill i roi’r cymorth hwnnw.

O ran mesur twf yn y gyllideb—a bydd rhywfaint o dwf o ran cyflogau a phethau eraill—mae a wnelo llawer o’r twf y gwyddom amdano mewn llywodraeth leol â gwell gwasanaethau. Gŵyr llywodraeth leol—ac mae newid wedi digwydd ers y llynedd—y bydd yn rhaid iddi chwarae ei rhan wrth ryddhau adnoddau gogyfer â pheth o’r twf hwn, oherwydd ni allwch ddal ati i roi rhagor o arian. Felly, ers inni drafod hyn y llynedd, yr wyf wedi canfod dull mwy

approach. Yes, we still have a growth in public sector spending—it is coming through the consequentials from Gordon Brown—but we will not see the levels that we have seen in the last couple of years, which the First Minister often alludes to. So it is incumbent on all of us, including the Assembly Government, to try to make those savings to meet some of the pressures on us. That is why I did the spending review last year.

On the links between housing and health, I will go back and have a look at that and talk to colleagues about it, but you are right to say that many health improvements, particularly in terms of social care for the elderly, have a linkage with housing. That is one reason why I put the extra £30 million into the budget for housing for the elderly. I will go back and see whether that needs to be strengthened or needs greater clarity. If there is anything else that you would particularly like to see, by all means approach me.

Ann Jones: You have mentioned public service delivery for the people and with the people in our communities and that is key to this action plan. We are looking at partnerships and there is a genuine desire, certainly in my communities, to engage in meaningful partnerships with those in public services for the better delivery of services for all of us.

3.30 p.m.

Secondly, I believe that the public-sector management initiative is crucial to ensuring that these partnerships exist and the delivery of these services takes place. I am pleased to see such positive responses from the WLGA, the trade union movement and local government on how we take this forward. How will we monitor effectively and efficiently that we are delivering for and with the people and meeting their needs? It should not just be about ticking boxes and putting people in those boxes. While I welcome this action plan, and I am sure that the Local Government and Public Services Committee will have an opportunity to consider it in great depth, I seek assurance that we will

realistig. Oes, mae gennym dwf yng ngwariant y sector cyhoeddus o hyd—mae'n dod drwy'r symiau canlyniadol oddi wrth Gordon Brown—ond ni welwn y lefelau yr ydym wedi eu gweld dros y blynyddoedd diwethaf, y mae'r Prif Weinidog yn cyfeirio atynt yn aml. Felly, rhaid i bawb ohonom, gan gynnwys Llywodraeth y Cynulliad, geisio gwneud yr arbedion hynny er mwyn ymateb i rywfaint o'r pwysau sydd arnom. Dyna pam y cynhaliais yr adolygiad o wariant y llynedd.

O ran y cysylltiad rhwng tai ac iechyd, af yn ôl ac edrych ar hynny a'i drafod gyda'm cyd-Aelodau, ond yr ydych yn iawn wrth ddweud bod cysylltiad rhwng llawer o welliannau iechyd, yn enwedig o ran gofod cymdeithasol i'r henoed, a thai. Dyna un rheswm pam y rhoddais £30 miliwn ychwanegol yn y gyllideb ar gyfer tai i'r henoed. Af yn ôl i weld a oes angen cryfhau hynny neu a oes angen mwy o eglurder. Os oes unrhyw beth arall yr hoffech ei weld yn arbennig, cofiwch gysylltu â mi.

Ann Jones: Yr ydych wedi sôn am ddarparu gwasanaethau cyhoeddus i'r bobl a chyda'r bobl yn ein cymunedau a dyna'r allwedd i'r cynllun gweithredu hwn. Yr ydym yn edrych ar bartneriaethau ac mae awydd gwirioneddol, yn sicr yn fy nghymunedau i, i ymuno mewn partneriaethau ystyrllon gyda phobl yn y gwasanaethau cyhoeddus er mwyn darparu gwasanaethau yn well i bawb ohonom.

Yn ail, credaf fod menter reoli'r sector cyhoeddus yn allweddol i sicrhau bod y partneriaethau hyn yn bodoli a bod y gwasanaethau hyn yn cael eu darparu. Mae'n dda gennyf weld ymatebion mor gadarnhaol gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, mudiad yr undebau llafur a llywodraeth leol ynghylch y modd y dylem symud ymlaen â hyn. Sut y gwnawn ni fonitro mewn modd effeithiol ac effeithlon ein bod yn darparu gyda'r bobl a throstynt ac yn diwallu eu hanghenion? Nid mater o dicio blychau a gosod pobl yn y blychau hynny ddylai hyn fod. Er fy mod yn croesawu'r cynllun gweithredu hwn, ac yr wyf yn siŵr y caiff y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau

monitor the effectiveness of service delivery to people in our communities.

Sue Essex: You have communities in your constituency, and in replying to Nick I spoke about how we might conduct general blanket surveys across Wales. However, in terms of focusing in particular on improving services and trying to get real change, we have to work out how we are going to involve those communities and give them their say in developing the programme. We must then be prepared to listen to their experiences. I do not have any magic solutions, but local government and central Government must be better at listening to and hearing what people say about their experience of services. Members can play a real part in that.

In terms of how we are monitoring this on a wider scale, we have value-for-money targets, and this will have to be quite closely audited, both through the sectors and by ourselves, to ensure that we are making those movements, not at the expense of the public, but with the public. One of the crucial issues will be to change public expectations. In many areas, people are not used to getting first-class services and do not ask for them. You have to build up expectations and say to those people that they have rights too. This is where the core standards will help, in highlighting what people have a right to expect.

Jonathan Morgan: I want to go back to some of the jargon and terminology that is used in the document and in the statement that you have released today. You refer in the document to joining up and simplifying public services. However, there is a slight contradiction in that you say that the emphasis will be on improving the effectiveness of existing structures rather than on reorganisation, but then go on to say that you will commission a major review of local service delivery that is to be as radical and innovative as necessary. It may be difficult to get radical service delivery without a bit of reorganisation along the way.

Cyhoeddus gyfle i'w ystyried yn fanwl iawn, gofynnaf am sicrwydd y byddwn yn monitro effeithiolrwydd y modd y mae gwasanaethau'n cael eu darparu i bobl yn ein cymunedau.

Sue Essex: Mae gennych gymunedau yn eich etholaeth, ac wrth ymateb i Nick soniais am y modd y gallem gynnal arolygon hollgynhwysol cyffredinol ledled Cymru. Fodd bynnag, o ran canolbwyntio'n arbennig ar wella gwasanaethau a cheisio cael newid go iawn, rhaid inni feddwl sut yr ydym am gynnwys y cymunedau hynny a rhoi llais iddynt yn natblygiad y rhaglen. Rhaid inni wedyn fod yn barod i wrando ar eu profiadau. Nid oes gennyf atebion hud, ond rhaid i lywodraeth leol a'r Llywodraeth ganolog fod yn well am wrando ar yr hyn sydd gan bobl i'w ddweud am eu profiad o wasanaethau, a'i glywed. Gall yr Aelodau chwarae rhan wirioneddol yn hynny.

O ran sut yr ydym yn monitro hyn ar raddfa ehangach, mae gennym dargedau gwerth am arian, a bydd rhaid archwilio hyn yn eithaf manwl, drwy'r sectorau a chennym ninnau, er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud y symudiadau hynny, nid ar draul y cyhoedd, ond gyda'r cyhoedd. Un o'r gofynion allweddol fydd newid disgwyliadau'r cyhoedd. Mewn sawl ardal, nid yw pobl wedi arfer cael gwasanaethau o'r radd flaenaf ac nid ydynt yn gofyn amdanynt. Rhaid codi disgwyliadau a dweud wrth y bobl hynny fod ganddynt hwythau hefyd hawliau. Dyma lle y bydd y safonau craidd yn gymorth, wrth danlinellu'r hyn y mae gan bobl hawl i'w ddisgwyl.

Jonathan Morgan: Hoffwn fynd yn ôl at rywffaint o'r jargon a'r derminoleg a ddefnyddir yn y ddogfen ac yn y datganiad a ryddhawyd gennych heddiw. Cyfeiriwch yn y ddogfen at gyfuno a symleiddio gwasanaethau cyhoeddus. Fodd bynnag, mae ychydig o wrth-ddweud pan ddywedwch y bydd y pwyslais ar wella effeithiolrwydd strwythurau sy'n bod eisoes yn hytrach nag ar ad-drefnu, ond yna yr ydych yn dweud y byddwch yn comisiynu adolygiad mawr o'r modd y mae gwasanaethau lleol yn cael eu darparu, adolygiad a fydd mor radicalaidd ac arloesol ag y bydd angen iddo fod. Gall fod yn anodd darparu gwasanaethau mewn modd

radicalaidd heb ychydig o ad-drefnu yn ogystal.

The statement refers to this so-called radical thinking, and notes that you

Cyfeiria'r datganiad at y meddylfryd radicalaidd honedig hwn, gan nodi y byddwch

'will be undertaking a review of local service delivery within the parameters of existing local accountability arrangements.'

yn cynnal adolygiad o'r modd y mae gwasanaethau lleol yn cael eu darparu o fewn paramedrau'r trefniadau atebolrwydd lleol sy'n bod eisoes.

Can you give me a few examples of the sort of service delivery, whether that is in terms of education or health, that you think needs to be rearranged or put into a more democratic context? I am curious as to whether you foresee that local authorities, being the most local democratically accountable bodies that we have in Wales, will have a greater and fuller involvement in delivering health services, for example. I know that some colleagues in local government are quite keen to have more aspects of health service delivery—and I mean the health service in a broad context—transferred to local government.

A allwch roi ychydig o enghreifftiau imi o'r math o ddarpariaeth o ran gwasanaethau, boed hynny'n ymwneud ag addysg neu iechyd, y credwch fod angen ei had-drefnu neu ei gosod mewn cyd-destun mwy democrataidd? Yr wyf yn awyddus i wybod a ydych yn rhagweld y caiff yr awdurdodau lleol, sef y cyrff atebol democrataidd mwyaf lleol sydd gennym yng Nghymru, fwy o ran, a rhan lawnach, mewn darparu gwasanaethau iechyd, er enghraifft. Gwn fod rhai cydweithwyr mewn llywodraeth leol yn eithaf awyddus i weld trosglwyddo rhagor o agweddau ar ddarpariaeth y gwasanaeth iechyd—a'r gwasanaeth iechyd mewn cyd-destun eang yr wyf yn ei olygu—i lywodraeth leol.

Sue Essex: I will not go into the terminology and jargon. As I explained to Nick, it may not mean everything to everyone, but it means something to some people.

Sue Essex: Nid wyf am drafod y derminoleg a'r jargon. Fel yr eglurais i Nick, efallai nad yw'n golygu popeth i bawb, ond mae'n golygu rhywbeth i rai pobl.

The thrust of this is saying to people that we are trying to move away from patterns of delivery that do not meet the levels of performance that we require. You are then moving on to something that is quite radical, particularly for some organisations and local authorities, which, following local government reorganisation, were set up as autonomous bodies and tried to work within their own patch and do all the jobs that they had to do. That has proved quite difficult. Therefore, we are looking for arrangements whereby local authorities and others can work together to ensure that they get proper service delivery areas. An obvious example is what is happening now in the Heads of the Valleys. Arrangements across local authority areas are being considered where there are similarities between communities and there are problems in meeting performance

Byrdwn hyn yw dweud wrth bobl ein bod yn ceisio symud i ffwrdd oddi wrth batrymau darparu nad ydynt yn cyrraedd y lefelau perfformiad sydd yn ofynnol gennym. Yr ydych wedyn yn symud ymlaen at rywbeth sydd yn eithaf radicalaidd, yn enwedig i rai sefydliadau ac awdurdodau lleol, a sefydlwyd fel cyrff ymreolaethol ar ôl ad-drefnu llywodraeth leol ac a geisiodd weithio o fewn eu cylch eu hunain a gwneud popeth yr oedd yn rhaid iddynt ei wneud. Mae hynny wedi bod yn eithaf anodd. Felly, yr ydym yn edrych am drefniadau a fydd yn caniatáu i awdurdodau lleol ac eraill gydweithio i sicrhau eu bod yn cael meysydd darparu gwasanaethau priodol. Un enghraifft amlwg yw'r hyn sydd yn digwydd yn awr ym Mlaenau'r Cymoedd. Ystyrir trefniadau ar draws ardaloedd awdurdodau lleol lle y ceir tebygrwydd rhwng cymunedau a phroblemau

standards, because authorities cannot get the staff. There is also the issue of spreading the money too thinly. Therefore, there are some innovative solutions out there: from having one chief officer who operates for the area to having a consortium of authorities that come together to provide certain services. Those are the kind of solutions that we are considering. That is the idea of the commission—to see what can be done to facilitate that.

Before coming to the Assembly, I did a lot of research work on joint working. It is good in efficiency terms; it delivers the goods and is good value for money. However, you must be careful that the accountability lines work, and that they go back to the people on the ground so that those people do not feel that decisions are being made from a distance and that their locally elected representatives are not involved. We need to be careful in that regard, but I am optimistic that we can move to some of those arrangements. One reason why I am optimistic is that people have been coming to us, as I have said, with ideas across organisations, asking ‘What if we work together in this way?’

In terms of health services and local authorities, there are many good examples of services being shared and budgets being pooled. I do not know whether or not there is an issue of moving responsibility across, but we should keep an open mind on everything. That is the point. The services must come first, and then the structures and arrangements have to be fit for purpose. That is how we need to look at all this.

Datganiad ar Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i Adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon ar gyfraniad y Celfyddydau a Chwaraeon at Adfywio Cymunedol

Statement on the Welsh Assembly Government's response to the Culture, Welsh Language and Sport Committee's Report on the Contribution of Arts and Sports to Community Regeneration

The Minister for Culture, Welsh Language and Sport (Alun Pugh): There is no doubt that arts and sport play a vital role in regenerating deprived communities. Communities are at the heart of Assembly Government strategies for culture and sport.

wrth geisio cyrraedd safonau perfformiad, am na all awdurdodau gael y staff. Mae problem hefyd o ran gwasgaru'r arian yn rhy denau. Felly, mae rhai atebion arloesol ar gael: o benodi un prif swyddog sy'n gweithredu dros yr ardal i gael consortiwm o awdurdodau sy'n dod ynghyd i ddarparu rhai gwasanaethau. Hynny yw'r math o atebion yr ydym yn eu hystyried. Hynny yw syniad y comisiwn—gweld beth y gellir ei wneud i hwyluso hynny.

Cyn dod i'r Cynulliad, gwneuthum lawer o waith ymchwil ar weithio ar y cyd. Mae'n dda o ran effeithlonrwydd; mae'n cyflawni'r gwaith ac yn rhoi gwerth da am arian. Fodd bynnag, rhaid gofalu bod y llinellau atebolrwydd yn gweithio, a'u bod yn mynd yn ôl at y bobl ar lawr gwlad fel na fydd y bobl hynny'n teimlo bod penderfyniadau'n cael eu gwneud o bellter ac nad yw eu cynrychiolwyr etholedig yn lleol yn cael rhan ynddynt. Mae angen bod yn ofalus yn hynny o beth, ond yr wyf yn ffyddiog y gallwn symud tuag at rai o'r trefniadau hynny. Un rheswm pam yr wyf yn ffyddiog yw bod pobl wedi bod yn dod atom, fel y dywedais, gyda syniadau ar draws sefydliadau, gan ofyn ‘Beth petaem yn cydweithio fel hyn?’

O ran y gwasanaethau iechyd a'r awdurdodau lleol, mae sawl enghraifft dda o rannu gwasanaethau a chronni cyllidebau. Ni wn a oes cwestiwn ynglŷn â symud cyfrifoldeb ar draws, ond dylem ddal i fod â meddwl agored ynghylch popeth. Hynny yw'r pwynt. Rhaid i'r gwasanaethau ddod yn gyntaf, ac wedyn rhaid i'r strwythurau a'r trefniadau fod yn addas i'r diben. Dyna sut y mae gofyn inni edrych ar hyn i gyd.

Y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon (Alun Pugh): Nid oes dim amheuaeth nad yw'r celfyddydau a chwaraeon yn chwarae rhan allweddol yn adfywiad cymunedau difreintiedig. Mae cymunedau yn ganolog i strategaethau

My sport strategy, 'Climbing Higher', is now moving forward and the new culture board will advise me on the development of a new culture strategy for Wales, following the success of 'Creative Future'. Therefore, the review of the Culture, Welsh Language and Sport Committee of the role of arts and sport in community regeneration, which has been so ably led by Rosemary Butler, is timely. The review sets out to consider the links between arts, sports and community regeneration policies and how local arts and sport projects can contribute to community regeneration.

The Cabinet statement on the committee's report was published last week. I was very pleased to accept the report's recommendations. There is not enough time this afternoon to go through them all in detail, but it is very encouraging that so many synergies already exist. I am sure that my colleague, the Minister for Social Justice and Regeneration, would reinforce that.

I will briefly mention some of the key features of the Government response. First, I will ensure that community regeneration is firmly embedded in the new cultural policy of the Assembly Government and builds on the foundations laid down in 'Climbing Higher'. The major increase in our investment in sport, more than doubling to £24 million by 2007-08, is complemented by significant community investment in the arts. That is in sharp contrast to the stagnation of a decade ago.

Our arts council provides over £1 million annually in revenue funding to community arts organisations, but that is only the tip of the iceberg. This revenue, and additional lottery funding, specifically targeted at community arts, is complemented by major capital investment. Nearly £1 million is going to Valleys Kids for instance, and there are grants for children and young people, the youth theatre work of the Sherman, and the outreach and community work of companies such as the Welsh National Opera and

Laura Anne Jones: As a member of the Culture, Welsh Language and Sport Committee, I welcome this report on the contribution of arts and sports to community regeneration. What capital money is available to help build new facilities throughout Wales to help people access arts and sports? What are you doing to ensure that disabled people throughout Wales have the same opportunities and access to arts and sports as everybody else in their communities? I ask that because I have recently been contacted by a trustee of the Wales Council for the Blind who has encountered great difficulty in obtaining financial support for his group

chwalu'r hen goel nad yw celfyddyd fodern a chyfoes yn boblogaidd. Ceir gwobr Dylan Thomas hefyd, a werthfawrogir yn aruthrol, yr wyf yn siŵr, gan awduron ifanc ledled y byd sydd yn ysgrifennu yn y Saesneg. Mae llawer o waith ar y gweill, ond ni ddylem byth orffwys ar ein bri.

Leighton Andrews: A ydych yn cytuno mai un enghraifft ragorol o ymgysylltu â'r gymuned yw cynllun Opera Cenedlaethol Cymru sydd yn gweithio gyda phlant ysgol ar berfformiadau, y gwelaf un ohonynt yn Theatr Park and Dare ddydd Iau? A wyddoch, Weinidog, fod rhai anawsterau wedi codi'n awr ynglŷn ag ymestyn Theatr Park and Dare o ganlyniad i'r ffaith bod y cyngor bwrdeistref sirol blaenorol yn Rhondda Cynon Taf a reolid gan Blaid Cymru wedi methu â rhoi dyraniadau sylweddol yn ei gyllidebau? A fydddech yn barod i gwrdd ag arweinydd cyngor Rhondda Cynon Taf neu aelodau eraill o'r cabinet er mwyn ystyried y cynllun?

Alun Pugh: Byddwn yn sicr yn barod i drafod gyda chi ac arweinwyr gwleidyddol Rhondda Cynon Taf y materion sydd yn ymwneud â Theatr Park and Dare. Adeilad yn Nhreorci ydyw sydd yn hoff gan lawer, a chan mai un o feibion y Rhondda ydwyf, yr wyf yn gyfarwydd ag ef. O ran Opera Cenedlaethol Cymru a gwaith allgymorth, gwn fod y miloedd lawer o bobl ifanc sydd yn cymryd rhan yn y gweithgarwch hwnnw yn gwerthfawrogi hynny'n fawr. Gwelais un o'r perfformiadau yn y Rhyl yn eithaf diweddar, ond, gwaetha'r modd, ni fyddaf yn gallu mynd i'r un yn Nhreorci.

Laura Anne Jones: Fel aelod o'r Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon, croesawaf yr adroddiad hwn ar gyfraniad y celfyddydau a chwaraeon at adfywio cymunedol. Pa arian cyfalaf sydd ar gael i helpu i adeiladu cyfleusterau newydd ledled Cymru i helpu pobl i gael mynediad at y celfyddydau a chwaraeon? Pa gamau yr ydych yn eu cymryd i sicrhau bod pobl anabl ledled Cymru'n cael yr un cyfleoedd a'r un mynediad at y celfyddydau a chwaraeon â phawb arall yn eu cymunedau? Gofynnaf hynny gan fod un o ymddiriedolwyr Cyngor Cymru i'r Deillion wedi cysylltu â mi'n ddiweddar ar ôl cael cryn drafferth wrth

sport and recreation projects. Could you look into that for me, Minister?

As it says in the report, funding for arts and sports is too complex. All relevant funding policies need to be more flexible so that local development and initiatives are not stifled. Will you assure us that you will get this done as soon as possible, as it is vital for a successful outcome? I would like to reiterate Eleanor Burnham's point that it is vital that money for arts and sports schemes goes to every area of Wales, including Monmouthshire, and not just the Communities First areas.

Alun Pugh: I think that you mentioned Monmouthshire five times in a couple of minutes. I am not sure why you have decided to concentrate on that area. With regard to the particular funding decision that you referred to, those decisions are made absolutely at arm's length by the Arts Council of Wales. I believe that that is a policy that you strongly support, but I will look at the matter.

There have been a number of capital funding injections, not least the last one of £1 million into supporting the further development of theatre in Wales. As for future funding allocations, I repeat what I said to the Liberal Democrats in that there is a very open and transparent budget process, and, as a full member of the Culture, Welsh Language and Sport Committee, you will have an opportunity to have an input to budgetary priorities, and again when it comes to the Chamber.

Ann Jones: I welcome your response, Minister. I know that you visited the Rhyl Adventure Playground Association and saw the excellent facilities and the work that it is doing with people in regenerating the council estate. Create is a new project set up by local people to display their talents in arts and crafts, sculpture, pottery and so on. The issue is about ensuring that these projects, including RAPA, which has been fighting for funding for a considerable period of time,

geisio cael cymorth ariannol ar gyfer ei brosiectau chwaraeon ac adloniant ar gyfer grwpiau. A allech ymchwilio i hynny ar fy rhan, Weinidog?

Fel y dywedir yn yr adroddiad, mae'r ariannu ar gyfer y celfyddydau a chwaraeon yn rhy gymhleth. Rhaid i'r holl bolisïau ariannu perthnasol fod yn fwy hyblyg fel na fydd mentrau a datblygiadau lleol yn cael eu llesteirio. A wnewch ein sicrhau y gwnewch hynny cyn gynted ag y bo modd, gan fod hynny'n hollbwysig i sicrhau llwyddiant? Carwn ailddatgan y pwynt a wnaeth Eleanor Burnham i'r perwyl ei bod yn hollbwysig bod arian ar gyfer cynlluniau'r celfyddydau a chwaraeon yn mynd i bob ardal yng Nghymru, gan gynnwys sir Fynwy, ac nid i ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf yn unig.

Alun Pugh: Credaf eich bod wedi cyfeirio at sir Fynwy bum gwaith mewn ychydig funudau. Nid wyf yn sicr pam yr ydych wedi penderfynu canolbwyntio ar yr ardal honno. Gyda golwg ar y penderfyniad penodol ar ariannu y cyfeiriasoch ato, gwneir y penderfyniadau hynny o hyd braich yn ddiamheuol gan Gyngor Celfyddydau Cymru. Credaf eich bod yn gadarn o blaid y polisi hwnnw, ond ystyriaif y mater.

Cafwyd sawl chwistrelliad o gyllid cyfalaf, a'r un olaf o £1 filiwn yn anad yr un arall, i hybu datblygiad pellach ar y theatr yng Nghymru. O ran dyraniadau cyllid ar gyfer y dyfodol, dywedaf eto yr hyn a ddywedais wrth y Democratiaid Rhyddfrydol, sef bod proses y gyllideb yn dryloyw ac yn agored iawn, a byddwch chi, fel aelod llawn o'r Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon, yn cael cyfle i gyfrannu at y drafodaeth ar flaenoriaethau cyllidebol, a thrachefn pan ddaw'r mater i'r Siambr.

Ann Jones: Croesawaf eich ymateb, Weinidog. Gwn eich bod wedi ymweld â Chymdeithas Maes Chwarae Antur y Rhyl ac wedi gweld y cyfleusterau rhagorol a'r gwaith y mae'n ei wneud gyda phobl wrth adfywio'r ystâd dai cyngor. Prosiect newydd yw Create a sefydlwyd gan bobl leol i arddangos eu doniau ym maes celf a chrefft, cerflunwaith, crochenwaith ac yn y blaen. Mae hyn yn ymwneud â sicrhau cyllid ar gyfer y prosiectau hyn, gan gynnwys RAPA,

receive funding—unfortunately, there are still people who do not see the benefit of sport and leisure facilities as part of community regeneration—and how a project such as Create can play a vital part in the Rhyl Going Forward project, on which I have been working very closely with your colleague the Minister for Economic Development and Transport. How can we pull all these strands together to ensure that community regeneration takes place?

Alun Pugh: You are right to draw attention to some of the excellent work going on in Rhyl. It was a pleasure to take up your invitation to see for myself how good that work is. There is no monopoly on talent or expertise in the arts held by people who happen to have been born into privileged circumstances, which is why we want to support everyone in Wales in developing their expertise in the arts. Communities First areas will certainly continue to be a priority for the Assembly Government.

sy'n ymdrechu i gael cyllid ers cryn amser—gwaetha'r modd, ceir rhai o hyd na welant y budd a geir o gyfleusterau chwaraeon a hamdden fel rhan o adfywio cymunedol—a'r rhan hollbwysig y gall prosiect fel Create ei chwarae ym mhrosiect Y Rhyl Ymlaen, yr wyf wedi bod yn cydweithio'n agos arno â'ch cyd-Weinidog, y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth. Sut y gallwn dynnu'r holl elfennau hynny at ei gilydd i sicrhau bod adfywio cymunedol yn digwydd?

Alun Pugh: Mae'n briodol ichi dynnu sylw at beth o'r gwaith rhagorol sydd yn mynd ymlaen yn y Rhyl. Yr oedd yn bleser cael derbyn eich gwahoddiad i weld dros of fy hun mor dda yw'r gwaith hwnnw. Nid y rhai a ddigwyddodd gael eu geni i amgylchiadau breintiedig yw'r unig rai sydd yn meddu ar ddoniau ac arbenigedd yn y celfyddydau, a dyna pam y dymunwn helpu pawb yng Nghymru i feithrin eu harbenigedd yn y celfyddydau. Bydd ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf yn sicr o barhau'n flaenoriaeth i Lywodraeth y Cynulliad.

Cynnig Cyfansawdd: Cymeradwyo Gorchmynion Composite Motion: Approval of Orders

Y Llywydd: O dan Reol Sefydlog Rhif 24.25, ni chynhelir dadl ar y cynnig hwn.

The Presiding Officer: Under Standing Order No. 24.25, this motion is not subject to debate.

The Business Minister (Jane Hutt): I propose that

Y Trefnydd (Jane Hutt): Cynigiaf fod

the National Assembly for Wales, acting under Standing Order No. 24.25:

Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu o dan Reol Sefydlog Rhif 24.25:

1. a) considers the report of the Legislation Committee laid in the Table Office and e-mailed to Assembly Members on 7 June 2005 on the draft Colours in Food (Amendment) (Wales) Regulations 2005; and

1. a) yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 7 Mehefin 2005 ar y rheoliadau drafft, Rheoliadau Lliwiau mewn Bwyd (Diwygio) (Cymru) 2005; a

b) approves that the draft Colours in Food (Amendment) (Wales) Regulations 2005 are made in accordance with:

b) yn cymeradwyo bod y rheoliadau drafft, Rheoliadau Lliwiau mewn Bwyd (Diwygio) (Cymru) 2005, yn cael eu gwneud yn unol ag:

i) the draft regulations laid in the Table Office on 24 May 2005; and

i) y rheoliadau drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Mai 2005; a

ii) the regulatory appraisal laid in the Table

ii) yr arfarniad rheoliadol a osodwyd yn y

Office on 26 May 2005; and

Swyddfa Gyflwyno ar 26 Mai 2005; a

2. a) considers the report of the Legislation Committee laid in the Table Office and e-mailed to Assembly Members on 7 June 2005 on the draft Contaminants in Food (Amendment) (Wales) Regulations 2005; and

2. a) yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 7 Mehefin 2005 ar y rheoliadau drafft, Rheoliadau Halogion Mewn Bwyd (Diwygio) (Cymru) 2005; a

b) approves that the draft Contaminants in Food (Amendment) (Wales) Regulations 2005 are made in accordance with:

b) yn cymeradwyo bod y rheoliadau drafft, Rheoliadau Halogion Mewn Bwyd (Diwygio) (Cymru) 2005, yn cael eu gwneud yn unol ag:

i) the draft regulations laid in the Table Office on 24 May 2005; and

i) y rheoliadau drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Mai 2005; a

ii) the regulatory appraisal laid in the Table Office on 26 May 2005; and

ii) yr arfarniad rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 26 Mai 2005; a

3. a) considers the report of the Legislation Committee laid in the Table Office and e-mailed to Assembly Members on 7 June 2005 on the draft National Health Service (Optical Charges and Payments) and (General Ophthalmic Services) (Amendment) (Wales) Regulations 2005; and

3. a) yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 7 Mehefin 2005 ar y rheoliadau drafft, Rheoliadau y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) a (Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2005; a

b) approves that the draft National Health Service (Optical Charges and Payments) and (General Ophthalmic Services) (Amendment) (Wales) Regulations 2005 are made in accordance with

b) yn cymeradwyo bod y rheoliadau drafft, Rheoliadau y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) a (Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2005, yn cael eu gwneud yn unol ag

i) the draft regulations laid in the Table Office on 17 May 2005; and

i) y rheoliadau drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Mai 2005; a

ii) the regulatory appraisal laid in the Table Office on 26 May 2005. (NDM2483)

ii) yr arfarniad rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 26 Mai 2005. (NDM2483)

*Cynnig (NDM2483): O blaid 46, Ymatal 0, Yn erbyn 0.
Motion (NDM2483): For 46, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Barrett, Lorraine
Bates, Mick
Black, Peter
Burnham, Eleanor
Butler, Rosemary
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davidson, Jane

Davies, Andrew
Davies, Glyn
Davies, Janet
Dunwoody-Kneafsey, Tamsin
Essex, Sue
Francis, Lisa
German, Michael
Graham, William
Griffiths, John
Gwyther, Christine
Hart, Edwina
Idris Jones, Denise
Isherwood, Mark
James, Irene
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Helen Mary
Jones, Ieuan Wyn
Jones, Laura Anne
Lewis, Huw
Lloyd, David
Lloyd, Val
Mewies, Sandy
Neagle, Lynne
Pugh, Alun
Randerson, Jenny
Ryder, Janet
Sargeant, Carl
Sinclair, Karen
Thomas, Catherine
Thomas, Gwenda
Thomas, Owen John
Thomas, Rhodri Glyn
Williams, Brynle
Williams, Kirsty

*Derbyniwyd y cynnig.
Motion carried.*

Dadl Plaid Leiafrifol (Plaid Cymru) Minority Party Debate (Plaid Cymru)

Ariannu Ysgolion School Funding

Y Llywydd: Yr wyf wedi dethol gwelliant 1 yn enw Kirsty Williams.

The Presiding Officer: I have selected amendment 1 in the name of Kirsty Williams.

Janet Ryder: I propose that

Janet Ryder: Cynigiau fod

the National Assembly, in accordance with Standing Order No. 8.1:

y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 8.1:

1. establishes a committee to advise the Assembly on school funding. The title of the committee shall be the Committee on School Funding. Membership of the committee shall comprise five Assembly Members, two from the Labour Party, and one each from Plaid

1. yn sefydlu pwyllgor i roi cyngor i'r Cynulliad ynghylch ariannu ysgolion. Teitl y pwyllgor fydd y Pwyllgor ar Ariannu Ysgolion. Bydd aelodaeth y pwyllgor yn cynnwys pum Aelod o'r Cynulliad, dau o'r Blaid Lafur, ac un yr un o Blaid Cymru, y

Cymru, the Conservative Party and the Liberal Democrat Party. The committee shall elect its own chair.

Blaid Geidwadol a Phlaid y Democratiaid Rhyddfrydol. Bydd y pwyllgor yn ethol ei gadeirydd ei hun.

2. The terms of reference for the Committee on School Funding will be to:

2. Cylch gorchwyl y Pwyllgor ar Ariannu Ysgolion fydd:

i) review all the sources of income (both revenue and capital), how so ever generated, which create maintained primary and secondary school funding (to include pupil referral units);

i) adolygu'r holl ffynonellau incwm (refeniw a chyfalaf), sut bynnag y'u crëir, sy'n darparu cyllid ar gyfer ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd a gynhelir (gan cynnwys unedau cyfeirio disgyblion);

ii) review the distribution of funding to maintained schools—both primary and secondary and pupil referral units;

ii) adolygu'r broses o ddyrannu cyllid i ysgolion a gynhelir—rhai cynradd ac uwchradd ac unedau cyfeirio disgyblion;

iii) consider the impact of National Assembly and UK Government initiatives on the funding of schools;

iii) ystyried effaith mentrau'r Cynulliad Cenedlaethol a Llywodraeth y DU ar ariannu ysgolion;

iv) make recommendations to the National Assembly on the simplification and clarification of this system.

iv) cyflwyno argymhellion i'r Cynulliad Cenedlaethol ar symleiddio ac egluro'r system hon.

3. The committee shall report to the National Assembly no later than 12 months after the date of its first meeting.

3. Rhaid i'r pwyllgor gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad Cenedlaethol heb fod yn hwyrach na 12 mis ar ôl dyddiad ei gyfarfod cyntaf.

4. The committee shall cease to exist by 14 June 2006. (NDM2482)

4. Ni fydd y pwyllgor yn bodoli ar ôl 14 Mehefin 2006. (NDM2482)

The prime purpose of the motion is to bring a far greater degree of clarity to the system by which schools in Wales are funded. Our aim, to use a phrase in common use by many education professionals today, is to help to lift the funding fog that shrouds in mystery so much of the funding system for schools in Wales. By establishing a cross-party committee to investigate the funding of schools, it is our hope that we can find out and agree on how much money is filtering down to schools as a result of the many different initiatives and sources of income that flow to them from Westminster, the Assembly, and local government.

Prif bwrpas y cynnig hwn yw dwyn mwy o lawer o eglurder i'r system ar gyfer ariannu ysgolion yng Nghymru. Ein hamcan, a defnyddio ymadrodd a ddefnyddir yn aml gan lawer o weithwyr addysg proffesiynol heddiw, yw helpu i ddileu'r dryswch ynghylch ariannu sydd yn amharu cymaint ar y system ariannu ar gyfer ysgolion yng Nghymru. Drwy sefydlu pwyllgor trawsbleidiol i ymchwilio i'r dull o ariannu ysgolion, gobeithiwn y bydd modd inni ddarganfod—a chytuno ynghylch—faint o arian sydd yn cyrraedd ysgolion o ganlyniad i'r nifer fawr o fentrau a ffynonellau incwm gwahanol sydd yn dod i'w rhan gan San Steffan, y Cynulliad, a Llywodraeth leol.

4.10 p.m.

The proposal is not so much about different policy initiatives or particular amounts of money for education announced by the Government, because every political party

Nid yw'r cynnig yn ymwneud llawer â gwahanol fentrau polisi neu symiau penodol o arian ar gyfer addysg a gyhoeddir gan y Llywodraeth, gan y bydd gan bob plaid

will have its own different ideas on those. It is more about being able to follow the different pots of Government funding to the chalkface, and evaluating, therefore, whether the policy is being effectively delivered. The proposal will allow for far more effective scrutiny of Government education policy, and I hope that all parties would agree that that would be in the best interests of a healthy democracy.

Currently, there is no mechanism within the National Assembly that can be used to effectively scrutinise school funding. There is nowhere where we can examine the effect that the multiplicity of different Government initiatives has on the funding of individual schools. The revenue support grant is the source of a large proportion of a school's budget in Wales, yet scrutiny of that grant from the Assembly to local authorities falls to the Local Government and Public Services Committee. However, that committee does not look at individual budget lines such as the one for education.

Lorraine Barrett: Thank you for giving way, Janet. Could you tell me what this proposed committee would be able to do that the Education and Lifelong Learning Committee could not do if it undertook a full and frank review spanning, say, a whole year?

Janet Ryder: You have not been part of the Education and Lifelong Learning Committee's discussions, so I will explain that, and you will see. As I said, the Local Government and Public Services Committee does not look at the revenue grants because it is not part of its remit. The Education and Lifelong Learning Committee can look at pots of money from special grants, but cannot monitor the effects of those grants on an individual school or look at the overall make-up of a school's budget because that is not part of its remit. Every time that it has been raised, that is how the Minister repeatedly responds.

Leighton Andrews: You say that you want this proposed committee to get down and look at individual school budgets. Are you suggesting that the committee should usurp

wleidyddol ei syniadau ei hun am hynny. Mae'n ymwneud mwy â gallu dilyn trywydd yr arian o wahanol goffrau'r Llywodraeth i'r ysgolion, a gwerthuso, drwy hynny, a yw'r polisi'n cael ei gyflwyno'n effeithiol. Bydd y cynnig yn caniatáu llawer mwy o graffu effeithiol ar bolisi addysg y Llywodraeth, a gobeithiaf y bydd yr holl bleidiau'n cytuno y byddai hynny'n llesol er mwyn democratiaeth iach.

Ar hyn o bryd, nid oes dim mecanwaith yn y Cynulliad Cenedlaethol y gellir ei ddefnyddio'n effeithiol i graffu ar ariannu ar gyfer ysgolion. Nid oes unman lle y gallwn astudio effaith gwahanol fentrau gan y Llywodraeth ar ariannu ysgolion unigol. Y grant cynnal refeniw yw ffynhonnell cyfran fawr o gyllideb ysgol yng Nghymru, ac eto mae'r cyfrifoldeb dros graffu ar y grant hwnnw a roddir gan y Cynulliad i awdurdodau lleol yn perthyn i'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus. Er hynny, nid yw'r pwyllgor hwnnw'n ystyried llinellau cyllideb unigol megis yr un ar gyfer addysg.

Lorraine Barrett: Diolch i chi am ildio, Janet. A allwch ddweud wrthyf beth y byddai'r pwyllgor arfaethedig hwn yn gallu ei wneud na allai'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes ei wneud pe cynhaliai adolygiad llawn ac agored dros flwyddyn gyfan, dyweder?

Janet Ryder: Nid ydych wedi bod yn rhan o drafodaethau'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes, felly esboniaf hynny, ac fe welwch. Fel y dywedais, nid yw'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus yn ystyried y grantiau refeniw gan nad yw hynny'n rhan o'i gylch gwaith. Gall y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes ystyried symiau penodol o grantiau arbennig, ond ni all fonitro effeithiau'r grantiau hynny ar ysgol unigol neu edrych ar bob elfen sydd yng nghyllideb yr ysgol gan nad yw hynny'n rhan o'i gylch gwaith. Bob tro y mae hynny wedi cael ei godi, dyna sut y mae'r Gweinidog yn ymateb dro ar ôl tro.

Leighton Andrews: Yr ydych yn dweud eich bod am i'r pwyllgor arfaethedig fynd ati i ystyried cyllidebau ysgolion unigol. A ydych yn awgrymu y dylai'r pwyllgor ddwyn rôl yr

the role of local authorities?

Rhodri Glyn Thomas: She did not say that.

Leighton Andrews: She said that she wants this committee to look at individual schools' budgets. Surely, that is a matter for local authorities to determine.

Janet Ryder: Yes, the amount that goes to local schools from local authorities is local government's duty. This committee is no threat to local government, but it is rather a help as it will bring clarity as regards the pots of money.

Regardless of which party they represent, it must surely be the concern of every single Member to be honest and open with parents, teachers and governors, and to say, 'We appreciate that you cannot see how this money is getting to your school, and we want to make it clear for you'. If the Labour Party wants to turn its back on that, it must justify that stance to schools and governors.

Jeff Cuthbert *rose*—

Janet Ryder: I am sorry, Jeff, but I will continue for a little while.

The Finance Minister has stated in Plenary that she is not prepared to go to the Education and Lifelong Learning Committee to discuss school funding. While this situation persists, effective scrutiny is left in limbo. If neither of these two committees can effectively monitor the effect of Government initiatives on an individual school's budget, then it is Plaid Cymru's view that we must create a committee that can.

The funding of schools is a very complex matter. Local government delivers funding from its standard spending assessment, which is raised from the revenue support grant, non-domestic rates, council tax, capital grants that go from basic credit approvals to general capital funding, and, in the recent past, the private finance initiative. The Assembly delivers in many ways, such as through

awdurdodau lleol?

Rhodri Glyn Thomas: Ni ddywedodd hynny.

Leighton Andrews: Dywedodd ei bod yn dymuno i'r pwyllgor hwn edrych ar gyllidebau ysgolion unigol. Mater i'w benderfynu gan awdurdodau lleol yw hynny, yn sicr.

Janet Ryder: Ie, dyletswydd llywodraeth leol yw penderfynu ar y swm a aiff i ysgolion lleol oddi wrth awdurdodau lleol. Nid yw'r pwyllgor hwn yn fygythiad i lywodraeth leol o gwbl, ond yn gymorth yn hytrach gan y bydd yn dod ag eglurder o ran y ffynonellau ariannol.

Ni waeth pa blaid y mae'n ei chynrychioli, mae'n sicr yn bwysig i bob Aelod fod yn onest ac yn agored wrth siarad â rhieni, athrawon a llywodraethwyr, a dweud, 'Sylweddolwn na allwch weld sut y mae'r arian hwn yn cyrraedd eich ysgol, ac yr ydym am egluro hynny i chi'. Os yw'r Blaid Lafur yn dymuno troi ei chefn ar hynny, rhaid iddi gyfiawnhau ei safbwynt i'r ysgolion a'r llywodraethwyr.

Jeff Cuthbert *a gododd*—

Janet Ryder: Mae'n ddrwg gennyf, Jeff, ond af yn fy mlaen am ychydig.

Mae'r Gweinidog Cyllid wedi dweud yn y Cyfarfod Llawn nad yw'n barod i fynd i'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes i drafod ariannu ysgolion. Tra pery'r sefyllfa hon, mae'n sefyllfa bur anfodddhaol o ran craffu effeithiol. Os na all y naill na'r llall o'r pwyllgorau hyn fonitro'n effeithiol yr effaith a gaiff mentrau'r Llywodraeth ar gyllideb ysgol unigol, barn Plaid Cymru yw bod rhaid inni greu pwyllgor a all wneud hynny.

Mae ariannu ysgolion yn fater cymhleth iawn. Mae llywodraeth leol yn rhoi arian o'i hasesiad gwariant safonol, a godir o'r grant cynnal refeniw, trethi annomestig, y dreth gyngor, grantiau cyfalaf sydd yn amrywio o gymeradwyaeth credyd sylfaenol i gyllid cyfalaf cyffredinol, ac, yn ddiweddar, y fenter cyllid preifat. Mae'r Cynulliad yn darparu arian mewn llawer dull, drwy

section 88B special grants, the better schools fund, school buildings improvement grants and capital grants. Sixth forms are funded by ELWa, yet any variance in that budget line affects the finances of the whole school, not just the sixth form. More money still arrives from Westminster to pay our teachers.

One of the central questions that the proposed committee could address is how much of the funding allocation to a particular initiative reaches the school. Currently, for example, if the Minister puts £x million into the 14-19 learning pathways, there is no audit trail and no way of determining the effect of that money in a defined school or group of schools.

The way that information is recorded by LEAs differs widely from authority to authority. There is no consistency and making comparisons is difficult, if not impossible, in many circumstances. A commonly asked question by parents and teachers is: why does the simple per-capita amount spent vary so much, even between neighbouring local authorities and similar schools?

In England, schools receive a greater degree of funding directly from central Government. It is therefore much easier to identify a particular funding system, helped by consistent reporting. In Wales, teachers, headteachers, unions such as the NUT, SHA, the NAHT, and even the WLGA—hardly the Government's most fervent opponent—warn of budget deficiencies and tell us that they cannot find the amounts of money that are coming into Welsh schools. If the professionals cannot find the money, how can the Government be sure that its policies are being adequately funded and successfully delivered?

Jeff Cuthbert: Perhaps you would let us know whether any of the teaching unions have declared their support for this proposal.

grantiau arbennig adran 88B, er enghraifft, y gronfa ysgolion gwell, grantiau gwella adeiladau ysgolion a grantiau cyfalaf. Ariennir y chweched dosbarth gan ELWa, ac eto, bydd unrhyw newid yn y llinell gyllideb honno'n effeithio ar gyllid yr ysgol gyfan, ac nid y chweched dosbarth yn unig. Ceir mwy o arian wedyn oddi wrth San Steffan i dalu i'n hathrawon.

Un o'r cwestiynau hollbwysig y gallai'r pwyllgor arfaethedig ymdrin ag ef yw pa faint o'r arian a ddyrennir i fenter benodol sydd yn cyrraedd yr ysgol. Ar hyn o bryd, er enghraifft, os yw'r Gweinidog yn rhoi £x miliwn at lwybrau dysgu 14-19, nid oes dim trywydd archwilio na dim modd canfod effaith yr arian hwnnw ar ysgol neu grŵp o ysgolion penodol.

Mae cryn wahaniaeth yn y modd y mae gwahanol awdurdodau addysg lleol yn cofnodi gwybodaeth. Nid oes dim cysondeb ac mae cymharu yn anodd, os nad yn amhosibl, mewn sawl sefyllfa. Un cwestiwn sy'n cael ei ofyn yn aml ran rieni ac athrawon yw: pam y mae'r swm y pen sy'n cael ei wario yn amrywio cymaint, hyd yn oed rhwng awdurdodau lleol cyfagos ac ysgolion tebyg?

Yn Lloegr, mae ysgolion yn cael mwy o gyllid yn uniongyrchol gan Lywodraeth ganolog. Mae felly'n llawer haws gwybod pa un yw'r system gyllido neilltuol, a hynny'n cael ei helpu gan adrodd cyson. Yng Nghymru, mae athrawon, penaethiaid, undebau fel Undeb Cenedlaethol yr Athrawon, Cymdeithas y Prifathrawon Uwchradd, Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon, a hyd yn oed Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru—prin y gellid dweud ei bod yn un o wrthwynebwyr mwyaf tanbaid y Llywodraeth—yn rhybuddio ynghylch diffygion yn y gyllideb ac yn dweud wrthym na fedrant ddod o hyd i'r arian sy'n dod i ysgolion Cymru. Os nad yw'r bobl broffesiynol yn gallu dod o hyd i'r arian, sut y gall y Llywodraeth fod yn sicr bod ei pholisiau yn cael eu hariannu'n ddigonol a'u cyflwyno'n llwyddiannus?

Jeff Cuthbert: Efallai y gallech roi gwybod inni a ydyw unrhyw un o'r undebau'r athrawon wedi datgan eu cefnogaeth i'r

Will you explain why, just a short while ago, you and the other opposition parties were not prepared to wait for the publication of the Rees commission report on the funding of higher education and student support—an evidence-based report—yet now you want to form another committee to do the work of the Education and Lifelong Learning Committee to conduct a review? Where is the logic in that? How can we have any confidence that you will wait for the outcome of an evidence-based review?

Janet Ryder: Sorry, Jeff, but it is pretty obvious that Labour will turn its back on what schools are crying out for. You can give any excuse that you like, but you need to make it clear to schools how their funding is getting through to them. You can squirm as much as you like, Jeff, but you cannot get away from it.

It is no wonder that the present confusing situation is causing mounting frustration. LEAs and local government officers are heard to complain of the confusion that persists in the gap between policy and delivery. Every year, there is an outcry by professionals, parents and governors about how much money schools in Wales are getting.

The proposed school funding committee will be able to look at all aspects of school funding and all matters that impinge on it, unlike any other committee in the Assembly. That would include, for example, ELWa, the workload agreement money, and restructuring money. Plaid Cymru will support the Liberal Democrats' amendment, because, although Plaid Cymru feels that there are issues that we would like the committee to consider, we do not want to tie it down into detail at this early stage. However, we will support the amendment.

Kirsty Williams: Do you agree that the potential subjects that the committee could look at are precisely the reason why the headteacher of Gwernyfed High School has e-mailed me on behalf of all secondary headteachers in Powys to outline their

cynnig hwn. A wnewch egluro pam, ychydig yn ôl, nad oeddech chi a'r gwrthbleidiau eraill yn barod i aros nes i adroddiad comisiwn Rees ar gyllido addysg uwch a chymorth i fyfyrwyr—adroddiad yn seiliedig ar dystiolaeth—gael ei gyhoeddi, ac eto, erbyn hyn mae arnoch eisiau sefydlu pwyllgor arall i wneud gwaith y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes a chynnal adolygiad? Pa resymeg sydd yn hynny? Sut y gallwn fod yn ffyddiog y byddwch yn aros am ganlyniad unrhyw adolygiad sy'n seiliedig ar dystiolaeth?

Janet Ryder: Mae'n flin gennyf, Jeff, ond mae'n eithaf amlwg y bydd Llafur yn troi ei chefn ar yr hyn y mae ysgolion yn crefu amdano. Gallwch wneud unrhyw esgus a fynnoch, ond rhaid ichi ei gwneud yn glir i ysgolion sut y maent yn cael eu cyllid. Cewch wingo faint a fynnoch, Jeff, ond ni allwch ddianc rhag hynny.

Nid yw'n syndod bod y sefyllfa ddryslyd bresennol yn achosi rhwystredigaeth gynyddol. Clywir awdurdodau addysg lleol a swyddogion llywodraeth leol yn cwyno am y dryswch sy'n parhau ynghylch y bwllch rhwng y polisi a'r hyn sy'n cael ei gyflawni. Bob blwyddyn, mae gwaedd o brotest i'w chlywed gan staff proffesiynol, rhieni a llywodraethwyr ynghylch faint o arian y mae ysgolion yng Nghymru yn ei dderbyn.

Bydd y pwyllgor cyllido ysgolion arfaethedig yn gallu edrych ar bob agwedd ar gyllid ysgolion a phob mater sy'n lled-gysylltiedig ag ef, yn wahanol i unrhyw bwyllgor arall yn y Cynulliad. Byddai hynny'n cynnwys, er enghraifft, ELWa, arian cytundebau llwyth gwaith, ac arian ailstrwythuro. Bydd Plaid Cymru yn cefnogi gwelliant y Democratiaid Rhyddfrydol, oherwydd, er bod Plaid Cymru yn teimlo bod rhai materion y byddem yn hoffi i'r pwyllgor eu hystyried, nid ydym am gyfyngu arno drwy drafod manylion ar y dechrau fel hyn. Er hynny, byddwn yn cefnogi'r gwelliant.

Kirsty Williams: A ydych yn cytuno mai'r pynciau y gallai'r pwyllgor efallai edrych arnynt yw'r union reswm pam y derbyniais e-bost gan bennaeth Ysgol Uwchradd Gwernyfed ar ran yr holl benaethiaid uwchradd ym Mhowys i ddangos eu

support for this initiative, and asking for people to vote for the establishment of this committee? SHA in Powys is supporting this motion.

Janet Ryder: SHA, the NAHT and the NUT have all signalled their support. It is for every Assembly Member to vote according to their conscience and to then go back to justify their vote to their schools, parents and governors.

I stress that it should not be the purpose of the committee to usurp in any way the legitimate role of local authorities in determining the funding of schools in their areas according to their priorities. At the same time, it is important to note that local government itself often complains that Government initiatives in education are not always funded properly. The committee should be able to help them to clarify that situation.

Likewise, neither should the committee concern itself with the merit of particular initiatives from the Assembly or Westminster, as it is not the level of funding per se that the committee should be concerned about. The simple brief of the committee will be to review the source and distribution of funding for schools, to review the impact of policy initiatives on that funding, and to come back with recommendations to the National Assembly on the simplification and clarification of the system. The funding of schools might be a highly complex matter, but it need not remain in an impenetrable fog. I ask the Assembly to support the proposal.

Y Llywydd: Rhaid imi nodi bod terfyn amser ar gyfer y ddadl hon o bum munud ar gyfer yr Aelod sy'n cynnig y gwelliant a thri munud bob un i'r siaradwyr eraill, ac eithrio'r Gweinidog sydd ag wyth munud, ac arweinydd yr wrthblaid sydd â phum munud i gloi.

4.20 p.m.

Peter Black: I propose amendment 1 in the name of Kirsty Williams. Insert as an

cefnogaeth i'r fenter hon, ac yn gofyn i bobl bleidleisio dros sefydlu'r pwyllgor hwn? Mae Cymdeithas y Prifathrawon Uwchradd ym Mhowys o blaid y cynnig hwn.

Janet Ryder: Mae Cymdeithas y Prifathrawon Uwchradd, Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon ac Undeb Cenedlaethol yr Athrawon i gyd wedi datgan eu cefnogaeth. Mater i bob un o Aelodau'r Cynulliad yw pleidleisio yn ôl ei gydwbod cyn mynd yn ôl i gyfiawnhau eu pleidlais i'w hysgolion, y rhieni a'r llywodraethwyr.

Pwysleisiaf nad pwrpas y pwyllgor fydd trawsfeddiannu mewn modd yn y byd rôl gyfreithlon yr awdurdodau lleol wrth bennu cyllid i ysgolion yn eu hardaloedd, yn ôl eu blaenoriaethau. Ar yr un pryd, mae'n bwysig nodi bod llywodraeth leol ei hun yn aml yn cwyno nad yw mentrau addysg y Llywodraeth yn cael eu cyllido'n iawn bob tro. Dylai'r pwyllgor fod yn gallu eu helpu i wneud y sefyllfa honno'n glir.

Yr un modd, ni ddylai'r pwyllgor ychwaith ymboeni am ragoriaethau cynlluniau penodol gan y Cynulliad neu San Steffan, gan nad lefel y cyllid ynddo'i hun y dylai'r pwyllgor fod yn ymwneud ag ef. Briff syml y pwyllgor fydd adolygu ffynhonnell a dosbarthiad y cyllid i ysgolion, adolygu effaith unrhyw fentrau polisïau ar y cyllid hwnnw, a dod yn ôl at y Cynulliad Cenedlaethol gydag argymhellion i symleiddio ac egluro'r system yn well. Efallai'n wir fod cyllido ysgolion yn fater cymhleth dros ben, ond nid oes rhaid iddo fod yn ddirgelwch annatrys. Gofynnaf i'r Cynulliad gefnogi'r cynnig.

The Presiding Officer: I must note that there is a time limit for this debate of five minutes for the Member proposing the amendment and three minutes for each of the other speakers, except the Minister, who has eight minutes, and the leader of the opposition who has five minutes in which to conclude.

Peter Black: Cynigiaf welliant 1 yn enw Kirsty Williams. Ychwanegu is-bwynt ar

additional sub-point at the end of point 2:

investigate and review the practicalities of introducing a three-year funding regime for schools.

The Welsh Liberal Democrats support this motion for the simple reason that it proposes a huge task that has been required by and called for by many around Wales. It is a detailed and time-consuming task, and it is clear from the programme that the Education and Lifelong Learning Committee has to pursue that, as a committee, we do not have the time to carry it out. We meet every three weeks, and we are carrying out a detailed review of special educational needs, which will continue for some considerable time. We have fitted in a review of school transport, and we also have responsibilities for scrutinising the Minister and the ASPBs as well as a range of other issues. There is simply not enough time available to us to carry out the detailed and time-consuming work that the review proposed in this motion would require.

The precedent has been set as the Assembly established a special committee to examine the matter of smoking in public places. That function could have been carried out by the Health and Social Services Committee, but I think that the Government took the view that that committee did not have the time, but that the issue was of overwhelming importance, and so it thought that the Assembly should look at it as a separate issue. We take the same view with regard to the issue of school funding.

A range of issues needs to be considered. However, it should be made quite clear—and I think that Janet said this in her speech—that this is not a proposal to look at hypothecating money to local authorities and telling them that they should have a certain amount of money to spend on schools and on schools alone. This is about having clarity in the system so that we, as Assembly Members, teachers, parents, teaching unions and all the other stakeholders understand where the money is going, why it is allocated in a particular way, and why some schools, particularly in north-east Wales, are getting

ddiwedd pwynt 2:

ymchwilio i ymarferoldeb cyflwyno cynllun cyllido tair blynedd ar gyfer ysgolion a'i adolygu.

Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru o blaid y cynnig hwn am y rheswm syml ei fod yn cynnig cyflawni tasg anferthol y mae llawer drwy Gymru yn galw amdani yn daer. Mae'n dasg fanwl a bydd yn cymryd amser maith, ac mae'n glir yn ôl y rhaglen y mae'n rhaid i'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes ei dilyn nad oes ganddo, fel pwyllgor, amser i'w chyflawni. Yr ydym yn cyfarfod bob tair wythnos, ac yr ydym wrthi'n cyflawni adolygiad manwl o anghenion addysgol arbennig a fydd yn parhau am gryn amser eto. Daethom o hyd i amser i gynnal adolygiad o drafnidiaeth ysgol, ac yr ydym hefyd yn gyfrifol am graffu ar y Gweinidog a'r Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad, yn ogystal ag amrediad o faterion eraill. Yn syml, nid oes gennym ddigon o amser i wneud y gwaith manwl a llafurus y byddai'r adolygiad a gynigir yn y cynnig hwn yn gofyn amdano.

Mae'r cysail wedi'i osod gan fod y Cynulliad wedi sefydlu pwyllgor arbennig i ymchwilio i ysmegu mewn mannau cyhoeddus. Gallai'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol fod wedi gwneud y gwaith hwnnw, ond credaf fod y Llywodraeth wedi sylweddoli nad oedd gan y pwyllgor amser i wneud hynny, ond bod y mater yn un hynod bwysig, gan farnu felly y dylai'r Cynulliad edrych arno fel mater ar wahân. Yr ydym ni o'r un farn ynghylch ariannu ysgolion.

Mae angen ystyried ystod o faterion. Er hynny, dylid ei gwneud yn eithaf clir—a chredaf fod Janet wedi dweud hyn yn ei haraith—nad cynnig yw hwn i edrych ar glustnodi arian i awdurdodau lleol a dweud wrthynt fod ganddynt hyn a hyn o gyllid i'w wario ar ysgolion, ac ar ysgolion yn unig. Mater ydyw o sicrhau bod eglurder yn y system fel ein bod ni, fel Aelodau'r Cynulliad, athrawon, rhieni, undebau'r athrawon a'r holl randdeiliaid eraill yn deall i ba le y mae'r arian yn mynd, pam y caiff ei ddyrranu mewn dull neilltuol, a pham y mae rhai ysgolion, yn enwedig yn y Gogledd-

less money than schools on the other side of the border or elsewhere in Wales. There is a huge disparity in funding in Wales, sometimes as much as £1,000 per pupil, particularly when comparing schools in Ceredigion, Wrexham or Flintshire.

Rhodri Glyn Thomas: Do you accept that any Assembly Member who has spoken to headteachers finds that they tell them, unanimously, that no-one understands the funding system? There is no transparency, no-one understands how the system works, and no headteacher knows exactly how much money he or she will get. They always find that cheques arrive between January and March, they do not know why they have come, only that they have to spend them before the end of the financial year. That creates mayhem for schools' funding. It seems that it is only the Minister and Labour AMs who are not aware of this problem.

Peter Black: Actually, I do not think that things are quite that bad. Wearing another hat, I have sat on the school budget forum in Swansea, and I know that headteachers there understand the system well. However, headteachers have many questions about the system, about why certain decisions are taken, and why people say one thing in the Assembly and another at local education authority level. That needs to be clarified.

Headteachers have also said to me on several occasions that they have concerns about the system for paying special grants to schools, particularly where there is uncertainty as to whether those grants will be continued from year to year. Special grants must, therefore, be looked at as part of the proposed committee's role.

With regard to the teachers' workload agreement, I do not think that people fully understand where the money is going or whether it is being properly funded. Also, Janet has already mentioned ELWa.

I am running out of time, but there are many other points that I want to mention. However,

ddwyrain, yn cael llai o arian nag ysgolion yr ochr arall i'r ffin neu mewn rhannau eraill o Gymru. Mae gwahaniaeth aruthrol o ran y cyllid yng Nghymru, cymaint â £1,000 y disgybl weithiau, yn enwedig wrth gymharu ysgolion yng Ngheredigion, Wrecsam neu sir y Fflint.

Rhodri Glyn Thomas: A ydych yn derbyn bod unrhyw Aelod Cynulliad sydd wedi siarad â phenaethiaid yn cael gwybod gan bob un, yn unfrydol, nad oes neb yn deall y system gyllido? Nid oes dim tryloywder, nid oes neb yn deall sut y mae'r system yn gweithio, ac ni wŷr dim un pennaeth faint yn union o arian y bydd yn ei dderbyn. Mae'r sicciau o hyd yn cyrraedd rhwng Ionawr a Mawrth, ni wyddant pam y maent wedi dod, dim ond bod yn rhaid iddynt eu gwario cyn diwedd y flwyddyn ariannol. Mae hynny'n creu anhrefn hollol yng nghyllid ysgolion. Ymddengys mai dim ond y Gweinidog ac Aelodau Cynulliad Llafur sydd heb fod yn ymwybodol o'r broblem hon.

Peter Black: A dweud y gwir, nid wyf yn credu bod pethau cynddrwg â hynny. Wrth wisgo het arall, yr wyf wedi eistedd ar y fforwm cyllideb ysgolion yn Abertawe, a gwn fod y penaethiaid yno yn deall y system yn bur dda. Er hynny, mae gan benaethiaid nifer o gwestiynau am y system, ac maent am wybod pam y gwneir rhai penderfyniadau, a pham y mae pobl yn dweud un peth yn y Cynulliad a rhywbeth arall ar lefel yr awdurdod addysg lleol. Mae angen gwneud hynny'n glir.

Mae penaethiaid hefyd wedi dweud wrthyf droeon eu bod yn bryderus ynghylch y system o dalu grantiau arbennig i ysgolion, yn enwedig lle y mae ansicrwydd ynghylch a fydd y grantiau hynny yn parhau o'r naill flwyddyn i'r llall. Felly, dylai edrych ar grantiau arbennig fod yn rhan o rôl y pwyllgor arfaethedig.

O ran y cytundeb llwyth gwaith athrawon, nid wyf yn meddwl bod pobl yn llwyr ddeall i ba le y mae'r arian yn mynd, nac a ydyw'n cael ei ariannu'n iawn. Hefyd, mae Janet wedi sôn am ELWa eisoes.

Mae fy amser yn prinhau, ac mae amryw o bwyntiau eraill yr wyf am sôn amdanynt.

I want to discuss the three-year funding regime proposed in our amendment. We think it particularly important for this to be looked at. Many teachers and headteachers talk to me about the impact of falling pupil rolls on their budgets, and the fact that they are notified at the last minute of what money will be made available to them for the coming year. They have to make decisions often without being able to plan ahead over a certain period.

I know that the Minister has given a commitment that she will do that in due course, but it needs to be part of this investigation, not only because we need to understand the role of the three-year budget in terms of the funding issue, but also because we need to reinforce the need for three-year budgets to be brought in as quickly as possible to give headteachers the certainty of funding, and the ability to plan their funding over a period of time to avoid the sudden decisions that are caused by changes in the budget, which can lead to teacher redundancies. You cannot plan a redundancy, but you can plan the way in which you manage your staff to try to avoid redundancies if you have certainty of funding over a period of time. It is vital that we look at that issue, and it is important for us to do so.

I am using up my extra minutes because of the intervention—

The Presiding Officer: It was an extra 30 seconds.

Peter Black: I support the motion, and I hope that you will also support the amendments.

Elin Jones: Mae cynnal cyfundrefn addysg gynradd ac uwchradd o ansawdd uchel yn flaenoriaeth wleidyddol yng Ngheredigion. Mae'r cyngor sir yn penderfynu o flwyddyn i flwyddyn fod addysg yn flaenoriaeth iddynt o ran gwariant, ac mae canlyniadau TGAU a Lefel A yng Ngheredigion crystal os nad gwell nag unrhyw le yn y Deyrnas Gyfunol. Y cyngor sir yw'r awdurdod perthnasol i wneud penderfyniadau fel hyn, a dylai cyngorau gael ein cefnogaeth o ran hynny.

Fodd bynnag, hoffwn drafod y cynllun cyllido tair blynedd a gynigir yn ein gwelliant. Credwn ei bod yn arbennig o bwysig edrych ar hyn. Mae llawer o athrawon a phenaethiaid yn dweud wrthyf am effaith y gostyngiad yn nifer y disgyblion ar eu cyllidebau, a'r ffaith mai ar y funud olaf y rhoddir gwybod iddynt faint o arian a fydd ar gael iddynt y flwyddyn ddilynol. Rhaid iddynt wneud penderfyniadau yn aml heb allu cynllunio ymlaen llaw dros gyfnod penodol.

Gwn fod y Gweinidog wedi rhoi ymrwymiad y bydd yn gwneud hynny maes o law, ond mae angen i'r mater fod yn rhan o'r ymchwiliad hwn, nid yn unig am fod angen inni ddeall rôl y gyllideb tair blynedd yng nghyswllt cyllido, ond hefyd am fod angen pwysleisio bod yn rhaid cyflwyno cyllidebau tair blynedd mor fuan â phosibl i roi sicrwydd o ran cyllid i benaethiaid, ac fel y medrant drefnu eu cyllid dros gyfnod o amser i osgoi gorfod gwneud penderfyniadau sydyn o ganlyniad i newidiadau yn y gyllideb, sy'n gallu arwain at ddiswyddo athrawon. Ni allwch gynllunio diswyddiad, ond gallwch drefnu sut y byddwch yn rheoli eich staff i osgoi diswyddo os oes gennych sicrwydd ynghylch cyllid dros gyfnod penodol. Mae'n hanfodol ein bod yn edrych ar hyn, ac mae'n bwysig ein bod yn gwneud hynny.

Mae fy munudau ychwanegol oherwydd yr ymyriad yn prysur fynd—

Y Llywydd: 30 eiliad ychwanegol oedd gennych.

Peter Black: Cefnogaf y cynnig, a gobeithio y byddwch hefyd yn cefnogi'r gwelliannau.

Elin Jones: Supporting a high-quality primary and secondary education system is a political priority in Ceredigion. The county council decides from year to year that education is a spending priority for it, and the GCSE and A-level results in Ceredigion are as good if not better than those in any other authority across the United Kingdom. The county council is the relevant authority to make such decisions, and councils should get our support in that regard.

Yn hytrach, mae gweithredoedd Llywodraeth y Cynulliad yn tanseilio awdurdod a gallu'r cyngor sir i redeg cyfundrefn addysg leol. Er enghraifft, bydd Llywodraeth y Cynulliad yn cyflwyno polisi addysg newydd, a'r awdurdod addysg sy'n cael y dasg o'i weithredu, ond, yn aml, nid yw'n derbyn digon o arian i gyflawni'r polisi hwnnw yn llawn, sy'n rhoi pwysau ar ariannu craidd ysgolion. Mae polisi llwyth gwaith athrawon yn enghraifft amlwg o hyn.

Yng Ngheredigion, mae costau uwch i ddarparu addysg. Mae cost trafniadaeth yn gost amlwg, ond mae costau sy'n gysylltiedig â niferoedd bach o ddisgyblion mewn ardal wledig, a'r gost o redeg addysg yn y Gymraeg a'r Saesneg o fewn yr un ysgolion, ac o fewn yr un dosbarthiadau yn aml. Stori o lwyddiant yw addysg yng Ngheredigion, ond, yn ystod y misoedd diwethaf, bûm yn mynd o amgylch ysgolion cynradd ac uwchradd yn f'etholaeth, ac mae neges y prifathrawon a'r athrawon yn glir: mae'r cyfuniad o gostau cynyddol, gweithredu polisiau newydd ac ansicrwydd ariannol yn achosi pryder mawr i'r ysgolion.

Ymwelais ag Ysgol Uwchradd Tregaron yn ddiweddar—ysgol naturiol ddwyieithog yn cynnig opsiwn drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg ym mhob pwnc i'r disgyblion. Mae'r niferoedd yn fach yn yr ysgol, ac felly mae'r gost o ddarparu'r addysg yn uchel fesul pen. Mae safon yr addysg yn yr ysgol yn ardderchog, ac mae'n adlewyrchu demograffeg a dyhead y gymuned leol, ond mae'r ansicrwydd ariannol, yn enwedig o ran ariannu dosbarth chwech a'r cynllun llwyth gwaith, yn ei gwneud hi'n anodd dros ben i gorff llywodraethol ysgol fel Tregaron gynllunio ar gyfer y dyfodol. Mae hynny'n golygu gwneud newidiadau parhaus i'r nifer o staff y maent yn medru eu cyflogi.

Yng Ngheredigion, mae'r neges gan ysgolion yn glir: maent eisiau ariannu digonol ar gyfer addysg ddwyieithog mewn cyd-destun gwledig. Mae eisiau tryloywder ynghylch yr arian sy'n gysylltiedig â'r polisiau newydd a gyflwynir gan y Llywodraeth, ac mae angen dull ariannu sy'n galluogi ysgolion i gynllunio dros dair blynedd.

To the contrary, the actions of the Assembly Government undermine the authority and ability of a county council to manage a local education system. For example, the Assembly Government introduces new education policies, but it is the local education authority that has the task of implementing it, yet, often, it does not receive adequate funding to implement the policy in full, which places pressure on the core funding of schools. An obvious example is the teachers' workload agreement.

In Ceredigion, delivering education costs more. The cost of transport is obvious, but there are also costs related to the small number of pupils in rural areas, and the cost of providing both Welsh and English-medium education in the same schools, sometimes in the same classroom. Education in Ceredigion is a success story by and large, but, during recent months, I have visited primary and secondary schools in my constituency, and the message from headteachers and teachers is clear: the combination of increased costs, implementing new policies and financial insecurity is causing grave concerns in schools.

I recently visited Ysgol Uwchradd Tregaron—a naturally bilingual school which offers Welsh or English-medium options to pupils in every subject. The small number of pupils attending the school means that the cost of providing education is high per head. The standard of education in the school is excellent, and reflects the local community's demographics and aspirations. However, financial insecurity, particularly with regard to funding the sixth form and the workload agreement, makes it extremely difficult for the governing body of a school such as Tregaron to plan for the future. This means having to make incessant changes to the number of staff that can be employed.

Therefore, the message from schools in Ceredigion is clear: they want sufficient funding to provide a bilingual education in a rural setting. They need transparency about the funding that is related to new policies introduced by the Government, and they also need a funding mechanism that enables schools to plan over three years.

Denise Idris Jones: There is no justification for establishing a new committee to look at school funding when members of the opposition—and I have been there with them—have had ample opportunity to make proposals to review school funding at the Education and Lifelong Learning Committee, or to raise the issue at the local government partnership council.

Janet Ryder: Every time we made that proposal, would you not agree that it was rejected by the Minister? I know that you were not present, but I can inform you that there have been local government partnerships where the local government side has been shouting at the Minister for Education and Lifelong Learning about her underfunding of education initiatives. This committee would help to clarify that issue.

Denise Idris Jones: As far as I am aware, Janet, you can always put your proposals to the committee Chair so that they could be put on the agenda for future discussion. I will carry on.

4.30 p.m.

The proper place for those discussions is in the Education and Lifelong Learning Committee, and it is also the right place to make those representations. I am not aware of any teaching unions or local authorities that support the move for such a committee. They prefer to negotiate with Government on such important issues. The Labour Welsh Assembly Government is committed to a policy of funding schools properly, through the local government revenue settlement, and to working in partnership and agreement with local authorities, schools and teachers to deliver the best education for our children across Wales, as set out in 'The Learning Country'.

Since 1997 and the re-election of a Labour Government twice, school funding has risen by a third, and we will continue to raise the share of national income devoted to education and work with local government to reform the way in which money is spent. Work is already under way—and Peter mentioned this—to consider the possibilities

Denise Idris Jones: Nid oes dim cyfiawnhad dros sefydlu pwyllgor newydd i edrych ar gyllid ysgolion pan fo aelodau o'r wrthblaid—ac yr wyf wedi bod yno gyda hwy—wedi cael digon o gyfle i wneud cynigion i adolygu cyllid ysgolion yn y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes, neu i godi'r mater yn y cyngor partneriaeth llywodraeth leol.

Janet Ryder: Bob tro y cynigiwyd hynny gennym, oni chytunwch ei fod wedi'i wrthod gan y Gweinidog? Gwn nad oeddech yn bresennol, ond gallaf roi gwybod ichi fod partneriaethau llywodraeth lleol lle y mae ochr llywodraeth leol wedi bod yn gweiddi ar y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol oes ynghylch y diffyg cyllid ganddi i fentrau addysg. Byddai'r pwyllgor hwn yn helpu i wneud y mater hwnnw'n gliriach.

Denise Idris Jones: Hyd y gwn i, Janet, gallwch bob amser roi eich cynigion i Gadeirydd y pwyllgor fel y gallent gael eu rhoi ar yr agenda i'w trafod yn y dyfodol. Af yn fy mlaen.

Y lle iawn i'r trafodaethau hynny yw yn y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes, a'r fan honno yw'r lle iawn hefyd i gyflwyno'r sylwadau hynny. Ni wn am ddim un undeb athrawon nac awdurdod lleol sydd o blaid y cynnig i sefydlu pwyllgor o'r fath. Mae'n well ganddynt negodi gyda'r Llywodraeth ar faterion pwysig fel hyn. Mae Llywodraeth Lafur y Cynulliad yn ymrwymedig i bolisi o gyllido ysgolion yn iawn, drwy'r setliad refeniw i lywodraeth leol, ac i weithio mewn partneriaeth a chytundeb gydag awdurdodau lleol, ysgolion ac athrawon i ddarparu'r addysg orau i'n plant ledled Cymru, fel y nodir yn 'Y Wlad sy'n Dysgu'.

Ers 1997 ac ailethol Llywodraeth Lafur ddwywaith, mae cyllid ysgolion wedi cynyddu draean, a byddwn yn parhau i gynyddu'r gyfran o incwm cenedlaethol a ddyrennir i addysg, ac i weithio gyda llywodraeth leol i ddiwygio'r modd y mae'r arian yn cael ei wario. Mae'r gwaith eisoes ar y gweill—a soniodd Peter am hyn—i ystyried

for three-year settlements. These would then be subject to full consultation, with draft regulations for scrutiny by the Education and Lifelong Learning Committee, and would be subject to Plenary approval before implementation.

As a Labour Government, we are making the biggest ever investment in early years education. We are reducing educational inequality and, through the Welsh baccalaureate and the 14-19 learning pathways, we are ensuring that everyone has the opportunity to thrive and prosper, and to make the most of their talents, be they academic or skills based.

Helen Mary Jones: It seems that it is only the Minister and members of her party who do not believe that there is a problem and a funding fog. I have not spoken to any educational professionals anywhere in mid and west Wales—and what Kirsty Williams has just said about Powys supports this—who are satisfied with the current situation. We all know how pressured the time is on any subject committee—we, on this side of the Chamber, would like the subject committees to meet more often—and the reality is that the Education and Lifelong Learning Committee does not have sufficient time to undertake this level of detailed work, as we have just heard from the Chair of that committee. There are also the issues that Janet Ryder pointed out about the interface between the Local Government and Public Services Committee and the Education and Lifelong Learning Committee when it comes to the overall settlement.

I am interested as to why the Government is so resistant to this proposal, because it is clear that schools are facing pressures, and funding patterns are complex. Take the workload funding: it was clearly identified as being intended for schools—we will leave to one side whether it was sufficient or not. It was distributed to the local education authorities via the local government settlement—there is no problem with that—and the LEAs then allocate the funding to schools in different ways, according to their local priorities. However, there is no funding from ELWa for the sixth-form element of the

y posibilrwydd o ran setliadau tair blynedd. Byddem yn ymgynghori'n llawn ar y rhain, ac yn cyflwyno rheoliadau drafft i'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes graffu arnynt, ac yn eu rhoi gerbron Cyfarfod Llawn i'w cymeradwyo cyn eu gweithredu.

Fel Llywodraeth Lafur, yr ydym yn gwneud y buddsoddiad mwyaf erioed mewn addysg blynyddoedd cynnar. Yr ydym yn lleihau anghydraddoldeb addysgol a, thrwy fagloriaeth Cymru a'r llwybrau dysgu 14-19, yn sicrhau bod gan bawb y cyfle i ffynnu a llwyddo, ac i fanteisio i'r eithaf ar eu doniau, boed y rheini'n academiaidd neu'n seiliedig ar sgiliau.

Helen Mary Jones: Ymddengys mai'r Gweinidog ac aelodau ei phlaid yw'r unig rai sy'n credu nad oes problem a dryswch o ran cyllido. Nid wyf wedi siarad gyda dim un swyddog addysg proffesiynol yn unman yng nghanolbarth a gorllewin Cymru—ac mae'r hyn y mae Kirsty Williams newydd ei ddweud am Bowys yn cefnogi hyn—sy'n fodlon ar y sefyllfa fel y mae. Gwyddom i gyd faint o bwysau amser sydd ar unrhyw bwyllgor pwnc—byddem ni, ar yr ochr hon i'r Siambr, yn hoffi gweld y pwyllgorau pwnc yn cyfarfod yn amlach—a'r realiti yw nad oes gan y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes ddigon o amser i wneud gwaith manwl fel hyn, fel yr ydym newydd glywed gan Gadeirydd y pwyllgor hwnnw. Mae cwestiynau eraill hefyd y tynnodd Janet Ryder atynt ynglŷn â'r rhyng-gysylltiad rhwng y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes pan ddaw'n fater o drafod y setliad cyffredinol.

Tybed pam y mae'r Llywodraeth gymaint yn erbyn y cynnig hwn, oherwydd y mae'n glir bod ysgolion yn wynebu pwysau, a bod y patrymau cyllido yn gymhleth? Dyna'r cyllid llwyth gwaith: nodwyd yn glir mai arian a fwriedid ar gyfer ysgolion oedd hwn—ni soniwn am y tro ynghylch a ydoedd yn ddigon ai peidio. Fe'i dosbarthwyd i'r awdurdodau addysg lleol drwy'r setliad llywodraeth leol—nid oes problem ynglŷn â hynny—ac yna, mae'r AAL yn dyrannu'r cyllid i ysgolion mewn gwahanol ffyrdd, yn ôl eu blaenoriaethau lleol. Fodd bynnag, nid oes dim cyllid gan ELWa ar gyfer elfen

workload implementation, so that has to be found from the rest of the schools' budgets. I may be missing something here, but that looks like a pretty damn complicated way of getting money from A to B, and it is no wonder, when you put together the rest of the funding streams, that there are problems. I would concur with what Peter Black said about this; the lack of stability in school funding can cause real problems.

I will give you an example that really matters to children and young people in my region. A medium-sized comprehensive school in Carmarthenshire, which serves a relatively poor area and which has done excellent work on inclusion knew that it was facing a dip of 28 in pupil numbers and planned for it. However, that is not all that it is facing this year. I will quote from the letter that the headteacher sent to me. I have his permission to do that, but it would be invidious to name the school. He says,

'the formula funding allocated to us by the LEA has been insufficient for us to run the school effectively since September. What has happened is that we are now expected to fund the full costs of upper pay scale progression for teachers—ours is an experienced, expensive staff—14-19 curriculum development',

and so on and so forth; I will not go through the whole list. He then identifies some of the additional costs that the school has to meet, including those relating to the service level agreement with the LEA. I referred this back to the LEA, which said that it has a problem but that it is doing its best and is trying to pass the money on. In the meantime, that school is slicing its music provision to the bone and faces the prospect of having to dismiss an experienced counsellor who has been helping to keep special needs children in the school. Please do not tell me that there is not a problem, because this experience is repeated all over the place. This about transparency. The headteacher feels that the LEA is responsible; the LEA thinks that the Government is responsible. All we are asking for is clarity.

chweched dosbarth y llwyth gwaith, fel bod yn rhaid dod o hyd i hynny o weddill cyllidebau'r ysgolion. Efallai fy mod yn methu gweld rhywbeth yn hyn i gyd, ond mae'n edrych fel ffordd go gymhleth o gael arian o A i B, ac felly nid yw'n syndod, pan fyddwch yn ystyried gweddill y ffrydiau cyllido, fod problemau. Byddwn yn cytuno â'r hyn y mae Peter Black wedi'i ddweud am hyn; gall diffyg sicrwydd ynghylch cyllid ysgol achosi problemau gwirioneddol.

Rhoddaf enghraifft ichi o'r hyn sy'n wirioneddol bwysig i blant a phobl ifanc yn fy ardal i. Yr oedd ysgol uwchradd o faint canolig yn sir Gaerfyrddin, sy'n gwasanaethu ardal gymharol dlawd ac sydd wedi gwneud gwaith rhagorol ym maes cynhwysiant, yn gwybod ei bod yn wynebu gostyngiad o 28 yn nifer y disgyblion, ac wedi trefnu ymlaen llaw ar gyfer hynny. Fodd bynnag, nid hynny yw'r cyfan y mae'n ei wynebu eleni. Dyfynnaf o'r llythyr a anfonodd y pennaeth ataf. Cefais ei ganiatâd i wneud hynny, ond byddai'n annheg enwi'r ysgol. Meddai,

nid yw'r cyllid drwy'r fformiwla sydd wedi'i ddyrannu inni gan yr AALL wedi bod yn ddigon i redeg yr ysgol yn effeithiol ers mis Medi. Yr hyn sydd wedi digwydd yw bod disgwyl inni bellach gyllido holl gostau cynyddu'r uwch raddfeydd cyflog ar gyfer datblygiad cwricwlwm 14-19 ein hathrawon—mae gennym staff profiadol a drud,

ac yn y blaen; nid af drwy'r rhestr gyfan. Mae'n mynd rhagddo i restru rhai o'r costau ychwanegol y mae'n rhaid i'r ysgol eu talu, gan gynnwys costau yng nghyswllt y cytundeb lefel gwasanaeth gyda'r AALL. Cyfeiriais y mater yn ôl at yr AALL, a ddywedodd fod problem yn bodoli ond ei fod yn gwneud ei orau ac yn ceisio trosglwyddo'r arian. Yn y cyfamser, mae'r ysgol hon yn torri ar ei darpariaeth o ran cerddoriaeth hyd at yr asgwrn ac yn wynebu'r posibilrwydd o orfod diswyddo cwnselydd profiadol sydd wedi bod yn helpu i gadw plant anghenion arbennig yn yr ysgol. Peidiwch da chi â dweud wrthyf nad oes problem, oherwydd y mae'r profiad hwn yn gyffredin ymhobman. Mater o dryloywder ydyw. Mae'r pennaeth yn teimlo mai'r AALL sy'n gyfrifol; mae'r AALL yn beio'r Llywodraeth. Y cyfan yr

ydyd yn gofyn amdano yw eglurder.

This particular headteacher is very keen on the idea of this committee and I know that many others are too. The problem is real. This proposed committee could bring clarity and transparency. It is certainly not, as others have said, about undermining local education authorities, nor is it about undermining the Government's right to govern; this is an opportunity for us to work co-operatively across parties to clarify a situation and solve a real problem. I wonder why the Government is so afraid of it, and I urge the Assembly to support the proposal.

William Graham: The Welsh Conservative group will support this motion and feels that the establishment of a committee would greatly enhance the understanding of all Assembly Members. If the Assembly fails to ensure the correct application of equitable policies with regard to primary education, the impact upon our communities will be greater than almost anything previously experienced, particularly for our rural and Welsh-speaking communities. The urgent need to review the funding and provision of primary education arises from the need to respond to demographic changes, which will eventually reach beyond the education portfolio.

The number of children being born in Wales peaked during the 1960s, with an average of 45,000 children being born each year. This has fallen to an average of 31,000 per year since 2000. These changes will impact upon secondary, further and higher education services in Wales. However, it is at nursery school, infant school and primary school level that we must begin to address the issues arising from these demographic changes. These schools are more than just bricks and mortar. They not only initiate the first steps on the road to lifelong learning and social integration, but are at the heart of every community, probably even more so in our rural areas.

The fall in primary pupil numbers is now being felt most acutely in Gwynedd, Powys, Ceredigion, Carmarthenshire and

Mae'r pennaeth arbennig hwn yn frwd iawn o blaid y pwyllgor hwn a gwn fod amryw o rai eraill hefyd. Mae'r broblem yn un wirioneddol. Gallai'r pwyllgor arfaethedig hwn gynnig eglurder a thryloywder. Nid mater, fel y mae eraill wedi dweud, o danseilio awdurdodau addysg lleol ydyw o gwbl, nac ychwaith o danseilio hawl y Llywodraeth i lywodraethu; mae hyn yn gyfle inni weithio gyda'n gilydd ar draws y pleidiau i wneud sefyllfa'n glir a datrys problem sy'n un real iawn. Tybed pam y mae ar y Llywodraeth gymaint o'i ofn, ac erfyniaf yn daer ar y Cynulliad gefnogi'r cynnig hwn.

William Graham: Bydd Grŵp Ceidwadwyr Cymru yn cefnogi'r cynnig hwn ac mae'n teimlo y byddai sefydlu pwyllgor yn gwella dealltwriaeth holl Aelodau'r Cynulliad yn fawr iawn. Os na fydd y Cynulliad yn llwyddo i sicrhau bod polisiau teg yn cael eu rhoi ar waith yn iawn yng nghyswllt addysg gynradd, bydd yr effaith ar ein cymunedau yn fwy na bron dim yr ydym wedi'i brofi o'r blaen, yn enwedig i'n cymunedau gwledig a Chymraeg eu hiaith. Cyfyd yr angen taer i adolygu'r broses o gyllido a darparu addysg gynradd o'r angen i ymateb i newidiadau demograffig, a bydd hyn yn y pen draw yn ymestyn y tu hwnt i'r portffolio addysg.

Cyrhaeddodd nifer y plant a anwyd yng Nghymru ei benllanw yn ystod y 1960au, gyda chyfartaledd o 45,000 o blant yn cael eu geni bob blwyddyn. Mae hyn wedi disgyn i gyfartaledd o 31,000 bob blwyddyn ers 2000. Bydd y newidiadau hyn yn effeithio ar wasanaethau addysg uwchradd, addysg bellach ac addysg uwch yng Nghymru. Er hynny, dylem ddechrau mynd i'r afael â'r problemau sy'n codi o'r newidiadau demograffig hyn yn ein hysgolion meithrin, babanod a chynradd. Nid brics a mortar yn unig yw'r ysgolion hyn. Nid yn unig y maent yn dysgu ein plant i gymryd eu camau cyntaf ar y ffordd i ddysgu gydol oes ac integreiddio cymdeithasol, ond maent hefyd wrth galon pob cymuned, i raddau mwy fyth yn ôl pob tebyg yn ein hardaloedd gwledig.

Mae'r gostyngiad mewn niferoedd yn yr ysgolion cynradd bellach yn cael ei deimlo waethaf yng Ngwynedd, Powys, Ceredigion,

Pembrokeshire, where there are 87 per cent of the schools in Wales with fewer than 25 pupils, and half of those with fewer than 100 pupils. We need to adopt an investigative approach to the educational needs of Wales. We want something that is flexible and not fixed upon a rigid model of educational provision. We need to encourage and support creative solutions to the educational needs of communities, and ensure that decisions are made after full and open consultations that clearly demonstrate efforts to address the concerns of communities. We must consider longer statutory consultation periods whenever the closure of a school is proposed.

We must also ensure that wider Assembly initiatives are not placed in jeopardy, especially those designed to protect rural communities, such as those providing affordable housing. The investment to provide these homes could be undermined if these communities do not have a local school. We need to establish a committee to advise the Assembly on all these issues and to establish the funding streams to sustain our education systems at every level and in every community.

Since 1997, 10 special schools have closed in Wales, despite the fact that the number of children with special educational needs has increased by 7 per cent. School standards and behaviour in the classroom are closely linked. Bad behaviour is often born of frustration. If children leave primary school unable to read, write or add up properly, they will find it hard to participate fully in class at secondary school. If bright pupils are not intellectually challenged in the classroom they are more likely to get bored and to cause trouble.

A lack of basic numeracy and literacy skills is a real problem. Today, a quarter of children still leave school unable to read properly. There is overwhelming evidence to demonstrate that traditional teaching methods are the most effective means of teaching children to read, write and add up. This proposal will help to identify an accurate response to an immediate problem.

sir Gaerfyrddin a sir Benfro, lle y mae 87 y cant o'r ysgolion yng Nghymru sydd â llai na 25 o ddisgyblion, a hanner y rhai sydd â llai na 100. Rhaid inni fabwysiadu dull ymchwiliol o ymdrin ag anghenion addysgol Cymru. Mae arnom eisiau rhywbeth sy'n hyblyg ac nad yw'n seiliedig ar fodel anhyblyg ar gyfer darparu addysg. Rhaid inni annog a chefnogi atebion creadigol i anghenion addysgol cymunedau, a sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud ar ôl ymgynghori'n llawn ac yn agored gan ddangos yn glir ein bod yn ymdrechu i ymateb i bryderon cymunedau. Rhaid inni ystyried cyfnodau ymgynghori statudol hwy bob tro y sonnir am gau ysgol.

Rhaid inni hefyd sicrhau nad yw mentrau ehangach gan y Cynulliad yn cael eu rhoi yn y fantol, yn enwedig rhai sydd wedi eu cynllunio i warchod cymunedau gwledig, megis rhai i ddarparu tai fforddiadwy. Gallai'r buddsoddiad i ddarparu'r tai hyn gael ei danseilio os nad oes gan y cymunedau hyn ysgol leol. Mae angen inni sefydlu pwyllgor i gynghori'r Cynulliad am yr holl faterion hyn, a sefydlu'r ffrydiau cyllido i gynnal ein systemau addysg ar bob lefel ac ym mhob cymuned.

Ers 1997, mae 10 o ysgolion arbennig wedi cau yng Nghymru, er gwaetha'r ffaith bod nifer y plant sydd ag anghenion addysgol arbennig wedi cynyddu 7 y cant. Mae cysylltiad clôs rhwng safonau ysgolion ac ymddygiad yn yr ystafell ddosbarth. Mae ymddygiad gwael yn aml yn digwydd o ganlyniad i rwystredigaeth. Os yw plant yn methu darllen, ysgrifennu nac adio'n iawn wrth adael yr ysgol gynradd, bydd yn anodd iddynt gyfranogi'n llawn yn y dosbarth mewn ysgol uwchradd. Os nad yw disgyblion galluog yn cael eu herio'n ddeallusol yn yr ystafell ddosbarth, maent yn fwy tebygol o ddiflasu a chreu helynt.

Mae diffyg sgiliau rhifedd a llythrennedd sylfaenol yn broblem wirioneddol. Heddiw, mae chwarter ein plant yn dal i adael yr ysgol heb allu darllen yn iawn. Mae hyn yn dystiolaeth ddiymwad mai dulliau dysgu traddodiadol yw'r rhai mwyaf effeithiol i ddysgu plant i ddarllen, ysgrifennu ac adio. Bydd y cynnig hwn yn gymorth i ganfod ateb cywir i broblem amlwg.

Alun Ffred Jones: Nid wyf o blaid sefydlu pwyllgorau yn ddiangen—bûm yn aelod o ormod o bwyllgorau diwerth lle cafwyd gormod o siarad. Fodd bynnag, credaf fod achos cryf dros sefydlu'r pwyllgor hwn. Siaradaf fel llywodraethwr ysgol, a bûm yn gadeirydd llywodraethwyr ac yn aelod o awdurdod lleol. Mae cymhlethdod y broses o ariannu ysgolion yn fater sy'n poeni athrawon, penathiaid a llywodraethwyr. Bûm yn siarad yn ddiweddar â phennaeth ysgol uwchradd oedd yn dweud bod nifer y dulliau o gyllido ysgolion uwchradd yn ei flino, a phan gollir un ohonynt, heb wybod pam, y mae'n taflu'r holl ysgol, yn enwedig yn achos ein hysgolion llai. Mae dylanwad posibl ELWa ar ysgolion uwchradd yn bygwth tansilio nid yn unig ddsbarthiadau chweched dosbarth, ond yr ysgol gyfan, gan fod gwariant ar y ddwy elfen mor integredig.

Mae lle i edrych yn fanwl ar sut y caiff ysgolion eu cyllido a sut y gellir gwneud y broses yn fwy eglur, ac mae achos cryf dros wneud hynny. Efallai na fydd yr atebion wrth fodd awdurdodau lleol, nac ysgolion hyd yn oed, bob amser. Yr wyf yn cydnabod bod problem o ran ysgolion bach iawn a'r ffaith y bydd niferoedd y disgyblion yn gostwng dros y blynyddoedd nesaf.

Irene James: You have talked about school funding. Which area of educational funding would you cut to finance this new committee? What would the committee do that is different from what the Education and Lifelong Learning Committee is doing?

Alun Ffred Jones: Ni chredaf y byddai'r gost o sefydlu'r pwyllgor yn anferthol, ac ni fyddai'n dod allan o'r gyllideb addysg mewn unrhyw ffordd.

4.40 p.m.

Mae'n rhaid i ni ystyried y materion hyn yn ddifrifol oherwydd y mae ysgolion llai, boed yn ysgolion cynradd neu uwchradd, yn ganolbwynt i'r gymuned. Nid oes pwynt siarad am ddatblygu cymunedol os ydym hefyd yn tansilio yr ysgolion hynny. Felly, mae achos cryf dros sefydlu pwyllgor i

Alun Ffred Jones: I am not in favour of establishing committees unnecessarily—I have been a member of too many pointless committees where there has been too much talking. However, there is a strong case for establishing this committee. I speak as a school governor, and I was a chair of governors and a member of a local authority. The complexity of the school funding process is an issue that concerns teachers, headteachers and governors. I spoke recently to a head of a secondary school who said that the number of methods of funding secondary schools was frustrating him, and that when one is lost, without your knowing why, it throws the whole school. That is particularly true for our smaller schools. The potential influence of ELWa on secondary schools threatens to undermine not only sixth-form provision, but the whole school, as funding for both elements is so interlinked.

There is scope and a strong case for considering in detail how schools are funded and how the process can be made more transparent. Perhaps local authorities, or even schools, will not always be pleased by the answers. I acknowledge that there is a problem in terms of very small schools and the fact that pupil numbers will decrease over the next few years.

Irene James: Yr ydych wedi sôn am gyllid ysgolion. Pa faes yng nghyswllt cyllid addysgol y byddech yn cwtogi arno i ariannu'r pwyllgor newydd hwn? Beth y gallai'r pwyllgor ei wneud sy'n wahanol i'r hyn y mae'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes yn ei wneud?

Alun Ffred Jones: I do not believe that the cost of establishing the committee would be huge, and it would not come out of the education budget in any way.

We must look at these issues seriously because smaller schools, whether primary or secondary schools, are a focus for the community. There is no point talking about community development if we are undermining those schools. Therefore, there is a strong case for establishing a committee

ystyried y ffynonellau ariannu a goblygiadau ariannol mentrau'r Llywodraeth.

Jeff Cuthbert: I thank Alun Ffred for taking an intervention.

The Presiding Officer: Order. Alun Ffred has finished his speech.

Jeff Cuthbert: In that case, I thank him for not taking it.

Mark Isherwood: Some Governments have straight-talking education Ministers, but this Welsh Assembly Government has Jane Davidson—the Minister for disappearing dosh. In pursuit of countless initiatives, strategies and gimmicks, she robs Peter to pay Paul, digging up the foundations of Welsh education as she builds her legacy on sand, and launching stealth policies with outcomes that are inevitable, but which are blamed on local authorities, front-line teaching professionals and quangos. Nowhere has this been more evident than in school funding.

The Minister states that in Wales we spend 6 per cent more on education and training than is spent in England, but research by the Secondary Heads Association Cymru has revealed a funding deficit of between £150 and £200 per pupil between England and Wales. In addition, the worst-funded primary schools in Wales, which are in Flintshire, receive £941 less per pupil than the best-funded primary schools in Wales. The worst-funded secondary schools in Wales, which are in Denbighshire, receive £696 less per pupil than the best-funded secondary schools in Wales and, overall, the worst-funded schools in Wales, again in Flintshire, receive £754 less to spend on each pupil than the best-funded schools in Wales.

The Flintshire Secondary Heads Association told the Minister that the Welsh Assembly Government has yet to address inadequate education funding through the revenue support grant despite the county providing a high percentage of the revenue support grant

to consider the funding streams and the financial implications of the Government's initiatives.

Jeff Cuthbert: Diolchaf i Alun Ffred am dderbyn yr ymyriad.

Y Llywydd: Trefn. Mae Alun Ffred wedi gorffen ei araith.

Jeff Cuthbert: Os felly, diolchaf iddo am beidio â'i dderbyn.

Mark Isherwood: Mae gan rai Llywodraethau Weinidogion addysg diflewyn-ar-dafod, ond mae gan y Llywodraeth hon Jane Davidson—y Gweinidog dros arian sy'n diflannu. Mewn ymdrech i gyflwyno mentrau, strategaethau a gimics di-ri, mae'n gwerthu'r fuwch i brynu'r tarw, ac yn turio o dan sylfeini addysg ein gwlad i godi ei chestyll tywod. Mae'n lansio polisïau llechwraidd gyda chanlyniadau sy'n anochel, ond gan roi'r bai am y rheini ar awdurdodau lleol, staff dysgu proffesiynol y rheng flaen, a chwangos. Ni welwyd hyn yn fwy amlwg yn unman nag ym maes ariannu ysgolion.

Mae'r Gweinidog yn dweud ein bod ni yng Nghymru yn gwario 6 y cant yn fwy ar addysg a hyfforddiant nag a wneir yn Lloegr, ond yn ôl ymchwil gan Gymdeithas Prifathrawon Uwchradd Cymru dangoswyd bod gwahaniaeth o rhwng £150 a £200 y disgybl yn y cyllid a ddarperir yng Nghymru o'i gymharu â Lloegr. Yn ogystal, mae'r ysgolion cynradd a gyllidir waethaf yng Nghymru, sef yn sir y Fflint, yn derbyn £941 yn llai y disgybl na'r ysgolion cynradd a gyllidir orau yn ein gwlad. Mae'r ysgolion uwchradd a gyllidir waethaf yng Nghymru, yn sir Ddinbych, yn derbyn £696 yn llai y disgybl na'r ysgolion uwchradd a gyllidir orau ac, yn gyffredinol, mae'r ysgolion a gyllidir waethaf yng Nghymru, eto yn sir y Fflint, yn derbyn £754 yn llai i'w wario ar bob disgybl na'r ysgolion a gyllidir orau yn ein gwlad.

Dywedodd Cymdeithas Prifathrawon Uwchradd sir y Fflint wrth y Gweinidog nad yw Llywodraeth y Cynulliad wedi rhoi sylw eto i gyllid addysgol annigonol drwy'r grant cynnal refeniw, er bod y sir yn rhoi cyfran uchel o'i grant cynnal refeniw i addysg.

for education. It states that future planning is impossible and current standards cannot be sustained given the cuts that schools now face. Both Flintshire and Wrexham headteachers have further highlighted their concerns that significant cuts in post-16 funding will put pressure on funding for 11 to 16-year-old pupils, push up class sizes in lower schools still further and reduce sixth-form options for students.

The Denbighshire Federation of Headteachers has now written to the Minister to express concerns that cash that should be bringing benefits to classrooms across Wales, is being diverted away from them. The federation is calling for this to be paid directly and quickly to Welsh schools, as happens in England. Failing that, the federation insists on a full explanation as to why schools in Wales are to be deprived of resources that are made readily available to schools in England.

Jeff Cuthbert: I have listened to you, Alun Ffred, and William Graham, and I cannot grasp why you feel that there is a need for a separate committee to consider this issue. It has been mentioned that we are all busy, and that will not change. What justification is there for this to be considered by a new committee, rather than under our existing structures?

Mark Isherwood: It is because every time that I have raised this issue in the Education and Lifelong Learning Committee, it has been dismissed in a way that is quite insulting and offensive, not only to me, but to the teaching professionals who have raised those concerns with me.

Commenting on the funding gap between English and Welsh schools at the Secondary Heads Association Cymru conference last December, Professor David Reynolds identified central grants issued directly to schools in England amounting to 11 per cent of funding. None of this additional money is spent on education in Wales. In the Education and Lifelong Learning Committee on 20 April 2005, I supported the call from the Secondary Heads Association Cymru for a

Mae'n dweud bod cynllunio ar gyfer y dyfodol yn amhosibl ac nad oes modd cynnal y safonau presennol oherwydd y toriadau a wynebir gan ysgolion. Mae penaethiaid sir y Fflint a Wrecsam hefyd wedi lleisio eu pryderon y bydd toriadau sylweddol yn y cyllid ôl-16 oed yn rhoi pwysau ar gyllid i ddisgyblion 11- 16 oed, yn cynyddu maint dosbarthiadau yn yr ysgolion isaf yn fwy fyth ac yn lleihau'r opsiynau yn y chweched dosbarth i fyfyrwyr.

Mae Ffederasiwn Penaethiaid sir Ddinbych bellach wedi ysgrifennu at y Gweinidog i fynegi eu pryder bod arian a ddylai fod yn dod â manteision i ddosbarthiadau ledled Cymru, yn cael ei roi at bethau eraill. Mae'r ffederasiwn yn galw am dalu'r arian yn uniongyrchol ac yn ddiymdroi i ysgolion Cymru, fel sy'n digwydd yn Lloegr. Os nad yw hynny'n digwydd, mae'r ffederasiwn yn mynnu derbyn esboniad llawn am y rheswm pam y bydd ysgolion Cymru yn cael eu hamddifadu o adnoddau sydd ar gael yn rhwydd i ysgolion yn Lloegr.

Jeff Cuthbert: Yr wyf wedi gwranddo arnoch, Alun Ffred, ac ar William Graham, ac ni allaf ddirnad pam y credwch fod angen pwyllgor ar wahân i ystyried y mater hwn. Soniwyd eisoes ein bod i gyd yn brysur, ac ni fydd hynny'n newid. Pa gyfiawnhad sydd dros gael pwyllgor newydd i ystyried hyn, yn lle'r strwythurau presennol?

Mark Isherwood: Am y rheswm bod y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes, bob tro yr wyf wedi codi'r mater hwn yno, wedi'i ddiystyru mewn modd sy'n eithaf gwrthun a sarhaus a dweud y gwir, nid yn unig i mi, ond i'r staff dysgu proffesiynol a gododd y mater hwn gyda mi.

Wrth sôn am y bwch cyllido rhwng ysgolion yng Nghymru ac yn Lloegr yng nghynhadledd Cymdeithas Penaethiaid Uwchradd Cymru fis Rhagfyr diwethaf, dywedodd yr Athro David Reynolds fod grantiau canolog yn cael eu rhoi'n uniongyrchol i ysgolion yn Lloegr, a bod hynny'n 11 y cant o'r cyllid. Nid oes dim o'r arian ychwanegol hwn yn cael ei wario ar addysg yng Nghymru. Yn y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes ar 20 Ebrill

commitment to funding levels comparable with those in England and for a genuine needs-led calculation of the funding needs of schools in Wales. However, in a characteristic non-response, the Minister instead introduced figures, which were presumably produced according to her terms of reference, which claimed that if London is excluded the funding gap shrinks to £23 per pupil. The Secondary Heads Association Cymru responded almost immediately by stating that Assembly Members had been misled, leading to my comments to the *Times Educational Supplement* that the Minister should consider her position.

The Secondary Heads Association Cymru also told me that, in comparison with England, the lack of spending freedom in Wales prevents local spending priorities from being addressed. It also said that the funding model in Wales does not recognise that the cost base for schools on both sides of the border is the same, adding that it wants to know where the consistent financial reporting promised by the Minister at their conference last December has got to, as they have not seen it. Meanwhile, the National Association of Head Teachers has contacted me to express its concern that so-called efficiency savings can only be effected through redundancies at school level—

The Presiding Officer: Order. You have allowed two interventions, and you have now had over four minutes.

The Minister for Education and Lifelong Learning (Jane Davidson): I have listened to the debate with interest; there is a level of confusion in relation to the issues. We have been trying to address a range of issues for some time, for example, those relating to transparency in funding, ensuring that funding goes to the right place and that people know where responsibility lies, and the issue of the establishment of the additional committee. No proposal regarding a review of school funding has been put before the Education and Lifelong Learning

2005, cefnogais alwad gan Gymdeithas Penaethiaid Uwchradd Cymru am ymrwymiad i lefelau cyllido sy'n debyg i'r rhai yn Lloegr ac am broses gyfrifo ddilys sy'n seiliedig ar yr anghenion i fesur anghenion cyllid ysgolion Cymru. Fodd bynnag, yn ei dull diymateb arferol, cyflwynodd y Gweinidog ffigurau yn lle hynny, a'r rheini, yr wyf yn tybio, wedi'u cynhyrchu'n unol â'i chylch gorchwyl hi. Yr oedd y rhain yn honni bod y bwch cyllido yn lleihau i £23 y disgybl wrth hepgor Llundain. Cafwyd ymateb yn syth bron gan Gymdeithas Penaethiaid Uwchradd Cymru yn dweud bod Aelodau'r Cynulliad wedi cael eu camarwain, ac arweiniodd hyn at fy sylwadau yn y *Times Educational Supplement* yn gofyn i'r Gweinidog ystyried ei sefyllfa.

Dywedodd Cymdeithas Penaethiaid Uwchradd Cymru wrthyf hefyd fod y diffyg rhyddid wrth wario yng Nghymru, o'i gymharu ag yn Lloegr, yn eu hatal rhag rhoi sylw i flaenoriaethau gwario lleol. Dywedodd hefyd nad yw'r model cyllido yng Nghymru yn cydnabod bod y sylfaen gostau i ysgolion bob ochr i'r ffin yr un fath, gan ychwanegu ei bod eisiau gwybod ymhle y mae'r adrodd ariannol cyson a addawyd gan y Gweinidog yn eu cynhadledd fis Rhagfyr y llynedd wedi mynd, gan nad ydynt wedi ei weld. Yn y cyfamser, mae Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon wedi cysylltu â mi i fynegi ei phryderon mai'r unig ffordd i sicrhau'r arbedion effeithlonrwydd honedig yw drwy ddiswyddiadau ar lefel ysgolion—

Y Llywydd: Trefn. Yr ydych wedi caniatáu dau ymyriad, ac yr ydych yn awr wedi cael mwy na phedwar munud.

Y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes (Jane Davidson): Yr wyf wedi gwrandao ar y ddadl gyda chryn ddiddordeb, ac mae cryn ddryswch ynghlwm â'r mater. Yr ydym wedi bod yn ceisio rhoi sylw i amryw o faterion ers peth amser, er enghraifft, rhai yn ymwneud â thryloywder mewn cyllido, gan sicrhau bod cyllid yn mynd i'r manau cywir a bod pobl yn gwybod pwy sy'n gyfrifol am beth, a chwestiwn sefydlu'r pwyllgor ychwanegol. Nid oes cynnig ar adolygu cyllid ysgolion wedi cael ei roi gerbron y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes. Nid

Committee. We have never had that proposal on the table. However, I believe strongly that the Education and Lifelong Learning Committee is the place to have such a review if that is a priority for the committee.

Jonathan Morgan: Will you give way?

Jane Davidson: I will finish this point, and then I am happy to take an intervention.

The committee can choose any area on which it wants to have a review; it has chosen to do in-depth work on special educational needs, carrying out a review over three separate priority areas. It has chosen to have a review of school transport. It could similarly choose to prioritise school funding, but that proposal has never been put before the committee.

Jonathan Morgan: If the Assembly votes this afternoon to set up a committee to undertake this review, will the Labour Party nominate Members to sit on that committee?

Jane Davidson: I am answering as a member of Government regarding why we do not think that it is appropriate for this committee to be established. We do not think that it is appropriate because, if we end up in a situation where we cut across the statutory responsibility of party-balanced committees, then we are not contributing towards the proper statutory development of policy for those statutory committees.

Jenny Randerson: Do you accept that every committee finds its workload very heavy, and, now that committees only meet every three weeks, the Education and Lifelong Learning Committee has a very crowded agenda, and that selecting topics for detailed scrutiny is, therefore, a difficult and knife-edged decision on occasion? Are you aware of the precedent set by the Health and Social Services Committee, which now has a specific scrutiny sub-committee for the Minister that will meet three times a year, and which meets for the first time this week?

yw'r cynnig hwnnw wedi cael ei gyflwyno. Fodd bynnag, yr wyf yn credu'n gryf mai'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes yw'r lle gorau i gynnal adolygiad o'r fath os yw hynny'n flaenoriaeth i'r pwyllgor.

Jonathan Morgan: A ildiwch?

Jane Davidson: Fe orffennaf y pwynt hwn gyntaf, ac yr wyf yn fodlon derbyn ymyriad wedyn.

Gall y pwyllgor ddewis unrhyw faes y mae'n dymuno ei adolygu; mae wedi dewis gwneud gwaith manwl ar anghenion addysgol arbennig, gan gynnal adolygiad mewn tri maes blaenoriaeth gwahanol. Mae wedi dewis cynnal adolygiad o drafnidiaeth ysgol. Gallai ddewis rhoi blaenoriaeth i gyllido ysgolion yn yr un modd, ond nid yw'r cynnig hwnnw wedi cael ei roi gerbron y pwyllgor.

Jonathan Morgan: Os bydd y Cynulliad yn pleidleisio brynhawn heddiw dros sefydlu pwyllgor i ymgymryd â'r adolygiad hwn, a fydd y Blaid Lafur yn enwebu Aelodau i eistedd ar y pwyllgor hwnnw?

Jane Davidson: Yr wyf yn ateb fel aelod o'r Llywodraeth ynghylch pam nad ydym yn credu ei bod yn briodol sefydlu'r pwyllgor hwn. Nid ydym yn credu ei bod yn briodol oherwydd, os bydd gennym sefyllfa yn y diwedd lle y byddwn yn torri ar draws cyfrifoldeb statudol pwyllgorau sydd â chydbwysedd rhwng y pleidiau, yna nid ydym yn cyfrannu tuag at ddatblygiad statudol priodol polisiau'r pwyllgorau statudol hynny.

Jenny Randerson: A ydych yn derbyn bod pob pwyllgor yn teimlo bod ei faich gwaith yn drwm iawn, a chan nad yw pwyllgorau'n cwrdd bellach ond bob tair wythnos, mae agenda'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes yn un llawn iawn, ac mae dewis pynciau ar gyfer craffu manwl felly'n benderfyniad anodd iawn ar adegau? A ydych yn ymwybodol o'r cysail a osodwyd gan y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, sydd ag is-bwyllgor craffu penodol erbyn hyn ar gyfer y Gweinidog a fydd yn cwrdd dair gwaith y flwyddyn, ac sy'n cwrdd am y tro cyntaf yr wythnos hon?

Jane Davidson: I am fully aware of the pressure on the Education and Lifelong Learning Committee, but I restate that there has never been a proposal for discussion about a review of school funding at that committee. That is the first place that these issues should be discussed. If Members, therefore, want to support that as an area for review for the committee, they can identify the timescale over which such a review would take place.

I am grateful to the Chair of the committee for acknowledging that there are a number of areas on which we have made previous commitments in terms of school funding and increased the transparency arrangements. When we made comparative data for England and Wales available to the committee at the meeting to which Mark Isherwood referred, they were not figures of the Minister's choosing; it was a comparative data set, where the Governments of England and Wales agreed that, in order to have consistent reporting, this was the only mechanism available to give those comparisons.

When we look at issues relating to consistent financial reporting in Wales—which is an entirely different issue; it is about schools looking at the way that they can spend and manage their resources and determine whether there is scope to do things better—a working group has already been set up, which includes local authority and teachers' union representatives.

4.50 p.m.

In the autumn, I will present a paper to the committee providing an analysis of the budget set by Welsh local authorities and looking at issues around the variations in pupil funding about which we all have a concern. We have asked the Welsh Local Government Association and the National Audit Office to work together on a more detailed analysis for the reasons for the variation. That evidence will provide a basis for wider consideration of the issues related to school funding.

We have already made a commitment in Plenary and in committee in terms of looking at introducing three-year budgets. That is

Jane Davidson: Yr wyf yn gwbl ymwybodol o'r pwysau sydd ar y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes, ond dywedaf eto na chyflwynwyd cynnig erioed i drafod adolygiad o gyllido ysgolion yn y pwyllgor hwnnw. Dyna'r lle cyntaf y dylai'r materion hyn gael eu trafod. Os yw Aelodau, felly, am gefnogi hynny fel maes y dylai'r pwyllgor ei adolygu, gallant lunio amserlen ar gyfer cynnal adolygiad o'r fath.

Yr wyf yn ddiolchgar i Gadeirydd y pwyllgor am gydnabod bod nifer o feysydd lle'r ydym wedi gwneud ymrwymadau yn y gorffennol o ran cyllido ysgolion a chynyddu'r trefniadau'n ymwneud â thryloywder. Pan gyflwynwyd data cymharol ar gyfer Cymru a Lloegr gerbron y pwyllgor yn y cyfarfod y cyfeiriodd Mark Isherwood ato, nid ffigurau a ddewiswyd gan y Gweinidog oeddent; roedd yn set o ddata cymharol, gyda Llywodraethau Lloegr a Chymru wedi cytuno, er mwyn cael adrodd cyson, mai dyma oedd yr unig fecanwaith a oedd ar gael i roi'r cymariaethau hynny.

Pan edrychwn ar faterion yn ymwneud ag adrodd ariannol cyson yng Nghymru—sy'n fater cwbl wahanol, mae a wnelo hynny ag ysgolion yn edrych sut y gallant wario a rheoli eu hadnoddau a phenderfynu a oes cyfle i wneud pethau'n well—mae gweithgor wedi ei sefydlu eisoes, sy'n cynnwys cynrychiolwyr awdurdodau lleol ac undebau'r athrawon.

Yn yr hydref, cyflwynaf bapur i'r pwyllgor a fydd yn dadansoddi'r gyllideb a bennwyd gan awdurdodau lleol Cymru ac yn edrych ar yr amrywiadau mewn cyllid ar gyfer disgyblion sy'n fater o bwys i bob un ohonom. Yr ydym wedi gofyn i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol weithio gyda'i gilydd i lunio dadansoddiad mwy manwl am y rhesymau dros yr amrywio hwn. Bydd y dystiolaeth honno'n sail i ystyriaeth ehangach o'r materion sy'n gysylltiedig â chyllid i ysgolion.

Yr ydym eisoes wedi ymrwymo yn y Cyfarfod Llawn ac yn y pwyllgor o ran edrych ar y posibilrwydd o gyflwyno

dependent on the local government settlement and deals—in terms of the WLGA—with ensuring that we can have the right basis on which to contribute towards the education funding being secured in that context.

Mick Bates *rose*—

The Presiding Officer: Order. I do not think that the Minister is giving way.

Jane Davidson: Funding arrangements for pre-16 provision in schools are settled and implemented in agreement with local government. We are committed to continuing to fund schools through local authorities. I am glad that many other parties have also agreed to that.

The arrangements for post-16 funding are bedding down. However, all parties agreed on the establishment of ELWa, on wanting to ensure that parity of funding operated across different sectors of post-16 education, and on ELWa funding local authorities. Therefore, the funding comes through local authorities.

You propose to review the distribution of funding to maintained schools. Not only did we do that last year when we discussed it in committee, but we also discussed it in Plenary. We looked at the Schools Budget Share (Wales) Regulations, reducing the proportion of school budgets determined by pupil numbers from 75 to 70 per cent, taking account of issues around falling rolls, giving authorities enhanced flexibility, taking account of social deprivation, premises costs and other non pupil-led factors in their formulae. This was supported by others in the Assembly.

We always look at the impact of decisions taken in terms of UK Government initiatives on the funding of schools. You propose that we make recommendations for the simplification and clarification of the system. The Chair of the Education and Lifelong Learning Committee would not have been able to stand up two years ago and say, 'I am a member of a budget forum', because we

cyllidebau tair blynedd. Mae hynny'n dibynnu ar y setliad i lywodraeth leol ac yn delio—o ran CLILG—â sicrhau bod gennym sylfaen briodol i gyfrannu at ddiogelu cyllid addysg yn y cyd-destun hwnnw.

Mick Bates *yn codi*—

Y Llywydd: Trefn. Nid wyf yn credu bod y Gweinidog am ildio.

Jane Davidson: Mae trefniadau cyllido ar gyfer y ddarpariaeth cyn-16 mewn ysgolion yn cael eu setlo a'u gweithredu mewn cytundeb gyda llywodraeth leol. Yr ydym wedi ymrwymo i barhau i ariannu ysgolion drwy'r awdurdodau lleol. Yr wyf yn falch bod llawer o bleidiau eraill wedi cydsynio â hynny hefyd.

Mae'r trefniadau ar gyfer cyllido ôl-16 yn sefydlogi. Fodd bynnag, cytunodd pob plaid ynglŷn â sefydlu ELWa, ynglŷn â bod yn awyddus i sicrhau cydraddoldeb mewn cyllido ar draws gwahanol sectorau addysg ôl-16, a bod ELWa'n cyllido awdurdodau lleol. Felly, mae'r arian yn dod drwy'r awdurdodau lleol.

Yr ydych yn cynnig adolygu'r modd y dosberthir cyllid i ysgolion a gynhelir. Yr ydym nid yn unig wedi gwneud hynny y llynedd pan fu inni ei drafod yn y pwyllgor, ond fe'i trafodwyd hefyd yn y Cyfarfod Llawn. Buom yn edrych ar y Rheoliadau Cyfrannau Cyllideb Ysgolion (Cymru), gan leihau cyfran y cyllidebau ysgolion sy'n cael eu pennu gan niferoedd disgyblion o 75 i 70 y cant, gan ystyried effaith y gostyngiad yn nifer y disgyblion, gan roi mwy o hyblygrwydd i awdurdodau, a chan ystyried amddifadedd cymdeithasol, costau adeiladau a ffactorau eraill nad oes a wnelont â disgyblion yn eu fformiwlâu. Cefnogwyd hyn gan eraill yn y Cynulliad.

Yr ydym bob amser yn edrych ar effaith penderfyniadau a wneir o ran cynlluniau Llywodraeth y DU ar gyllido ysgolion. Yr ydych yn cynnig ein bod yn gwneud argymhellion i symleiddio'r system a'i gwneud yn fwy eglur. Ni fyddai Cadeirydd y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes wedi gallu sefyll ar ei draed ddwy flynedd yn ôl a dweud, 'Yr wyf yn aelod o fforwm cyllideb',

established budget forums to improve that transparency at the local level. Therefore, we are addressing the so-called 'funding fog'.

Last year, for the first time, we published the standard spending assessments ahead of local authorities deciding their budgets, so that there is more transparency in the system for people at the local level.

I think that we have done a great deal in terms of this transparency debate. I fully believe that there is more that we need to do. I have been happy working with my colleague, the Finance Minister, in looking at ways of tackling those issues around variations, working with Welsh local government and the National Audit Office in giving ourselves a good evidence base that will provide the forum for detailed discussion through the Education and Lifelong Learning Committee.

I challenge Plaid Cymru, in its response to this debate, to explain its cost benefit analysis claim that local education authorities and teachers' unions would welcome such a committee. I have no such evidence of that. I have evidence that local education authorities and teachers' unions want to work with Government and want to ensure that we put more clarity into the system. I would be interested to know what support Plaid Cymru has garnered from local authorities and teachers' unions, at a national level, in terms of support for this motion.

I think that we should carry on, through the Education and Lifelong Learning Committee, to exercise the functions for which we were elected. The committee operates on a statutory basis; this motion and the committee it proposes falls outside that. We should do this as the core of our business in the Education and Lifelong Learning Committee. The real work is going on there in consultation with local authorities, teachers' unions, other unions, governors and others. That work will always be reported to the Education and Lifelong Learning Committee. I urge Assembly Members to re-

oherwydd sefydlwyd fforymau cyllideb gennym i wella'r tryloywder hwnnw ar lefel leol. Felly, yr ydym yn rhoi sylw i'r hyn a elwir yn 'ddryswch ynglŷn â chyllido'.

Y llynedd, am y tro cyntaf, cyhoeddasom yr asesiadau gwariant safonol cyn i'r awdurdodau lleol benderfynu ar eu cyllidebau, er mwyn sicrhau mwy o dryloywder yn y system i bobl ar y lefel leol.

Yr wyf yn credu ein bod wedi cyflawni llawer o ran y drafodaeth hon ynghylch tryloywder. Yr wyf yn credu'n llwyr fod angen inni wneud mwy. Yr wyf wedi bod yn hapus wrth weithio gyda fy nghyd-Aelod, y Gweinidog dros Gyllid, yn edrych ar ffyrdd o fynd i'r afael â'r materion hynny sy'n gysylltiedig ag amrywiadau, gweithio gyda llywodraeth leol Cymru a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol i sicrhau bod gennym sylfaen dystiolaeth dda a fydd yn darparu fforwm ar gyfer trafodaethau manwl drwy'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes.

Yr wyf yn herio Plaid Cymru, yn ei hymateb i'r ddadl hon, i esbonio ei dadansoddiad cost a budd sy'n honni y byddai'r awdurdodau addysg lleol ac undebau'r athrawon yn croesawu pwyllgor o'r fath. Nid oes gennyf dystiolaeth o'r fath ynghylch hynny. Mae gennyf dystiolaeth bod awdurdodau addysg lleol ac undebau'r athrawon am weithio gyda'r Llywodraeth a'u bod am sicrhau ein bod yn gwneud y system yn fwy eglur. Hoffwn gael gwybod pa gefnogaeth y mae Plaid Cymru wedi'i derbyn gan awdurdodau lleol ac undebau'r athrawon, ar lefel genedlaethol, o ran cefnogaeth i'r cynnig hwn.

Yr wyf yn credu y dylem ddal ati, drwy'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes, i gyflawni'r swyddogaethau y cawsom ein hethol i'w cyflawni. Mae'r pwyllgor yn gweithredu ar sail statudol, mae'r cynnig hwn a'r pwyllgor y mae'n ei gynnis yn mynd y tu allan i hynny. Dylem wneud hyn fel craidd ein busnes yn y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes. Mae'r gwaith go iawn yn digwydd yno mewn ymgynghoriad ag awdurdodau lleol, undebau'r athrawon, undebau eraill, llywodraethwyr ac eraill. Bydd y gwaith hwnnw'n cael ei adrodd i'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes bob

affirm their support for the current Education and Lifelong Learning Committee and not to set up separate arrangements which will not be as effective in influencing Government.

Ieuan Wyn Jones: Beth bynnag a ddywedodd y Gweinidog, os bydd y Cynulliad yn pleidleisio o blaid sefydlu pwyllgor, byddwn yn gobeithio ei bod yn fodlon cydweithredu'n llawn â'r pwyllgor hwnnw. Gwnaf sylwadau ar ymateb y Gweinidog yn nes ymlaen.

Wrth agor y drafodaeth hon, cyfeiriodd Janet Ryder at ddau brif reswm pam y dylid sefydlu'r pwyllgor hwn: diffyg eglurder ar gyllid i ysgolion—rhywbeth yr oedd y Gweinidog ei hun yn ei dderbyn—a'r ffaith nad oes mecanwaith ar hyn o bryd sy'n galluogi i unrhyw un o bwyllgorau'r Cynulliad graffu'n effeithiol ar sut y mae arian yn mynd i ysgolion.

Byddwn i'n tybio mai'r Aelod â'r hygredded mwyaf yn y maes hwn fyddai Cadeirydd y pwyllgor, ac mae wedi dweud nad oes gan y pwyllgor yr amser i wneud y gwaith pwysig hwn. Felly, er bod y Gweinidog, Jeff Cuthbert, Denise Idris Jones ac eraill wedi dweud mai mater i'r pwyllgor yw hwn, mae'r Gweinidog ei hun wedi dweud nad oes gan y pwyllgor yr amser i wneud y gwaith.

Cytunaf â'r hyn a ddywedodd Peter Black fod llawer o bethau i edrych arnynt; mae hynny'n cynnwys sut y mae gwariant yn cael ei bennu, a sut y mae grantiau arbennig yn cael eu talu i ysgolion heb unrhyw fath o ragrybudd.

Cyfeiriodd Elin Jones at sut y mae'r Llywodraeth yn tanseilio llywodraeth leol drwy gyflwyno polisiau addysg newydd nad ydynt yn cael eu hariannu'n llawn. Cyfeiriodd yn arbennig at broblemau mewn ardaloedd gwledig.

Jeff Cuthbert: I trust that the translation was correct, but I understood you to say—

The Presiding Officer: Order. The interpretation here is always correct.

amser. Yr wyf yn annog Aelodau'r Cynulliad i gadarnhau unwaith eto eu cefnogaeth i'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes ac i beidio â sefydlu trefniadau ar wahân na fyddant mor effeithiol wrth ddylanwadu ar y Llywodraeth.

Ieuan Wyn Jones: Whatever the Minister has said, and if the Assembly votes in favour of establishing a committee, I would hope that she would be willing to fully co-operate with that committee. I will comment on the Minister's response a little later on.

In opening this debate, Janet Ryder referred to two main reasons why this committee should be established: the lack of clarity on school funding—which the Minister herself accepted—and the fact that there is no mechanism at present to allow any Assembly committee to effectively scrutinise how money is directed to schools.

I would have thought that the Member with most credibility in this area would have been the Chair of the committee, and he has said that the committee does not have the time to carry out this important work. So, even though the Minister, Jeff Cuthbert, Denise Idris Jones and others have said that this is a matter for the committee, the Minister has told us said that the committee does not have the time to do the work.

I agree with Peter Black that there are many things to consider; those include how expenditure is distributed, and how special grants are paid to schools without any kind of prior notice.

Elin Jones referred to the way that the Government undermines local government by introducing new education policies that are not fully funded. She referred especially to problems experienced in rural areas.

Jeff Cuthbert: Hyderaf fod y cyfieithiad yn gywir, ond deallaf eich bod wedi dweud—

Y Llywydd: Trefn. Mae'r cyfieithu yn gywir yma bob amser.

Jeff Cuthbert: I am grateful for that clarification.

You said, Ieuan, that the Minister said that there was no time for the committee to do this; that is not what I recall. I recall the Minister saying that there had been no request to the committee for this work to be undertaken; that is quite a different matter.

Ieuan Wyn Jones: I did not say that exactly. I said that the Minister said that this matter should be dealt with in committee, but that the Chair has said that the committee does not have the time to do it. That is the point that I was making.

I ddod yn ôl at sylwadau Denise Idris Jones a'r Gweinidog, yr oeddent yn ceisio dadlau, rhywsut neu'i gilydd, fod yr holl waith mewn perthynas ag eglurder yn digwydd yn barod ac mai mater i'r pwyllgor yw hwn.

I found the Minister's proposition remarkable. If the Assembly sets up this committee, will the Labour Party nominate Members to sit on it? Why did she not respond to that point? If the Assembly resolves that there should be a committee, rejecting the Minister's proposals that the matter should go to the Education and Lifelong Learning Committee, will the Labour Party nominate Members to sit on that committee? Is anyone prepared to intervene on that? Of course not.

Jeff Cuthbert: Why have you not proposed a party-balanced committee?

Ieuan Wyn Jones: This committee is based on the same format as the one your group agreed to on smoking in public places; it is exactly the same proposal. [*Interruption.*]

I will not take any more interventions, because there is not one Labour Member who is prepared to accept the Assembly's view and set up this committee. That is the remarkable position in which we find ourselves today—Labour Members will not approve the vote of the Assembly, should it

Jeff Cuthbert: Yr wyf yn ddiolchgar am yr eglurhad.

Dywedasoeh, Ieuan, fod y Gweinidog wedi dweud nad oedd amser gan y pwyllgor i wneud hyn; nid dyna'r hyn yr wyf fi'n ei gofio. Cofiaf i'r Gweinidog ddweud na fu cais gerbron y pwyllgor i wneud y gwaith hwn; mae hynny'n fater cwbl wahanol.

Ieuan Wyn Jones: Nid dyna'n union a ddywedais. Dywedais fod y Gweinidog wedi dweud y dylid ymdrin â'r mater hwn yn y pwyllgor, ond bod y Cadeirydd wedi dweud nad oes gan y pwyllgor amser i'w wneud. Dyna'r pwynt yr oeddwn yn ei wneud.

To return to the comments made by Denise Idris Jones and the Minister, they were somehow trying to argue that all this work on clarity is already happening and that it is a matter for the committee.

Yr oeddwn yn credu bod gosodiad y Gweinidog yn un hynod. Os bydd y Cynulliad yn sefydlu'r pwyllgor hwn, a fydd y Blaid Lafur yn enwebu Aelodau i eistedd arno? Pam na wnaeth hi ymateb i'r pwynt hwnnw? Os yw'r Cynulliad yn penderfynu y dylid cael pwyllgor, gan wrthod cynigion y Gweinidog y dylai'r mater fynd i'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes, a fydd y Blaid Lafur yn enwebu Aelodau i eistedd ar y pwyllgor hwnnw? A oes unrhyw un yn barod i ymyrryd ynghylch hynny? Wrth gwrs nad oes.

Jeff Cuthbert: Pan nad ydych wedi cynnig pwyllgor sydd â chydbwysedd rhwng y pleidiau?

Ieuan Wyn Jones: Mae'r pwyllgor hwn yn seiliedig ar yr un patrwm â'r un y cytunodd eich grŵp chi arno ar ysmegu mewn mannau cyhoeddus; mae'r cynnig yn union yr un fath. [*Torri ar draws.*]

Nid wyf am dderbyn rhagor o ymyriadau, oherwydd nid oes yr un Aelod Llafur sy'n barod i dderbyn barn y Cynulliad a sefydlu'r pwyllgor hwn. Dyna'r sefyllfa ryfeddol yr ydym ynddi heddiw—nid yw Aelodau Llafur am gymeradwyo pleidlais y Cynulliad, pe bai'n mynd yn eu herbyn. Mae hynny'n

go against them. That is a shameful position for a Government.

Peter Law: Three weeks ago, we asked the Government to rule out student top-up fees, and no-one has bothered to come back to the Assembly to make a statement on that. Therefore, we want to know if anyone in the Labour group takes instruction from the Assembly.

Ieuan Wyn Jones: Let us come back to some of the points that the Minister made. She acknowledged that there are problems. She said, for example, that we are all worried about the variations in funding for pupils. We all agree on that, so that is something that the committee can consider. She also said that arrangements for post-16 education are 'bedding down'. Has she spoken to headteachers in Anglesey, Powys or anywhere else about that? Where are all these people who think that post-16 education funding is 'bedding down'? There is a remarkable lack of clarity and transparency about that issue, which this committee should consider. If the Assembly votes for this today, it would be shameful if Labour representatives refused to sit on that committee.

5.00 p.m.

*Gwelliant 1: O blaid 30, Ymatal 0, Yn erbyn 29.
Amendment 1: For 30, Abstain 0, Against 29.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Bates, Mick
Black, Peter
Bourne, Nick
Burnham, Eleanor
Cairns, Alun
Davies, David
Davies, Glyn
Davies, Janet
Davies, Jocelyn
Francis, Lisa
German, Michael
Graham, William
Isherwood, Mark
Jones, Alun Ffred
Jones, Elin
Jones, Helen Mary
Jones, Ieuan Wyn
Jones, Laura Anne

sefyllfa gywilyddus i Lywodraeth fod ynddi.

Peter Law: Dair wythnos yn ôl, gofynnwyd i'r Llywodraeth beidio â chyflwyno ffioedd atodol i fyfyrwyr, ac nid oes neb wedi trafferthu i ddod yn ôl i'r Cynulliad i wneud datganiad ar hynny. Felly, yr ydym am gael gwybod a oes unrhyw yn y grŵp Llafur yn derbyn cyfarwyddiadau gan y Cynulliad.

Ieuan Wyn Jones: Gadewch inni ddychwelyd at rai o'r pwyntiau a wnaethpwyd gan y Gweinidog. Yr oedd yn cydnabod bod problemau. Dywedodd, er enghraifft, ein bod i gyd yn bryderus ynghylch yr amrywiadau mewn cyllido ar gyfer disgyblion. Yr ydym i gyd yn gytûn ar hynny, felly mae hynny'n rhywbeth y gall y pwyllgor ei ystyried. Dywedodd hefyd fod y trefniadau ar gyfer addysg ôl-16 yn 'sefydlogi'. A yw hi wedi trafod y mater gyda phenaethiaid yn Ynys Môn, Powys neu unrhyw le arall? Lle y mae'r holl bobl hynny sydd o'r farn bod cyllido addysg ôl-16 yn 'sefydlogi'? Mae'r diffyg eglurder a thryloywder ynglŷn â'r mater hwnnw yn rhyfeddol, a dylai'r pwyllgor hwn ei ystyried. Os pleidleisia'r Cynulliad dros hyn heddiw, byddai'n gywilydd pe bai cynrychiolwyr Llafur yn gwrthod eistedd ar y pwyllgor hwnnw.

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Andrews, Leighton
Barrett, Lorraine
Butler, Rosemary
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davidson, Jane
Davies, Andrew
Dunwoody-Kneafsey, Tamsin
Essex, Sue
Gibbons, Brian
Gregory, Janice
Griffiths, John
Gwyther, Christine
Hart, Edwina
Hutt, Jane
Idris Jones, Denise
James, Irene
Jones, Ann

Law, Peter
 Lloyd, David
 Marek, John
 Melding, David
 Morgan, Jonathan
 Randerson, Jenny
 Ryder, Janet
 Thomas, Owen John
 Thomas, Rhodri Glyn
 Williams, Brynle
 Williams, Kirsty
 Wood, Leanne

Jones, Carwyn
 Lewis, Huw
 Lloyd, Val
 Mewies, Sandy
 Morgan, Rhodri
 Neagle, Lynne
 Pugh, Alun
 Sargeant, Carl
 Sinclair, Karen
 Thomas, Catherine
 Thomas, Gwenda

*Derbyniwyd y gwelliant.
 Amendment carried.*

Cynnig NDM2482 fel y'i diwygiwyd:
 Motion NDM2482 as amended:

*the National Assembly, in accordance with
 Standing Order No. 8.1:*

*1. establishes a committee to advise the
 Assembly on school funding. The title of the
 committee shall be the Committee on School
 Funding. Membership of the committee shall
 comprise five Assembly Members, two from
 the Labour Party, and one each from Plaid
 Cymru, the Conservative Party and the
 Liberal Democrat Party. The committee shall
 elect its own chair.*

*2. The terms of reference for the Committee
 on School Funding will be to:*

*i) review all the sources of income (both
 revenue and capital), how so ever generated,
 which create maintained primary and
 secondary school funding (to include pupil
 referral units);*

*ii) review the distribution of funding to
 maintained schools—both primary and
 secondary and pupil referral units;*

*iii) consider the impact of National Assembly
 and UK Government initiatives on the
 funding of schools;*

*iv) make recommendations to the National
 Assembly on the simplification and
 clarification of this system.*

*v) investigate and review the practicalities of
 introducing a three-year funding regime for
 schools.*

*y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â Rheol
 Sefydlog Rhif 8.1:*

*1. yn sefydlu pwyllgor i roi cyngor i'r
 Cynulliad ynghylch ariannu ysgolion. Teitl y
 pwyllgor fydd y Pwyllgor ar Ariannu
 Ysgolion. Bydd aelodaeth y pwyllgor yn
 cynnwys pum Aelod o'r Cynulliad, dau o'r
 Blaid Lafur, ac un yr un o Blaid Cymru, y
 Blaid Geidwadol a Phlaid y Democratiaid
 Rhyddfrydol. Bydd y pwyllgor yn ethol ei
 gadeirydd ei hun.*

*2. Cylch gorchwyl y Pwyllgor ar Ariannu
 Ysgolion fydd:*

*i) adolygu'r holl ffynonellau incwm (refeniw
 a chyfalaf), sut bynnag y'u crëir, sy'n
 darparu cyllid ar gyfer ysgolion cynradd ac
 ysgolion uwchradd a gynhelir (gan gynnwys
 unedau cyfeirio disgyblion);*

*ii) adolygu'r broses o ddyrannu cyllid i
 ysgolion a gynhelir—rhai cynradd ac
 uwchradd ac unedau cyfeirio disgyblion;*

*iii) ystyried effaith cynlluniau'r Cynulliad
 Cenedlaethol a Llywodraeth y DU ar ariannu
 ysgolion;*

*iv) cyflwyno argymhellion i'r Cynulliad
 Cenedlaethol ar symleiddio ac egluro'r
 system hon.*

*v) ymchwilio i ymarferoldeb cyflwyno cynllun
 cyllido tair blynedd ar gyfer ysgolion a'i
 adolygu.*

3. *The committee shall report to the National Assembly no later than 12 months after the date of its first meeting.*

3. *Rhaid i'r pwyllgor gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad Cenedlaethol heb fod yn hwyrach na 12 mis ar ôl dyddiad ei gyfarfod cyntaf.*

4. *The committee shall cease to exist by 14 June 2006. (NDM2482)*

4. *Ni fydd y pwyllgor yn bodoli ar ôl 14 Mehefin 2006. (NDM2482)*

*Cynnig wedi'i ddiwygio: O blaid 30, Ymatal 0, Yn erbyn 29.
Amended motion: For 30, Abstain 0, Against 29.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Bates, Mick
Black, Peter
Bourne, Nick
Burnham, Eleanor
Cairns, Alun
Davies, David
Davies, Glyn
Davies, Janet
Davies, Jocelyn
Francis, Lisa
German, Michael
Graham, William
Isherwood, Mark
Jones, Alun Ffred
Jones, Elin
Jones, Helen Mary
Jones, Ieuan Wyn
Jones, Laura Anne
Law, Peter
Lloyd, David
Marek, John
Melding, David
Morgan, Jonathan
Randerson, Jenny
Ryder, Janet
Thomas, Owen John
Thomas, Rhodri Glyn
Williams, Brynle
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Andrews, Leighton
Barrett, Lorraine
Butler, Rosemary
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davidson, Jane
Davies, Andrew
Dunwoody-Kneafsey, Tamsin
Essex, Sue
Gibbons, Brian
Gregory, Janice
Griffiths, John
Gwyther, Christine
Hart, Edwina
Hutt, Jane
Idris Jones, Denise
James, Irene
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Lewis, Huw
Lloyd, Val
Mewies, Sandy
Morgan, Rhodri
Neagle, Lynne
Pugh, Alun
Sargeant, Carl
Sinclair, Karen
Thomas, Catherine
Thomas, Gwenda

*Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.
Amended motion carried.*

*Daeth y Dirprwy Lywydd i'r Gadair am 5.01 p.m.
The Deputy Presiding Officer took the Chair at 5.01 p.m.*

Dadl o dan Reol Sefydlog Rhif 31: Cronfeydd Ymddiriedolaeth Plant Debate under Standing Order No. 31: Child Trust Funds

The Deputy Presiding Officer: This debate represents a new procedure, which the Business Committee has agreed, and we hope that there will be more of these motions in the future.

Y Dirprwy Lywydd: Mae'r ddadl hon yn rhan o drefn newydd, y mae'r Pwyllgor Busnes wedi cytuno arni, a gobeithiwn y ceir rhagor o'r cynigion hyn yn y dyfodol.

Christine Chapman: I propose that

Christine Chapman: Cynigiad fod

the National Assembly for Wales, acting under Standing Order No. 31.2, supports in principle legislation to:

require local authorities, as part of their corporate parenting responsibilities, to provide an annual contribution to the child trust funds of children looked after by them. (NDM2453)

Since 1999, we in the Assembly have sought to address and overcome the structural inequalities that exist in Wales and to establish greater social justice. This includes the difference in people's ability to save and plan for the future. That is why I have chosen child trust funds as the subject of my motion today.

Widening the practice of asset building for every child, rather than just for those who can afford it, is a step towards making investment in the futures of our young people inclusive of the whole population. The context for this, as an example—which is regrettable—is that, in 1998, the top 1 per cent of the population held 17 per cent of all personal wealth in the UK. Further figures show that, by 1999, this had increased to 23 per cent. Therefore, an effective anti-poverty policy will not just include reactive redistribution, but it will seek to tackle the underlying causes, one of which is the lack of opportunity for many to save and invest for their futures.

Child trust funds have been introduced by the UK Government for every child born since 1 September 2002. These funds represent an ambitious, forward-looking way of challenging inequality and increasing young people's stake in the world in which they live. Each child receives £250 at birth, with children from families on lower incomes receiving up to twice this amount. This is invested and not to be drawn upon until the child reaches the age of 18. A further payment is made by the Government when the child is seven years of age. There is a strong incentive for the family and friends of the child to contribute to the child trust funds, with tax exemptions of up to £1,200 a year.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu o dan Reol Sefydlog Rhif 31.2, yn cefnogi mewn egwyddor ddeddfwriaeth i:

fynnu bod awdurdodau lleol, fel rhan o'u cyfrifoldebau rhianta corfforaethol, yn gwneud cyfraniad blynyddol i gronfeydd ymddiriedolaeth plant y plant sy'n derbyn gofal ganddynt. (NDM2453)

Ers 1999, yr ydym ni yn y Cynulliad wedi ceisio rhoi sylw i'r anghydraddoldebau strwythurol sydd yn bodoli yng Nghymru a'u goresgyn, a sefydlu mwy o gyfiawnder cymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys y gwahaniaeth yng ngallu pobl i gynilo a chynllunio ar gyfer y dyfodol. Dyna pam yr wyf wedi dewis cronfeydd ymddiriedolaeth plant yn destun fy nghynnig heddiw.

Mae lledaenu'r arfer o Gronni asedau i bob plentyn, yn hytrach na dim ond y rhai sy'n gallu fforddio hynny, yn gam tuag at sicrhau bod y boblogaeth i gyd yn cael ei chynnwys ynglŷn â buddsoddi yn nyfodol ein pobl ifanc. Cyd-destun hyn, fel enghraifft—sydd yn destun gofid—yw bod 1 y cant uchaf y boblogaeth, yn 1998, yn meddu 17 y cant o'r holl gyfoeth personol yn y Deyrnas Unedig. Dengys ffigurau pellach fod hyn, erbyn 1999, wedi cynyddu i 23 y cant. Felly, bydd polisi gwrthdodi effeithiol nid yn unig yn cynnwys aiddosbarthu adweithiol, ond hefyd yn ceisio mynd i'r afael â'r achosion gwaelodol, ac yn eu plith y diffyg cyfle i lawer gynilo a buddsoddi yn eu dyfodol.

Mae cronfeydd ymddiriedolaeth plant wedi cael eu cyflwyno gan Lywodraeth y DU i bob plentyn a anwyd ers 1 Medi 2002. Mae'r cronfeydd hyn yn ddull uchelgeisiol, blaengar o herio anghydraddoldeb a chynyddu cyfran pobl ifanc yn y byd y maent yn byw ynddo. Caiff pob plentyn £250 pan gaiff ei eni, gyda hyd at gymaint ddwywaith â'r swm hwn yn mynd i blant o deuluoedd ar incwm is. Buddsoddir yr arian ac ni cheir ei godi nes i'r plentyn gyrraedd 18 mlwydd oed. Gwneir taliad arall gan y Llywodraeth pan fydd y plentyn yn saith mlwydd oed. Mae cymhelliad cryf i deulu a chyfeillion y plentyn gyfrannu at y cronfeydd ymddiriedolaeth plant, gydag eithriadau treth o hyd at £1,200 y flwyddyn.

The additional contributions made by friends and relatives will be crucial to the ultimate fruition of the fund. Children in care are potentially without this benefit. I propose that local authorities, as corporate parents to the children in their care, make annual contributions to these trust funds, so that they may share in the asset accumulation that is so vital in providing financially secure futures for other children. This idea was originally proposed by the Deputy Minister, Huw Lewis, in his review of overindebtedness in Wales, and I am grateful to him for this. It is envisaged that for a modest yet worthwhile annual contribution to each looked after child's trust fund, the financial implications would be relatively small. However, the outcome will be substantial, making a huge difference to the life chances of the next generation.

Why am I proposing this? We need to look closely at the children who are least likely to have annual contributions to their child trust funds, unlike their counterparts with a circle of family and friends who may take advantage of the tax incentives to invest what they can. There is also the wider issue of how we help people on low incomes to reap the full benefits of investing for the future. The development of the savings gateway scheme will be crucial in this respect. Although the UK Government is piloting the savings gateway scheme in six areas of the UK, none of these areas are in Wales, and we should be aware of that.

We need to look at the children who are not supported by parents and family but are cared for by the state, and we need to ensure that they are not prevented from adding to their own unique opportunity fund just because of their circumstances. Now that the UK Government has put in place the child trust fund scheme, it would be illogical to permit the denial of its full potential to those children who are in care and who are, therefore, without the support of family and friends who may wish to add to their trust funds. Looked-after children will be likely to have smaller trust funds even though they will arguably be most in need of them. As for the way forward, we know that section 22 of

Bydd y cyfraniadau ychwanegol a wneir gan gyfeillion a pherthnasau'n allweddol er mwyn i'r gronfa ddwyn ffrwyth yn y pen draw. Gallai plant mewn gofal golli'r fantais hon. Cynigiau y dylai awdurdodau lleol, fel rhieni corfforaethol i'r plant yn eu gofal, wneud cyfraniadau blynyddol i'r cronfeydd ymddiriedolaeth hyn, fel y gallant hwythau rannu yn y cronni asedau sydd mor hanfodol i ddarparu dyfodol ariannol sicr i blant eraill. Cynigiwyd y syniad hwn yn wreiddiol gan y Dirprwy Weinidog, Huw Lewis, yn ei adolygiad o orddyled yng Nghymru, ac yr wyf yn ddiolchgar iddo am hyn. Rhagwelir mai goblygiadau ariannol cymharol fach a fyddai'n deillio o roi cyfraniad blynyddol bychan, ond gwerth chweil, i gronfa ymddiriedolaeth pob plentyn sy'n derbyn gofal. Serch hynny, bydd y canlyniad yn sylweddol, gan wneud gwahaniaeth enfawr i gyfleoedd bywyd y to nesaf.

Pam yr wyf yn cynnig hyn? Mae angen inni edrych yn ofalus ar y plant sydd leiaf tebygol o gael cyfraniadau blynyddol i'w cronfeydd ymddiriedolaeth plant, yn wahanol i'w cymheiriaid sydd â chylch o deulu a chyfeillion a all fanteisio ar gymhellion treth i fuddsoddi hynny a allant. Hefyd mae cwestiwn ehangach sef sut y mae helpu pobl ar incwm isel i elwa ar fanteision llawn buddsoddi ar gyfer y dyfodol. Bydd datblygu'r cynllun porth cynilo'n allweddol yn hyn o beth. Er bod Llywodraeth y DU yn treialu'r cynllun porth cynilo mewn chwe ardal yn y DU, nid oes yr un o'r ardaloedd hyn yng Nghymru, a dylem fod yn ymwybodol o hynny.

Mae angen edrych ar y plant nas cynhelir gan rieni a theulu ond sydd yn derbyn gofal gan y wladwriaeth, ac mae angen sicrhau na chânt eu rhwystro rhag ychwanegu at eu cronfa gyfle unigryw hwy eu hunain oherwydd eu hamgylchiadau. Gan fod Llywodraeth y DU wedi sefydlu'r cynllun cronfeydd ymddiriedolaeth plant, byddai'n afresymegol caniatáu gwarafun ei botensial llawn i'r plant hynny sy'n derbyn gofal ac sydd, felly, heb gefnogaeth teulu a chyfeillion a allai ddymuno ychwanegu at eu cronfeydd ymddiriedolaeth. Bydd plant sy'n derbyn gofal yn debygol o fod â chronfeydd ymddiriedolaeth llai er y gellid dadlau mai arnynt hwy y bydd eu hangen fwyaf. O ran y

the Children Act 1989 places a duty upon local authorities to promote the interests of children in their care. As corporate parents, this duty could reasonably be construed as including contributing to the trust funds of children looked after by them that would otherwise be done by a parent. I hope that Members are able to respond positively to this debate, and I am particularly interested to hear what the Minister will say.

Child trust funds are part of a deeper approach to tackling poverty and inequality. It is an approach that focuses on the long-term, thereby widening the definition of poverty beyond the inability to meet current or short-term needs. The premise of such an approach is that the Government needs to break the asset poverty cycle by providing the opportunity for everyone to invest in the future and actively encouraging this. This must be extended to looked-after children who should not be allowed to lose out because they have corporate parents in the form of local authorities rather than family and friends willing to contribute to child trust funds. We must ensure that investment is made in their futures, and I ask you all to support the motion.

The Business Minister (Jane Hutt): Thank you for the opportunity to respond on behalf of the Assembly Government, as Minister with responsibility for children as well as Business Minister, to Christine's motion. Today's motion is the first to follow the new procedure that the Assembly has adopted to consider proposals brought forward under Standing Order No. 31. This is an important process and procedure for backbench Members. It is important that we recognise the spirit of this new approach, and, in particular, the opportunity it provides, at this stage, for the principle of a proposal to be centre stage. My response on behalf of the Government focuses on the principle of this proposal. I begin by endorsing and clearly supporting the intention behind Christine's contribution, and by supporting the wish to see local authorities, in their role as corporate parents, providing extra support for looked-after children and assisting in children's

ffordd ymlaen, gwyddom fod adran 22 o Ddeddf Plant 1989 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i hybu buddiannau plant sy'n derbyn eu gofal. Fel rhieni corfforaethol, gellid dehongli'r ddyletswydd hon yn rhesymol fel un sydd yn cynnwys cyfrannu at gronfeydd ymddiriedolaeth plant sydd yn eu gofal, rhywbeth a wneid fel arall gan riant. Gobeithiaf y bydd yr Aelodau'n gallu ymateb yn gadarnhaol i'r ddadl hon, ac mae gennyf ddi-ddordeb arbennig mewn clywed yr hyn a ddywed y Gweinidog.

Mae cronfeydd ymddiriedolaeth plant yn elfen o ddull dyfnach o fynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldeb. Mae'n ddull sydd yn canolbwyntio ar y tymor hir, gan ledu'r diffiniad o dlodi y tu hwnt i'r anallu i ddiwallu anghenion y presennol neu'r tymor byr. Sail dull o'r fath yw bod angen i'r Llywodraeth dorri'r cylch tlodi asedau drwy ddarparu'r cyfle i bawb fuddsoddi yn y dyfodol a mynd ati i annog hyn. Rhaid estyn hyn i blant sy'n derbyn gofal; ni ddylid caniatáu iddynt fod ar eu colled oherwydd bod ganddynt rieni corfforaethol ar ffurf awdurdodau lleol yn hytrach na theulu a chyfeillion sy'n barod i gyfrannu at gronfeydd ymddiriedolaeth plant. Rhaid inni sicrhau bod buddsoddiad yn cael ei wneud yn eu dyfodol, a gofynnaf ichi i gyd gefnogi'r cynnig.

Y Trefnydd (Jane Hutt): Diolch am y cyfle i ymateb ar ran Llywodraeth y Cynulliad, fel Gweinidog â chyfrifoldeb am blant yn ogystal â Threfnydd, i gynnig Christine. Y cynnig heddiw yw'r cyntaf i ddilyn y drefn newydd a fabwysiadodd y Cynulliad i ystyried cynigion a gyflwynir dan Reol Sefydlog Rhif 31. Mae hon yn broses ac yn weithdrefn bwysig i Aelodau'r meinciau cefn. Mae'n bwysig ein bod yn cydnabod ysbryd y dull newydd hwn, ac yn enwedig y cyfle y mae'n ei roi, yn y fan hon, i egwyddor cynnig gael y prif sylw. Mae fy ymateb ar ran y Llywodraeth yn canolbwyntio ar egwyddor y cynnig hwn. Dechreuaf drwy ategu a chefnogi'n ddiamwys y bwriad y tu ôl i gyfraniad Christine, a thrwy gefnogi'r dymuniad i weld awdurdodau lleol, yn eu rôl fel rhieni corfforaethol, yn darparu cymorth ychwanegol i blant sy'n derbyn gofal ac yn helpu plant wrth iddynt droi'n oedolion, fel y gallant hwythau, fel y dywedodd Christine,

transition to adulthood, so that they too, as Christine said, can enjoy future financial security.

The child trust fund is an outstanding example of what the modern welfare state can provide, and it is clear that we must ensure that it is equitable in its provision and that it spreads the impact of holding assets to children who would otherwise be most unlikely to have that advantage. In doing so, it changes attitudes and alters behaviour, and it extends opportunity and provides new entitlement. Any responsible parents would wish to invest in their child's future, and we want no less for our looked-after children. As Christine said, this was set out as a key recommendation in Huw Lewis's report on overindebtedness in Wales, which we discussed yesterday at the meeting of the voluntary sector partnership council. With regard to social justice and regeneration, it is good that we have been able to follow this through and draw particular attention to it in this afternoon's debate as a result of the motion.

5.10 p.m.

Given that the principle so clearly deserves to be supported, we will be voting in favour of the principle of the motion. We will then move to the second stage of the new procedure, which allows us to provide a more detailed response. However, it is only fair to advise the Assembly that legal advice already suggests that there may be obstacles to achieving Christine's aims by formally requiring local authorities to exercise their general powers in relation to looked after children in a specific way. However, that is a matter for the next stage, and if today's debate comes to a successful conclusion, we will return to the Assembly within three months with a report on the feasibility of the proposal as set out in the motion. It is our intention to use the next three months to consider a range of ways in which the principle behind the proposal could be put into practice. I look forward to hearing from Members on how we could take that forward.

I hope that Members will agree that the new process that we are adopting, under Standing Order No. 31, is working well, in the sense

gael sicrwydd ariannol yn y dyfodol.

Mae'r gronfa ymddiriedolaeth plant yn esiampl wych o'r hyn y gall y wladwriaeth les gyfoes ei ddarparu, ac mae'n amlwg bod yn rhaid inni sicrhau ei bod yn deg yn ei darpariaeth ac yn lledaenu effaith bod ag asedau i blant a fyddai fel arall yn dra annhebygol o gael y fantais honno. Wrth wneud hynny, mae'n newid agweddau ac ymddygiad, yn cynnig cyfle ac yn rhoi hawl newydd. Byddai unrhyw rieni cyfrifol yn dymuno buddsoddi yn nyfodol eu plentyn, ac nid oes arnom eisiau dim llai i'r plant sy'n derbyn ein gofal ni. Fel y dywedodd Christine, nodwyd hyn fel argymhelliad allweddol yn adroddiad Huw Lewis ar orddyled yng Nghymru, a drafodwyd gennym ddod yng nghyfarfod cyngor partneriaeth y sector gwirfoddol. Gyda golwg ar gyfiawnder cymdeithasol ac adfywio, mae'n dda ein bod wedi gallu dilyn hyn drwodd a thynnu sylw arbennig ato yn y ddadl y prynhawn yma o ganlyniad i'r cynnig.

Gan ei bod mor amlwg bod yr egwyddor yn haeddu cael ei chefnogi, byddwn yn pleidleisio o blaid egwyddor y cynnig. Yna fe symudwn at ail gam y drefn newydd, sydd yn caniatáu inni roi ymateb mwy manwl. Fodd bynnag, dim ond teg yw hysbysu'r Cynulliad fod cyngor cyfreithiol eisoes yn awgrymu y gall fod rhwystrau i wireddu amcanion Christine drwy fynnu'n ffurfiol fod awdurdodau lleol yn arfer eu pwerau cyffredinol mewn perthynas â phlant sy'n derbyn gofal mewn ffordd benodol. Fodd bynnag, mater i'r cam nesaf yw hynny, ac os daw'r ddadl heddiw i ddiwedd glo llwyddiannus, deawn yn ôl i'r Cynulliad o fewn tri mis gydag adroddiad ar ymarferoldeb y cynnig fel y'i cyflwynwyd yma. Ein bwriad yw defnyddio'r tri mis nesaf i ystyried amrediad o ffyrdd y gellid gweithredu'r egwyddor sy'n sail i'r cynnig. Edrychaf ymlaen at glywed oddi wrth Aelodau sut y gallem fwrw ymlaen â hynny.

Gobeithiaf y bydd yr Aelodau'n cytuno bod y broses newydd yr ydym yn ei mabwysiadu, dan Reol Sefydlog Rhif 31, yn gweithio'n

that we can debate the principle of this important motion, which promotes the interests of looked-after children in the context of the child trust fund accounts. The Assembly Government is keen to support that principle and, if the motion is supported by the Assembly, it will use the next three months to give positive and constructive consideration to how it might put the principle into practice. I look forward to hearing the debate.

The Deputy Presiding Officer: According to what was agreed by the Business Committee, I am now required to call Members from each of the parties.

Gwenda Thomas: The amendment that I was to propose to the motion has been withdrawn, in accordance with the new procedures for dealing with Standing Order No. 31 debates. However, notwithstanding the underlying purpose of my amendment, I am fully supportive of the aims and principles of the motion. The child trust funds are a means of furthering social justice and equality of opportunity. Christine referred to the interpretation of the Children Act 1989, which places a clear duty on local authorities to safeguard and promote the wellbeing of children, and this includes acting so that children in their care are not placed at a disadvantage. However, the Act does not give the Assembly the power to define precisely how local authorities implement their duty and does not, therefore, obligate them to introduce specific policies. Section 17(6) of the Act states that

‘The services provided by a local authority in the exercise of functions conferred on them by this section may include giving assistance in kind or, in exceptional circumstances, in cash’.

The launch of the child trust fund accounts this year creates a need to accept that a child in care is in an exceptional situation. At its meeting on 24 January, the Cabinet sub-committee on children and young people considered a briefing paper on the UK Government’s child trust fund, which had been launched on 11 January. Paragraph 5 of that paper states that

dda, yn yr ystyr ein bod yn gallu dadlau ynghylch egwyddor y cynnig pwysig hwn, sydd yn hybu buddiannau plant sy’n derbyn gofal yng nghyd-destun cyfrifon cronfeydd ymddiriedolaeth plant. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn awyddus i gefnogi’r egwyddor honno ac, os cefnogir y cynnig gan y Cynulliad, bydd yn defnyddio’r tri mis nesaf i roi ystyriaeth gadarnhaol ac adeiladol i’r modd y gellid rhoi’r egwyddor ar waith. Edrychaf ymlaen at glywed y ddadl.

Y Dirprwy Lywydd: Yn ôl yr hyn y cytunwyd arno gan y Pwyllgor Busnes, mae’n ofynnol yn awr imi alw ar Aelodau o bob un o’r pleidiau.

Gwenda Thomas: Mae’r gwelliant yr oeddwn yn bwriadu ei gynnig wedi’i dynnu’n ôl, yn unol â’r gweithdrefnau newydd ar gyfer delio â dadleuon Rheol Sefydlog Rhif 31. Serch hynny, beth bynnag am bwrpas sylfaenol fy ngwelliant, yr wyf yn llwyr gefnogi amcanion ac egwyddorion y cynnig. Mae’r cronfeydd ymddiriedolaeth plant yn fodd o hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol a chyfle cyfartal. Cyfeiriodd Christine at y dehongliad o Deddf Plant 1989, sydd yn gosod dyletswydd glir ar awdurdodau lleol i ddiogelu a hybu lles plant, ac mae hyn yn cynnwys gweithredu fel na roir plant yn eu gofal dan anfantais. Fodd bynnag, nid yw’r Ddeddf yn rhoi’r hawl i’r Cynulliad ddiffinio’n union sut y dylai awdurdodau lleol gyflawni eu dyletswydd ac ni all, felly, eu gorfodi i gyflwyno polisiau penodol. Yn ôl adran 17(6) y Ddeddf

Gall y gwasanaethau a ddarperir gan awdurdod lleol wrth arfer y swyddogaethau a roddir iddynt gan yr adran hon gynnwys rhoi cymorth ymarferol neu, dan amgylchiadau eithriadol, rhoi arian.

Mae lansio’r cyfrifon cronfeydd ymddiriedolaeth plant eleni yn creu angen i dderbyn bod plentyn sy’n derbyn gofal mewn sefyllfa eithriadol. Yn ei gyfarfod ar 24 Ionawr, ystyriodd is-bwyllgor y Cabinet ar blant a phobl ifanc bapur briffio ar gronfa ymddiriedolaeth plant Llywodraeth y DU, a lansiwyd ar 11 Ionawr. Dywed paragraff 5 y papur hwnnw

‘Although local authorities will not be able to manage CTF accounts, they will be able to contribute to a CTF account if they wish—for example, on birthdays or at Christmas’.

Recommendation 58 of the Waterhouse report is also relevant. It states that

‘Elected members should from time to time be advised about and reminded of their responsibilities to develop policy and to oversee and monitor the discharge by the local authority of its parental obligations towards looked after children’.

The principles contained in Christine’s motion embrace this recommendation. Even though the Minister cannot commit the Welsh Assembly Government to legislate on this issue, the Assembly must strive to ensure that we endorse and take forward the aims and the principle of Christine’s motion. Child trust funds are a UK Government initiative, as we have heard, and a non-devolved issue. However, under section 33 of the Government of Wales Act 1998, the National Assembly for Wales has the power to consider and to make appropriate representations about any matter affecting Wales. Christine’s motion would affect some of Wales’s most vulnerable children. I would therefore suggest, Minister, that you open a dialogue with the Welsh Local Government Association, possibly with the equality unit, with a view to finding a way forward for this motion. For the sake of all children being looked after by local authorities in Wales, this motion deserves our support.

David Lloyd: Looked-after children often experience poor educational outcomes, which impact negatively on their employment prospects and life chances, as we have heard. There is a strong link between children in care and social exclusion. Between a quarter and a third of rough sleepers were looked after by local authorities as children. Over a quarter of prisoners were in care as children, and children who have been in care are disproportionately more likely to become unemployed. The poor experiences and low

Er na fydd awdurdodau lleol yn gallu rheoli cyfrifon cronfeydd ymddiriedolaeth plant, byddant yn gallu cyfrannu at gyfrif o’r fath os dymunant—er enghraifft, ar ben-blwydd neu adeg y Nadolig.

Mae argymhelliad 58 yn adroddiad Waterhouse yn berthnasol hefyd. Mae’n datgan

‘Dylid hysbysu ac atgoffa aelodau etholedig o bryd i’w gilydd am eu cyfrifoldebau i ddatblygu polisi ac i oruchwylio a monitro’r modd y mae’r awdurdod lleol yn cyflawni ei rwymedigaethau fel rhiant tuag at blant sy’n derbyn gofal’.

Mae’r egwyddorion sydd yng nghynnig Christine yn cynnwys yr argymhelliad hwn. Er nad yw’r Gweinidog yn gallu rhwymo Llywodraeth y Cynulliad i ddeddfu ar y mater hwn, rhaid i’r Cynulliad ymdrechu i sicrhau ein bod yn cefnogi ac yn symud ymlaen gyda nodau ac egwyddorion cynnig Christine. Mae cronfeydd ymddiriedolaeth plant yn un o gynlluniau Llywodraeth y DU, fel y clywsom, ac yn fater heb ei ddatganoli. Fodd bynnag, o dan adran 33 Deddf Llywodraeth Cymru 1998, mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru y pŵer i ystyried a chynnig sylwadau priodol ar unrhyw fater sy’n effeithio ar Gymru. Byddai cynnig Christine yn effeithio ar rai o’r plant mwyaf agored i niwed yng Nghymru. Awgrymaf, felly, Weinidog, eich bod yn dechrau cynnal trafodaethau gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, gyda’r uned cydraddoldeb o bosibl, er mwyn canfod ffordd i symud ymlaen gyda’r cynnig hwn. Er mwyn pob plentyn sy’n derbyn gofal gan awdurdodau lleol yng Nghymru, mae’r cynnig hwn yn haeddu ein cefnogaeth.

David Lloyd: Mae plant sy’n derbyn gofal yn aml yn profi canlyniadau addysgol gwael sy’n cael effaith negyddol ar eu siawns o gael gwaith a’u siawns mewn bywyd, fel y clywsom. Mae cysylltiad cryf rhwng plant mewn gofal ac allgáu cymdeithasol. Yr oedd rhwng chwarter a thraean y bobl sy’n cysgu allan ar y stryd yng ngofal awdurdodau lleol pan oeddent yn blant. Yr oedd dros chwarter y carcharorion mewn gofal fel plant, ac mae’r tebygrwydd y bydd plant sydd wedi bod mewn gofal yn ddi-waith yn uwch o lawer.

educational attainment of many children in care contributes to their later social exclusion, and has high social and economic costs.

The Wales leaving care forum conference report, published in October 2003 by the Assembly included the key message that young people leaving care require:

‘ongoing personal and financial support in order to succeed’.

However, Christine’s motion offers an opportunity to close the gap between looked-after children and other young people. As previously mentioned, when leaving care, children and young people often have little financial and personal support, and low levels of educational attainment that can impact upon their employability.

During a Health and Social Services Committee meeting, the health Minister has alluded to the fact that local authorities have the discretion to contribute to the trust fund of a child that is under their responsibility. However, this motion places a compulsion on local authorities to do so. So if this motion is carried, we must ensure that each child in every local authority benefits to the same extent, otherwise we will see disparity in each local authority area. This is the problem as it stands today, as local authorities have only the discretion to contribute.

Furthermore, if this motion is carried, we must also ensure that sufficient resources are made available by this Government for its implementation, and to honour the Minister’s commitment to fully fund the national responsibilities that are passed on to local government. Otherwise, it places an additional burden on already-overstretched local government resources. So, there are some questions for Christine to answer, and possibly the Welsh Assembly Government later on. For instance, can Christine clarify whether she thinks that the £50 contribution mentioned in her ‘resource implications’ is sufficient when there is a possibility of

Mae profiadau gwael a chyrhaeddiad addysgol isel llawer o blant mewn gofal yn cyfrannu at allgáu cymdeithasol yn ddiweddarach yn eu bywyd, ac mae costau cymdeithasol ac economaidd hynny’n uchel.

Roedd adroddiad cynhadledd fforwm gadael gofal Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2003, yn cynnwys y casgliad allweddol bod angen:

cymorth personol ac ariannol parhaus ar bobl ifanc er mwyn iddynt lwyddo.

Fodd bynnag, mae cynnig Christine yn cynnig cyfle i gau’r gagedor rhwng plant sy’n derbyn gofal a phobl ifanc eraill. Fel y nodwyd yn flaenorol, pan fyddant yn gadael gofal, ychydig iawn o gymorth ariannol a phersonol sydd ar gael i bobl ifanc yn aml, a gall lefelau isel o gyrhaeddiad addysgol effeithio ar eu siawns o ddod o hyd i waith.

Mewn cyfarfod o’r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, cyfeiriodd y Gweinidog dros Iechyd at y ffaith bod gan awdurdodau lleol hawl i ddewis a ydynt am gyfrannu at gronfa ymddiriedolaeth plentyn y maent yn gyfrifol amdano. Fodd bynnag, mae’r cynnig hwn yn gorfodi awdurdodau lleol i wneud hynny. Felly, os caiff y cynnig hwn ei dderbyn, rhaid inni sicrhau bod pob plentyn ym mhob awdurdod lleol yn elwa i’r un graddau, neu byddwn yn gweld gwahaniaeth rhwng ardaloedd awdurdodau lleol. Hyn yw’r broblem fel y mae pethau heddiw, gan mai’r awdurdodau lleol eu hunain sy’n penderfynu a ydynt am gyfrannu ai peidio.

Hefyd, os caiff y cynnig hwn ei dderbyn, rhaid inni sicrhau bod adnoddau digonol yn cael eu neilltuo gan y Llywodraeth hon i weithredu’r cynllun, ac i gyflawni ymrwymiad y Gweinidog i ariannu’n llawn y cyfrifoldebau cenedlaethol sy’n cael eu trosglwyddo i lywodraeth leol. Fel arall, bydd yn golygu baich ychwanegol ar adnoddau llywodraeth leol sydd eisoes wedi eu hymestyn i’r eithaf. Felly, mae rhai cwestiynau y mae’n rhaid i Christine eu hateb, a Llywodraeth Cynulliad Cymru o bosibl yn ddiweddarach. Er enghraifft, a all Christine egluro a yw hi’n credu bod y cyfraniad o £50 a grybwyllwyd ganddi yn ei

making £1,200 available? Can she also clarify what guidance should be given to local authorities regarding the accounts that may be set up?

There are obviously complications, because the needs of looked-after children vary immensely. Some may have permanently lost contact with their birth family, others experience only short periods in care, perhaps under a respite order. The needs of those in voluntary care differ from those under a care order; the needs of those placed for adoption differ from those placed under special guardianship, and so on. What happens when children spend lesser amounts of time in care, or are in and out of care and therefore may receive lesser contributions compared with children who are continuously in care?

To conclude, having raised those caveats, the motion asks us to support, in principle, legislation to require local authorities, as part of their corporate parenting responsibilities to provide an annual contribution to the child trust funds of the children that they look after. Plaid Cymru is content to support that general principle.

Brynle Williams: This issue has been subject to much debate in recent years. My party in Westminster has welcomed the Government's decision to accept substantive changes, many of which were proposed by the Conservative Party. It is a shame that the Liberal Democrats opposed the Bill. As a Conservative, I support the principle behind the new child trust fund but I must express my concerns about the detail.

Due to the Conservative Party amendments to the Bill, we saw a 1.5 per cent charge cap for the stakeholder child trust fund as opposed to the initial 1 per cent. This will mean more child trust providers and a greater effort to market to lower income families, something that I want to see. We are pleased that the Government has allowed parents to open their child's trust fund by telephone or via the

'goblygiadau adnoddau' yn ddigon pan fo'n bosibl rhyddhau £1,200? A all hefyd egluro pa arweiniad y dylid ei roi i awdurdodau lleol o ran y cyfrifon y gellid eu hagar?

Mae'r sefyllfa'n amlwg yn gymhleth, gan fod anghenion pob plentyn sy'n derbyn gofal yn amrywio'n sylweddol iawn. Bydd rhai wedi colli cysylltiad â'u teulu biolegol am byth, bydd eraill mewn gofal am gyfnodau byr yn unig, o dan orchymyn seibiant efallai. Mae anghenion y rhai mewn gofal gwirfoddol yn wahanol i'r rhai sydd o dan orchymyn gofal, mae anghenion rhai sydd wedi eu lleoli ar gyfer eu mabwysiadu'n wahanol i rai a leolir o dan warcheidiaeth arbennig, ac yn y blaen. Beth fydd yn digwydd pan fydd plant yn treulio cyfnodau byrrach mewn gofal, neu pan fydd plant yn mynd yn ôl ac ymlaen o ofal ac felly'n derbyn cyfraniadau llai o gymharu â phlant sydd mewn gofal parhaus?

I gloi, ar ôl codi'r amheuon hyn, mae'r cynnig yn gofyn inni gefnogi, mewn egwyddor, ddeddfwriaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol, fel rhan o'u cyfrifoldebau rhianta corfforaethol, roi cyfraniad blynyddol at gronfeydd ymddiriedolaeth plant y plant y maent yn gofalu amdanynt. Mae Plaid Cymru'n fodlon cefnogi'r egwyddor gyffredinol honno.

Brynle Williams: Mae'r mater hwn wedi bod yn destun llawer o drafod dros y blynyddoedd diwethaf. Mae fy mhlaid yn San Steffan wedi croesawu penderfyniad y Llywodraeth i dderbyn newidiadau sylweddol, gyda llawer ohonynt wedi eu cynnig gan y Blaid Geidwadol. Mae'n drueni bod y Democratiaid Rhyddfrydol wedi gwrthwynebu'r Mesur. Fel Ceidwadwr, yr wyf yn cefnogi'r egwyddor sydd wrth wraidd y gronfa ymddiriedolaeth plant newydd ond rhaid imi fynegi fy mhryderon ynglŷn â'r manylion.

O ganlyniad i welliannau'r Blaid Geidwadol i'r Mesur, gwelsom gap taliadau o 1.5 y cant yn cael ei osod ar y gronfa ymddiriedolaeth plant i gyfranddeiliaid o'i gymharu â'r 1 y cant gwreiddiol. Bydd hyn yn golygu rhagor o ddarparwyr ymddiriedolaethau plant a mwy o ymdrech i'w marchnata ymhlith teuluoedd ar incwm isel, rhywbeth yr hoffwn ei weld. Yr ydym yn falch o weld bod y Llywodraeth

internet. It is essential to offer this facility to as many families as possible, as many will find this a much easier option, due to the pressures of work and families.

wedi caniatáu i rieni agor cronfa ymddiriedolaeth eu plant dros y ffôn neu drwy'r rhynggrwyd. Mae'n bwysig bod y cyfleuster hwn ar gael i gynifer o deuluoedd â phosibl, gan y bydd hyn yn opsiwn rhwyddach i lawer, oherwydd pwysau gwaith a theuluoedd.

5.20 p.m.

The issue of releasing funds for children with a terminal illness provides for a lot of debate between the various political parties. I was delighted to hear that the Government has accepted the Conservative Party's suggestion of allowing children with a terminal illness to access their funds to pay for treatment or even a special holiday.

Mae cwestiwn rhyddhau arian i blant sydd â salwch terfynol yn achosi llawer o ddadlau rhwng y gwahanol bleidiau gwleidyddol. Yr oeddwn yn falch iawn o glywed bod y Llywodraeth wedi derbyn awgrym y Blaid Geidwadol i ganiatáu i blant sydd â salwch terfynol gael arian o'u cronfa i dalu am driniaeth neu hyd yn oed gwyliau arbennig.

Minister, the motion laid before us today must be broadly welcomed, but with some reservations. I would be grateful if you could answer the following question: what discussions have you had with local authorities regarding the cost implications of the proposals? I have had informal discussions with one local authority, which was unaware that this motion was being discussed today, which is of grave concern to me. We must ensure that we do not impose regulations with cost implications on local authorities, without their being fully funded.

Weinidog, rhaid rhoi croeso cyffredinol i'r cynnig sydd wedi ei roi gerbron heddiw, ond gyda rhai pryderon. Byddwn yn ddiolchgar pe baech yn ateb y cwestiwn canlynol: pa drafodaethau yr ydych wedi eu cael gydag awdurdodau lleol ynghylch goblygiadau'r cynigion o ran y gost? Yr wyf wedi cael trafodaethau anffurfiol gydag un awdurdod lleol, na wyddai fod y cynnig hwn yn cael ei drafod heddiw, ac mae hynny'n peri pryder mawr imi. Rhaid inni sicrhau nad ydym yn gorfodi rheoliadau sydd â goblygiadau o ran cost ar awdurdodau lleol, oni bai eu bod wedi eu hariannu'n llawn.

I am also advised that up to 2 million recipients have yet to cash their cheques. What action are you taking to evaluate the position in Wales? In conclusion, my group is happy to support the motion, with the amendment in principle, but hope that lessons can be learned today regarding consultation.

Yr wyf hefyd yn deall bod hyd at 2 filiwn o dderbynwyr sydd heb gyfnewid eu sieciau am arian eto. Pa gamau yr ydych yn eu cymryd i bwysu a mesur y sefyllfa yng Nghymru? I gloi, mae fy ngrŵp yn fodlon cefnogi'r cynnig, gyda'r gwelliant mewn egwyddor, ond gobeithiaf y bydd gwersi'n cael eu dysgu heddiw o ran ymgynghori.

Jenny Randerson: I preface my remarks by saying that I welcome this first use of the new procedure for private Member's legislation. I also welcome the fact that the amendment has been withdrawn, because it was certainly not the intention of the Business Committee for amendments to be proposed at this early stage.

Jenny Randerson: Cyn gwneud fy sylwadau hoffwn ddweud fy mod yn croesawu'r defnydd cyntaf hwn o'r weithdrefn newydd ar gyfer deddfwriaeth Aelod preifat. Yr wyf hefyd yn croesawu'r ffaith bod y gwelliant wedi ei dynnu'n ôl, oherwydd yn sicr nid oedd yn fwrriad gan y Pwyllgor Busnes weld gwelliannau'n cael eu cynnig yn ystod y cam cynnar hwn.

However, the Welsh Liberal Democrats will not support this proposal. As Brynle has

Fodd bynnag, ni fydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru'n cefnogi'r cynnig. Fel y

pointed out, our party does not support the child trust fund, because we think that there are many better ways of spending the money available and of encouraging young people to save. I would say that it is one of the more off-the-wall ideas of Prudence Brown. Frankly, the amount of money involved, at its base level, will be insignificant for young people when they reach the age of 18, in comparison with, for example, the level of debt that they would face if they went on to university. In practice, it will often be used for things such as an additional holiday for middle-class children.

We believe that this money would be much better used now, not locked away in a bank account for 18 years. It could be used to achieve smaller class sizes, to offset the costs of childcare, or even to provide 'Kelly hours' for schoolchildren.

Jeff Cuthbert: Are you suggesting that you oppose this proposal as a means of plugging the gap if there is not a graduate contribution? Are we to take it that that is what you mean? Is not the purpose of this scheme to encourage young people, their parents, and those looking after them to save on their behalf?

Jenny Randerson: I have pointed out that there are other ways of encouraging saving. I will go on to develop my point in a moment. I do not believe that the poorest families will be able to contribute to this scheme.

We do not believe that it is reasonable to require, or even to advise or encourage, social services departments to contribute to an annual top-up of the child trust fund accounts of the children who are looked after by them. For a start, this presumes that children who live with their families will benefit from that top-up. The evidence appears to be that this will not be the norm, by any means.

Christine referred to the availability of tax breaks. I am afraid that many hundreds of thousands of families in this country are unable to take advantage of tax breaks of this nature in order to go in for voluntary saving.

dywedodd Brynle, nid yw ein plaid yn cefnogi'r gronfa ymddiriedolaeth plant, oherwydd ein bod o'r farn bod dulliau llawer gwell o wario'r arian sydd ar gael ac i annog pobl ifanc i gynilo. Yr wyf yn credu bod hwn yn un o syniadau mwy gwallgof Prudence Brown. A bod yn onest, bydd swm yr arian sydd ar gael, ar ei lefel sylfaen, yn fach iawn erbyn i bobl ifanc gyrraedd 18 oed, o'i gymharu, er enghraifft, â lefel y ddyled y byddent yn ei hwynebu pe baent yn mynd ymlaen i brifysgol. Yn ymarferol, bydd yr arian yn aml yn cael ei wario ar bethau fel gwyliau ychwanegol i blant dosbarth canol.

Yr ydym yn credu y byddai'n well defnyddio'r arian hwn yn awr, yn hytrach na'i roi o'r neilltu mewn cyfrif banc am 18 mlynedd. Gellid ei ddefnyddio i sicrhau dosbarthiadau llai mewn ysgolion, gellid ei osod yn erbyn costau gofal plant, neu hyd yn oed i ddarparu 'oriau Kelly' i ddisgyblion ysgol.

Jeff Cuthbert: A ydych yn awgrymu eich bod yn gwrthwynebu'r cynnig hwn fel modd i gau'r bwlch os na fydd cyfraniad gan raddedigion? A ydym i gredu mai hynny sydd gennych mewn golwg? Onid pwrpas y cynllun hwn yw annog pobl ifanc, eu rhieni, a'r rhai sy'n edrych ar eu hôl, i gynilo ar eu rhan?

Jenny Randerson: Yr wyf wedi dweud bod ffyrdd eraill i annog pobl i gynilo. Byddaf yn datblygu fy mhwynt mewn munud. Nid wyf yn credu y bydd y teuluoedd tlotaf yn gallu cyfrannu at y cynllun hwn.

Nid ydym o'r farn ei bod yn rhesymol gorfodi, na hyd yn oed cynghori neu annog, adrannau gwasanaethau cymdeithasol i gyfrannu swm blynyddol at gyfrifon cronfa ymddiriedolaeth plant y plant y maent yn gofalu amdanynt. I ddechrau, mae hyn yn rhagdybio y bydd plant sy'n byw gyda'u teuluoedd yn elwa ar y swm ychwanegol hwnnw. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu nad hyn fydd y norm o bellffordd.

Cyfeiriodd Christine at y manteision treth sydd ar gael. Mae arnaf ofn bod miloedd o deuluoedd yn y wlad na fyddant yn gallu manteisio ar y rhain er mwyn dechrau cynilo'n wirfoddol. Mae'r dystiolaeth yn

The evidence is that many families will not make annual contributions to such a scheme, as was suggested.

Secondly, we all know that social services departments are badly strapped for cash. They suffer from a lack of funding and shortage of staff, the latter often being because of low levels of pay. If you look at the joint reviews undertaken, you will get a picture throughout Wales of social services departments badly lacking money, and massive problems in young people and children's services as a result.

The big question is: where will this top-up money come from? We do not support the proposal, as the money would have to come from the budgets for other services provided by social services departments. I do not subscribe to Dai's point of view that we have to ensure that the money is extra—it certainly will not be extra. You know as well as I do, Dai, that we have a cake that we have to cut into slices; adding to one slice, for social services in this proposal, means taking a bit off another slice. The danger is that that will be taken from the social services' slice of the cake, from the other services that they provide. It will certainly not be the case that the UK Government gives us money on top of the Barnett formula for this, and that is obvious from the withdrawn amendment. The last thing that social services departments need, therefore, is for their limited resources to be siphoned off on the grounds that jam tomorrow is more important than bread today.

Vulnerable young people need investment now. We need to concentrate on providing them with the very best start in life, and not on diverting resources to a very small pot of gold at the end of a rainbow. The way to change the concentration of property in the hands of the few, to which Christine referred, is to give young children the best care and the best skills.

awgrymu na fydd llawer o deuluoedd yn gwneud cyfraniadau blynyddol at gynllun o'r fath, fel yr awgrymwyd.

Yn ail, yr ydym i gyd yn gwybod bod adrannau gwasanaethau cymdeithasol yn brin iawn o arian. Maent yn dioddef o brinder arian a staff, yr olaf yn cael ei achosi yn aml gan lefelau cyflog isel. Os edrychwch ar yr cyd-adolygiadau a gynhaliwyd, cewch ddarlun o'r sefyllfa ledled Cymru, gydag adrannau gwasanaethau cymdeithasol yn dioddef yn enbyd o ddiffyg arian, a phroblemau enfawr mewn gwasanaethau pobl ifanc a phlant yn deillio o hynny.

Y cwestiwn mawr yw o ble y daw'r arian ychwanegol hwn? Nid ydym yn cefnogi'r cynnig, gan y byddai'n rhaid i'r arian ddod o gyllidebau ar gyfer gwasanaethau eraill a ddarperir gan adrannau gwasanaethau cymdeithasol. Nid wyf yn derbyn pwynt Dai bod rhaid inni sicrhau bod yr arian yn arian ychwanegol—gallwn fod yn sicr na fydd yn arian ychwanegol. Gwyddoch cystal â minnau, Dai, fod gennym gacen sy'n rhaid ei thorri'n dafellau; mae ychwanegu at un dafell, ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yn y cynnig hwn, yn golygu torri tamaid oddi ar dafell arall. Y perygl yw y bydd y tamaid hwnnw'n cael ei gymryd o dafell y gwasanaethau cymdeithasol o'r gacen, oddi ar y gwasanaethau eraill a ddarperir ganddynt. Yn sicr ni fydd Llywodraeth y DU yn rhoi arian inni ar gyfer hyn sy'n ychwanegol at fformiwla Barnett, ac mae hynny'n amlwg oddi wrth y gwelliant a dynnwyd yn ôl. Y peth olaf y mae ar adrannau gwasanaethau cymdeithasol ei eisiau felly, yw gweld eu hadnoddau prin yn cael eu sugno ymaith oherwydd y gred bod addewid yfory yn bwysicach nag anghenion heddiw.

Mae angen buddsoddi yn awr mewn pobl ifanc sy'n agored i niwed. Mae angen inni ganolbwyntio ar roi'r dechrau gorau posibl iddynt mewn bywyd, a pheidio â dargyfeirio adnoddau i gawg bach o aur ym mhen draw'r enfys. Y ffordd i newid y modd y mae eiddo'n cael ei grynhoi ym meddiant y lleiafrif, rhywbeth y cyfeiriodd Christine ato, yw drwy roi'r gofal gorau a'r sgiliau gorau i blant ifanc.

For the Welsh Liberal Democrats, the first priority must be to eradicate the woeful educational underachievement of the vast majority of children in care. That is what will make the greatest contribution towards improving their life chances. This needs to be done by properly resourcing social services departments and by properly resourcing educational support for young people in care. That will not be achieved by the child trust fund and putting even more burdens on social services departments.

Huw Lewis: As has been said, the proposal before us emerged as a recommendation in my review of overindebtedness, which has been circulated as a document prior to discussion at committee. Never before has a Government instituted a transfer of capital in this way to its citizens. Coupled with that, Labour's enhanced commitment to children from less well-off households in particular will represent, over time, a substantial redistribution of wealth, which is presumably why the Liberal Democrats baulk at the issue. They are continually interested in equality of opportunity, which is all very well, but they cannot stomach equality of outcome. That is where they fall at the fence.

This proposal will benefit all at a key stage in life. When many leave home to become independent by entering the workplace or going on to further or higher education, it will provide a lump sum on entering adulthood, which was previously an option available only to those with well-off parents. I do not accept that the poor and less well off are simply too feckless, as the Lib Dems argue, to engage with this strategy. It is wholly right and proper—

Jenny Randerson: Will you give way?

Huw Lewis: Only if time permits. I see that it does. Very well.

Jenny Randerson: Huw, I think that you suffered from lack of concentration when I was speaking; I made entirely the opposite

I Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru, y flaenoriaeth gyntaf yw rhoi diwedd ar y tangyflawni addysgol truenus sydd i'w weld ymhlith mwyafrif llethol y plant sy'n derbyn gofal. Dyna fyddai'r cyfraniad mwyaf tuag at wella eu siawns mewn bywyd. Mae angen gwneud hyn drwy sicrhau adnoddau digonol i adrannau gwasanaethau cymdeithasol a thrwy sicrhau adnoddau digonol ar gyfer cefnogaeth addysgol i bobl ifanc sy'n derbyn gofal. Ni ellir cyflawni hyn drwy'r gronfa ymddiriedolaeth plant a rhoi beichiau trymach fyth ar adrannau gwasanaethau cymdeithasol.

Huw Lewis: Fel y dywedwyd eisoes, ymddangosodd y cynnig sydd gerbron am y tro cyntaf fel argymhelliad yn fy adolygiad o orddyled, a ddsbarthwyd fel dogfen cyn ei drafod yn y pwyllgor. Nid oes yr un Llywodraeth, erioed o'r blaen, wedi trosglwyddo cyfalaf fel hyn i'w dinasyddion. Ochr yn ochr â hynny, mae ymrwymiad pellach Llafur i blant o deuluoedd llai breintiedig, yn fwyaf arbennig, yn golygu, dros amser, aiddosbarthu sylweddol o ran cyfoeth, a dyna pam, mae'n debyg y mae'r Democratiaid Rhyddfrydol yn gwrthwynebu'r cynnig. Maent wrthi'n barhaus yn sôn am gyfle cyfartal, sy'n ddigon teg, ond ni allant ddiodeff canlyniadau cyfartal. Dyna lle y maent yn dangos eu lliwiau.

Bydd y cynnig hwn o fudd i bawb mewn cyfnod allweddol yn eu bywyd. Pan fydd llawer yn gadael cartref i fod yn annibynnol, drwy ymuno â'r gweithlu neu fynd ymlaen i addysg bellach neu uwch, bydd yn rhoi swm sylweddol o arian i bobl ifanc wrth iddynt ddod yn oedolion, rhywbeth nad oedd ar gael yn flaenorol ond i rai â rhieni cefnog. Nid wyf yn derbyn bod y tlawd a'r llai ffyniannus yn rhy ddi-hid, fel y mae'r Democratiaid Rhyddfrydol yn honni, i fanteisio ar y strategaeth. Mae'n gwbl gywir a phriodol—

Jenny Randerson: A wnewch ildio?

Huw Lewis: Dim ond os bydd amser yn caniatáu. Gwelaf ei fod. O'r gorau.

Jenny Randerson: Huw, ofnaf nad oeddech yn canolbwyntio pan oeddwn yn siarad; yr oedd yr hyn a ddywedais yn gwbl groes i'r

point. Those on limited incomes would be completely unable to take advantage of the tax breaks offered in the strategy, and the proposal offers a perk to the middle classes that is not being offered to those in society who are poorer.

Huw Lewis: And that comes from the party that has been busy with its Conservative allies and others arguing for massive bungs for the middle classes through a higher education subsidy over the last few weeks. There was no lapse in my concentration; as the originator of this proposal and the idea, I can assure you that I concentrated very hard on looking at the implications and outcomes of this policy. If it is the case that people find it difficult to make regular contributions, and ‘toppings-up’, then let us look at how the Assembly can apply this kind of thinking to those sections of the community also. For looked-after children, perhaps this is just the beginning.

5.30 p.m.

It is wholly right and proper that local authorities, as a corporate parent of looked-after children, behave as a good parent should, and top-up the baby bonds of those young people.

I am delighted that Christine Chapman has had the opportunity and the will to fast-track this idea through the Standing Order No. 31 procedure, and I thank her for that. I hope that we can learn from this and perhaps extend this thinking to address wider groups of young people that might benefit from an Assembly Government dividend such as this.

Christine Chapman: I thank Members for their contributions. I reiterate that this is an important subject, as we should be looking to widen the benefits of child trust funds as far as possible. I thank Gwenda for the practical suggestions she made about how to move forward if the motion is carried today.

I thank Dai for reminding the Assembly how necessary it is to intervene early on to affect

hyn yr ydych yn ei honni. Byddai pobl ar incwm isel yn gwbl analluog i fanteisio ar y manteision treth a gynigir yn y strategaeth, ac mae'r cynnig yn rhoi manteision i'r dosbarth canol nad ydynt ar gael i rai tlotach yn ein cymdeithas.

Huw Lewis: A daw hyn oddi wrth y blaid sydd wedi bod yn brysur gyda'i chymheiriaid Ceidwadol, ac eraill, yn dadlau dros yr wythnosau diwethaf o blaid manteision ariannol enfawr i'r dosbarth canol yn sgîl cymhorthdal addysg uwch. Ni fu diffyg yn fy nghanolbwyntio; fel sbardunwr y cynnig a'r syniad hwn, gallaf eich sicrhau fy mod wedi bod yn canolbwyntio'n fawr iawn ar oblygiadau a chanlyniadau'r polisi hwn. Os bydd pobl yn ei chael yn anodd gwneud cyfraniadau rheolaidd, a 'chyfraniadau atodol', yna gadewch i ni ystyried sut y gall y Cynulliad beri i'r ffordd hon o feddwl fod yn berthnasol i'r adrannau hynny o'r gymuned hefyd. Gyda phlant sy'n derbyn gofal, efallai mai dim ond megis dechrau yw hyn.

Mae'n gwbl gywir a phriodol bod awdurdodau lleol, fel rhieni corfforaethol plant sy'n derbyn gofal, yn ymddwyn fel y dylai rhiant da ymddwyn, ac ychwanegu at yr arian a roir i'r bobl ifanc hynny pan fônt yn fabanod.

Rwyf wrth fy modd bod Christine Chapman wedi cael y cyfle, a'r ewyllys, i osod y syniad hwn ar lwybr cyflym trefn Gorchymyn Sefydlog 31, ac rwy'n diolch iddi am hynny. Gobeithiaf y gallwn ddysgu o hyn ac, o bosibl, ehangu'r meddylfryd hwn i fynd i'r afael â grwpiau ehangach o bobl ifanc a allai elwa ar ddifidend cyffelyb gan Lywodraeth y Cynulliad.

Christine Chapman: Rwy'n diolch i'r Aelodau am eu cyfraniadau. Dywedaf eto fod hwn yn bwnc pwysig, a dylem geisio ehangu buddiannau cronfeydd ymddiriedolaeth plant cyn belled â phosibl. Yr wyf yn diolch i Gwenda am yr awgrymiadau ymarferol a wnaeth yn glŷn â'r ffordd ymlaen, os yw'r cynnig yn llwyddo heddiw.

Yr wyf yn diolch i Dai am atgoffa'r Cynulliad o'r rheidrwydd i ymyrryd yn

the life chances of young people who are particularly vulnerable. You asked about the sum of money—in my proposal, I suggested that £50 be used to top this up. It would be a small amount, but I do not want to get into too much of a debate about that today, because the Welsh Assembly Government would have to do work on that if this is taken forward.

I thank Brynle for the broad welcome that his party gave to the proposal, but I am disappointed by the Welsh Liberal Democrats. Today is not about debating the merits of the child trust fund, but about concentrating on the most needy and vulnerable people in Wales. I am disappointed that they used the debate in that way.

As Huw Lewis said, this is about flagging up the issue that local authorities must take their duties as corporate parents seriously. They must not pay lip service to this notion, but take their duties as corporate parents seriously. This is a practical way for local government to do this, which the Assembly can highlight.

Children in care face enough challenges and disadvantages as it is, and I was encouraged by the spirit of the Minister's response. I am glad that I have the Assembly's backing for the principle behind the motion, and I look forward to a timetable on the way forward if the motion is carried.

By ensuring that child trust funds give these young people a valuable start to their adult life, as will be the case for numerous other young people, we will extend the full benefit of the child trust fund scheme to all our vulnerable young people in Wales, and I ask Members to support the motion.

gynnar er mwyn sbarduno newidiadau ym mywyd pobl ifanc sy'n arbennig o agored i niwed. Gofynasoch am y swm—yn fy nghynnig, awgrymais y gellid defnyddio £50 fel atodiad i hyn. Swm bychan ydyw, ond nid wyf am drafod hynny'n ormodol heddiw, gan y byddai'n rhaid i Lywodraeth Cynulliad Cymru weithio ar hynny os yw hyn i gael ei weithredu.

Yr wyf yn diolch i Brynle am y croeso cyffredinol a roddodd ei blaid i'r cynnig, ond mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru wedi fy siomi. Nid trafod rhinweddau cronfeydd ymddiriedolaeth plant yw'r bwriad heddiw, ond canolbwytio ar y bobl fwyaf anghenus ac agored i niwed yng Nghymru. Yr wyf yn siomedig eu bod wedi defnyddio'r ddadl yn y fath fodd.

Fel y dywedodd Huw Lewis, mae hyn yn ymwneud â thynnu sylw at y ffaith bod rhaid i awdurdodau lleol gymryd eu dyletswyddau fel rhieni corfforaethol o ddifrif. Rhaid iddynt beidio â gwneud sioe o dderbyn y cysyniad, ond, yn hytrach, cymryd eu dyletswyddau fel rhieni corfforaethol o ddifri. Mae hon yn ffordd ymarferol i lywodraeth leol wneud hyn, a gall y Cynulliad dynnu sylw at hynny.

Mae plant sy'n derbyn gofal yn wynebu digon o sialensiau ac anfantais fel y mae, ac fe'm calonogwyd gan naws ymateb y Gweinidog. Yr wyf yn falch bod y Cynulliad yn cefnogi'r egwyddor sy'n sail i'r cynnig, ac edrychaf ymlaen at amserlen ar gyfer y ffordd ymlaen, os yw'r cynnig yn llwyddo.

Drwy sicrhau bod cronfeydd ymddiriedolaeth plant yn rhoi cychwyn gwerthfawr i'r bobl ifanc hyn yn eu bywyd fel oedolion, byddwn yn ehangu mantais lawn y cynllun cronfeydd ymddiriedolaeth plant i'n holl bobl ifanc agored i niwed yng Nghymru, a gofynnaf i'r Aelodau gefnogi'r cynnig.

*Cynnig (NDM2453): O blaid 43, Ymatal 0, Yn erbyn 6.
Motion (NDM2453): For 43, Abstain 0, Against 6.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Barrett, Lorraine
Bourne, Nick
Butler, Rosemary

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Bates, Mick
Black, Peter
Burnham, Eleanor
German, Michael

Cairns, Alun
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davidson, Jane
Davies, Andrew
Davies, Janet
Davies, Jocelyn
Dunwoody-Kneafsey, Tamsin
Essex, Sue
Francis, Lisa
Gibbons, Brian
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Gwyther, Christine
Hart, Edwina
Hutt, Jane
Idris Jones, Denise
Isherwood, Mark
James, Irene
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Ieuan Wyn
Jones, Laura Anne
Lewis, Huw
Lloyd, David
Lloyd, Val
Melding, David
Mewies, Sandy
Morgan, Rhodri
Neagle, Lynne
Pugh, Alun
Sargeant, Carl
Sinclair, Karen
Thomas, Catherine
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Williams, Brynle

Randerson, Jenny
Williams, Kirsty

*Derbyniwyd y cynnig.
Motion carried.*

The Deputy Presiding Officer: That bring's today's proceedings to a close. **Y Dirprwy Lywydd:** Daw hynny â chyfarfod heddiw i ben.

*Daeth y cyfarfod i ben am 5.34 p.m.
The meeting ended at 5:34 p.m.*

**Aelodau a'u Pleidiau
Members and their Parties**

Andrews, Leighton (Llafur – Labour)
Barrett, Lorraine (Llafur – Labour)
Bates, Mick (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Black, Peter (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Bourne, Nick (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
Burnham, Eleanor (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Butler, Rosemary (Llafur – Labour)
Cairns, Alun (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
Chapman, Christine (Llafur – Labour)
Cuthbert, Jeff (Llafur – Labour)
Davidson, Jane (Llafur – Labour)
Davies, Andrew (Llafur – Labour)
Davies, David (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)

Davies, Glyn (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
 Davies, Janet (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Davies, Jocelyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Dunwoody-Kneafsey, Tamsin (Llafur - Labour)
 Elis-Thomas, Dafydd (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Essex, Sue (Llafur – Labour)
 Francis, Lisa (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
 German, Michael (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Graham, William (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
 Gregory, Janice (Llafur – Labour)
 Griffiths, John (Llafur – Labour)
 Gibbons, Brian (Llafur – Labour)
 Gwyther, Christine (Llafur – Labour)
 Hart, Edwina (Llafur – Labour)
 Hutt, Jane (Llafur – Labour)
 Idris Jones, Denise (Llafur – Labour)
 Isherwood, Mark (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
 James, Irene (Llafur – Labour)
 Jones, Alun Ffred (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Ann (Llafur – Labour)
 Jones, Carwyn (Llafur – Labour)
 Jones, Elin (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Helen Mary (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Ieuan Wyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Laura Anne (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
 Law, Peter (Annibynnol – Independent)
 Lewis, Huw (Llafur – Labour)
 Lloyd, David (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Lloyd, Val (Llafur – Labour)
 Marek, John (Cymru Ymlaen – Forward Wales)
 Melding, David (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
 Mewies, Sandy (Llafur – Labour)
 Morgan, Jonathan (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
 Morgan, Rhodri (Llafur – Labour)
 Neagle, Lynne (Llafur – Labour)
 Pugh, Alun (Llafur – Labour)
 Randerson, Jenny (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Ryder, Janet (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Sargeant, Carl (Llafur – Labour)
 Sinclair, Karen (Llafur – Labour)
 Thomas, Catherine (Llafur – Labour)
 Thomas, Gwenda (Llafur – Labour)
 Thomas, Owen John (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Thomas, Rhodri Glyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Williams, Brynle (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
 Williams, Kirsty (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Wood, Leanne (Plaid Cymru – The Party of Wales)